Araf eriw haf hyfryd dedwyd
Adfwyn dydaw dyfyr dychward gwyr wrth echwyd
Ogfanw a chegin a chlawedawg drydyd
Dymhunis tòn mor y merweryd
O Abermenai mynych dyllyd
Dy goglad gwenyg gwyn gyngreawdyr fynyd
Morfa Rianed Maelgwn nebyd
Neu dreidysi[19] tra lliw Lleudiniawn drefyd
Neu dremyrth eurawg caer Aderyd
Ac wrthyf cyferchyd o deyrned Prydain

[1] Diessig.
[2] Aswy.
[3] Eil wytle didrif didwryf gyviaw.—MS.
[4] Adawd.—MS.
[5] Hotyaw.—MS.
[6] Ar.—MS.
[7] Faw.—MS.
[8] Assy met pawb.—MS.
[9] Eityaw.—MS.
[10] Arfloed i Eingl.
[11] Derllytid uyn detyf uyn dewissaw.—MS.
[12] Yg gadellig uro dysiliaw
[13] Adawd —MS.
[14] Hywr dilideu.—MS.
[15] Dym gwallowyed.—MS.
[16] Yn arvonic caer ger hiriel beu —MS.
[17] Dy hepkyr alaf.—MS.
[18] Dunbarton.
[19] Neu dreitysy.—MS.

Pa fron heilin haelaf y syd
A minnau ym cyhud heb gywilyd
Ef ydoed Owain hir hywystl bedyd
Ac amdawd o fun nenwawl defnyd[1]
A dyfnwys a mi maith garennyd
Ac ym daerawd y draul o dra newyd
Ac amrant hirwrwn a grud hirwlyd
Ac yn llys afneud[2] ym eidunir
Hynoeth oeth dybydaf o dybwyf ryd
Ac os Duw o nef neu ym cynnyd
Ceinfod gan Llywy oni lawr ymhunyd[3]

DIWEDD.

GWALCHMAI AI CANT I OWAIN.

Ardwyreaf hael o hil Eneas
Adwyreaf glew llew lluch efras
Ardwyreaf dechaf o deyrned Prydain
A theyrnas cain Owain eur-was
Ardwyrews fy nhad[4]
Ei fraisg[5] frenhindad
Ar awen am nad
Ei rad ragfras[6]
Ardwyreaf innau fan cynhorawr fosp[7]
Ar barabl perwawd ar draethawd dras
Am cyhud am ud iawn eissillyd Idwal
Nid el heb dial mal galanas[8]
Ac yn llys Cadwallawn gan gedwellin
Lliwed ai cofäed ced gyfadas
Cynhelweis o draig dragon wanas
Cymhwylleis Gemais Gymry dinas
Neum carws Owain cerdawd yn was[9]
Gnawd wedi ryserch ryseiliaw cas
Neum rodes o'i fud heb oludias
Gorwydawd fyrf gnawd faw gymwynas
A mi neud adwen ar naid ym laen[10] y gas
Gawr aml[11] a llafnawr ar flawr flaid
A braid ym arwar ar bar golias
Abrwysgyl ei faran[12] ar gàn y glas
Gloes eisioes esgar
A'm cur mal carchar
Ac angerd anwar
Gnaws dar dan ias
Ac yn orau dyn Duw rygreas[13]
Cyn ei far arnaf neuaf na'm llas
Ac o'r maint y syd
Arnaf o geryd

[1] Defnyt.—MS.
[2] Llys afneued.—D. D.
[3] Ceinuod gan lywe ymy lawr ymhunyt.—MS.
[4] Vyn tar.—MS.
[5] Y vraisc.—MS.
[6] Y rad racuras.—MS.
[7] Cyntorawr fosp.—MS.
[8] Dial mal galanas.—MS.
[9] Certawd yn was.
[10] Neid ym laen, amlaen. [—MS.
[11] Amyl.—MS.
[12] Y varan.—MS.
[13] Ry kreas.

Cymyd a'th brydyd[1]
Ni byd yn fas[2]
Mab Grufud greid am dias
Maith dy dreisiau drag Euas
Ath lawdaf ith lawn urdas
Ath lawd[3] pawb pen teyrnas

DIWEDD.

ARWYRAIN OWAIN.

GWALCHMAI AI CANT.

ARDWYREAF hael o hil Grufud
O adian Cynan ceinwydiawn ud
Owain yd elwir
Arglwyd hywyd hir
Ef am dir yn wir
Yn wyth gyhud
Ef y'ngraid y'ngrew yn llew llofrud
Ef y'ngryd y'ngryn yn ryn rybud
Ef gwr gwelitor
Goleith y dewdor
Rag ofn yn angor
Hyd oror morrud[4]
Ef gwnaeth yn ungad dwy gad digud
Yn undyd herwyd herwyr
Cad fawr Faes Garned
Cad ystrad Astyrwed
Cadarn gywrysed
Cedeirn ossud
Cant a dau y'ngrau[5] y'nghrair achlud
Cnud a chnud a fud ymdanadud
Cad ar grad arall
Cad gawad guall
Cad mal bad a ball
A phellt ar grud
Cad a chedwyr Lloegr a llwgyr y fud
A gorfod i fod i fab Grufud

DIWEDD.

GWALCHMAI AI CANT I OWAIN GWYNED.

ARDWYREAF hael o hil Rodri
Ardwyad gorwlad gwerlin teithi
Teithiawg Prydain
Twyth afyrdwyth Owain
Teyrnain ni grain
Ni grawn rei

Teir lleng y daethant liant lestri
Teir praf prif lynges wy bres brofi
Un o Iwerdon
Arall arfogion
O'r Llychlynigion
Llwrw hirion lli

A'r dryded dros for o Nordmandi
Ar drapherth anferth anfad idi
A draig Mon mor drud ei eissillud yn aer
A bu terfysg taer i haer holi
A ragdaw rewys dwys dyfysgi
A rewin a thrin a thranc cymri
Ar gad gad greude
Ar gryd gryd graende
Ac am dal Moelfre
Mil fanieri

Ar lad lad lachar ar bar beri
A fwyr fwyr fyrfgawd ar fawd fodi
A menai heb drai o drallanw gwaedryar
A lliw gwyar gwyr yn heli
A llurygawr glas a gloes trychni
A thrychion yn dud rag reidrud ri
A dygyfor Lloegr a dygyfrang a hi
Ac eu dygyfwrw yn astrussi
A dygyfod clod cledyf difri
Yn seith ugein ieith wy feith foli

DIWEDD.

GWALCHMAI AI CANT I OWAIN GWYNED.

ARDWYREAF hael o hil Iago
A gennys dra chas dra Chors Fochno
A gyrchws glyw Flandrys a flemychws i eu bro
A bar yndaw yn diolo
A lithws llwytgun ar fun fo
A borthes branhes Brynaich gyfro
A gymhellws treth o Dwr Penfro
A elwir o wir orau Cymro

DIWEDD.

ARWYRAIN OWAIN GWYNED.

GWALCHMAI AI CANT.

ARDWYREAF hael o hil balch run
O Faelgwn Gwyned gwinfaeth reidun
O Gadwallawn Law hir llawrfab Einiawn Yrth
O arth orben aerbost catgun

DIWEDD.

[1] Cymyt ath brydyt.—MS. [2] Ny bryd yn uas.—MS. [3] Ath lawt.—MS. Ath lawd.
[4] Rac ofyn an angor hyd oror mor rut.—MS.
[5] Deu yg kreu, &c.—MS.

AWDL

A Gant Gwalchmai i Dafyd mab Owain.

Araf haf hear gweilgi
Eirioes coed oergled celli
Allwynin ossid o symud arglwyd
  Erglyw Duw fy ngwedi
Anwyd prophwyd prud ioli
Ud nefoed reg oed rodi
Amser ym ceri ef carwn dafyd
  Y defawd am llochi
Ni llwyd fy llechfod hebdi
Carenyd Dafyd dyfn fri
Nym rwyd geidw rodri nid reidus wrthyf
  Nid gwerthfawr ganthaw fi
Nym gwna o neb tra trosi
Tròsof ir gof arglwydi
Mor yw gwael eu goloi
A gwlad Cymru mor gymri
Nyd mod mau dewi heb honni pwy oedynt
  Prynesynt eu moli
Owain angerdawl anaw anfeidrawl
  Aer wrawl wrhydri
Cadwallawn cyn ei golli
Nid oed a lludw y llawdai fi
Cadwaladr cerdgar cerdau cyfarwar
  Cyfarfu a'm perchi
Madawg madioed godoli
Mwy gwnaeth uy mod no'm codi
Un mab Maredud a thri meib grufud
  Biau bud beird weini
Irdud urdas gymhelri
Callon clywaf yn llosgi
Lleaws teyrned lliaws dyfryded
  A'm dyfrys eu trengi
Trangaf truaf trueni
Tranc am oennis cyn no mi
Medyg a iolaf
Medyg plant Adaf
  Y Duw uchaf erchi
Archaf arch i Grist celi
Wy gaffael caffaf rëi
Cynhysgaeth dofyd
I gynnif dafyd
  I gynnal ei deithi
Can glod a gorfod gofri
Gwyr a thir a hir hoedli

DIWEDD.

CANU A GANT GWALCHMAI I RODRI FAB OWAIN.

Dymgwadoles Duw dyfyn bwylladoed
Dymgwallofies bod bud ar gyhoed
Dymgoluch gogled gweglyd luoed
Dymgodau dehau dyhynt breidioed
Dychrymynt fy nghlod y' nghlud fandoed
Dymcyfeirch pawb ym mhob lleoed
Pwy gorau gwledig yn y gwladoed
Dysgwrtheb gwrthrawd gwrthrod i honni
Hwnnw yw Rodri rwyd ar oloed
Ar wehelyth byth brys wy anlloed
Adaw wy wallaw o well gadoed
Arlludiaw Rodri i rodwyd y del
  Nyd gochel ryfel rialluoed
Nyd gwr gwyr i amug aml gnud gynfedyd
  Ai chantrefyd ai chantrefoed
Nyd ef Rodri mawr mur ciwdodoed
Nwy pen cynnadled pob cenedloed
Ys ef Rodri hir huysgwr deyrn
  Huysgwthyr cedeyrn y cadwennoed
Ac o Rodriawg rwyf lliwydoed
Rodri rad gymryd y byd fydoed

Bid ged gynnefawd gynnefin cyfrein
Cyn twrf dwyrein dwyre brwydrin
Bid wych y gogled uch gwled uch gwin
Bid lew yn deheu yn ehang fin
Bid gymry ny gnaws yg gnawd feithrin bar
  Ac ym cyfeillt car corf fysgiolin
Ac os mi ai haed herwyd twyllrin
Nym bo un cyfieith namyn Cain
Caraf Rodri draws dreis gyfredin ei enw
  Yn Efrai ac yn Lladin
Ac ym mhob cyfieith yn gyfiewin
Hyd yd breswyl hwyl haul Fehefin
Gollewin wledig wlad teithiawg hael
  Gwyr ail gyfael gwrawl gofawg
Gorsaf teyrned gwersyll wychawg
Gorsed i lluoed gorsaf nerthawg
Gorsefyll yn ryd rodawg annibellt
  Nid heb waed ar wellt ar wallt peithia6g
Ac o Rodri oed y Rodriawg
Mae yntau orau un tormennawg
Tormennoed anlloed an llyw tiriawg
Torfoed eurdorch oed am eurdorchawg
Teyrnfab Owain tremynniad trais hir
Treth treulir a'i dir yn digasawg
Traethaf o honaw honnaid farchawg
Tra ym donwy Duw dawn arderchawg

Ban yd ran ei rad i rodolion byd
  Balch ei fenwin beilch ei faon
Ban bref biw yn riw rag edeon
Pan orch eol cad cedawl wron
Ban beisg berion a bwystgunion—coed
  Cadr bonhed bud a berthon
Cyflafan taerdan rag teyrnon
Cain felaig pen draig a phendragon

Dragonawl feidriawl fadiain yn elfyd
  Alaf geinryd elw dy ganrain
Dy ganred dy ged dy gyfwyrain

Dy gynnif dylif dedlid gymain
Dy gymri gymryd
Dywyn dy wynfyd
Dy gangau genyd
A'm pryd a'm prain
Dy wasgar cynnygyn rag dyrain
Dy gwesgryn drudwyn drudwyr Lludain
Dymgorllwyd arglwyd argrain wyr Grufud
Dadanhud anghyd angerd Owain
Dychyrchws fy llyw llew mawr mirain
Dechennis dewis deurud goelfain
Dy warae orau dy orwyrain
Dy orofyn ar bawb hyd bell Rufain
Dysgwedwn gwelsant ar gan celain
Am draeth Edrywy adrywed brain

Erbyned erfai
Eur falchwawd walchmai
Yn awr difai
Yn urdedig
Yn synwyr yn llwyr yn llunedig
Yn faith ferth yn gerth yn goethedig
Yn enw un orig, yn emeinig emyd
Ediebrid ny diodrig
Nys muner na fer na fynedig
Nys difeirn cedeirn cad arglodig
Nyd yn wyry yn war
Yd wesgryn esgar
Yn wythfar yn weithfudig
Yn hywyd yn rwyd rag hwyedig
Yn ried Gwyned gwynfydig
Yn gar gan Dofyd yn ei garennyd
Yn dragywyd annhranghedig

DIWEDD.

ARWYRAIN MADAWG MAB MAREDUD.

GWALCHMAI AI CANT.

ARDWYREAF deyrn eurgyrn adawd
Eisor cor cwbldawn estrawn drallawo
Ystryw dra-mesur
Ysgawl pybl pobldur
Present penadur
Prysur durawd
Prydain â danad
Prydydion borthiad
Boed cyfoed dy rad
A'th wlad a'th wawd
Ethiw dy ergryd
Yn eithafoed byd
Arthur gadernyd
Menwyd medrawd
Madawg maws odrud
Mygrfab maredud
Meiriau drablud
Drablawd fosawd
Ac yssid arnad ar neb uwy gnawd
Na mwy gronni eur nog erwaint flawd
Ni ryd rwysg eryr
Hyd troed o'i dymhyr
Yr ofyn herwyr
Yn herw ystawd
Nyd haws yth esgar esgor dy gosbawd
Na chaffael tywyn ni bo tywawd
Nid oes gystedlyd
I hael hefelyd
Or a pyrth bedyd
A fyd a fawd
Nyd ydyw yn fyw
Ni daw ni dodyw
Ni chynan ni chlyw
Ni chlud molawd
Hyd pan del Cynan cain adfwyndawd
A Chadwaladr mawr mur pob ciwdawd

DIWEDD

MARWNAD MADAWG MAB MEREDUD.

GWALCHMAI AI CANT.

CARU Duw diwellig ymdired
Cyrchaf car cerennyd afneued
Car am oedd nym oes
Corawg fynawg foes
Corf eirioes, aur fy nghed
Caru dyn nyd dilys ogoned
Can dyddaw i fraw frwyn dynged
Cerais ud Powys
Cerifi fordwys
Cosb lloegrwys llaw hyged
A hedyw ni hawdd wyf oy fyned
Nym byd bun nym beidd dyn dyhuded
Dyhed dym goryw
Diwed arwyd yw
Diliw ryw, rin golled
Rewin mawr am wyr wawr waredred
Rwysg heb warth
Rwyd o'i barth ymborthed
Rydost fy mhenyd
Rydrwm fy nhristyd
Rym ergyd oer goded
Rag galar garw afar efrifed
Ryfei farw cyn Madawg mad aned
Cynawon cadud
Cadrfeib Maredud
Cad gyhud gynnired
Cyn arfod yn oes fod fy nghed
Mor gresin frenhin gwyn gogoned
Gruffud gredf uwel
A grym hy hywel
A hywyd oloed
A hwyaf arnaf ernywed
Ar deurud Fadawg fod tudwed

Tudwed to yd edrith fyth fyd cymry
A chymri a chymrwyn
A chymradw a hirgadw hirgwyn
A hirgur o dolur ei dwyn
Ac i duw o'i dawn
Yd archaf i arch iawn
Awdl frwythlawn
Frwyth gymmwyn
Cyfedmig geilig gal wenwyn
Cyfeisor êchdor ach drylwyn
Trilliw ei lafnawr
Treulyn ysgwydawr
Trylew fawr falch derwyn
Tyrfa torf terfysg heb difwyn
Heb diwad yn orwlad orllwyn
Gorllecheisi eisiau
O'i oesfriw aesfrau
O'i angau anghlaear
O freidin freenhin freidgar
O Fadawg o'i fod yn daear
O nenbren Powys
O draig dragonwys
O diphwys ei dafar
O difeithiad Lloegr llafn dyar wrth ud
Nyd wrth fedr ei alar
Galwaf Duw gan deifniawg adfar
Gal ofyd huenyd huarwar
Hywir draws draglew
Hywerth feirch orthew
Eurllew llech ysgar
Lluch ysgwn pan esgen ufeliar
Llawch eirchiad llaw borthiad adat
Llerw falch farchawg
Llafr fawr fam Fadawg
Llary llysawg lluosgar
Llywelyn llyw diarchar
A llawen cyn y bo llafar
Llawfryded frydau
Yr Madawg ys mau
Marth gofiau gyfesgar
Aes gychwyn ysgwyd wyn wanar
Ysgor corf ysglyf torf taerfar
Esgud ei angad
I esglywu gwlad
Gwleidiadon gyngwasgar
Gwae gymry gymri gyfagar
Goloed grud hyged hygar
Hygar glew hael ud
Hael fab Maredud
Hawl odrud gwaedreid cad
Ced eglur cedeyrn gur gyrthiad
Cad amlwg crai cyflwg cywlad
Cywleidiadon cyhoed nerth oed nawd
Cun gynnawd gynnifiad
Cenytesid llawr llwyr drefad
Llesgen deg llysoed cyfarad
O ben Pumlumon
Hyd borth Caerlleon
Pair dragon draig furthiad
O Fangor fangeibr oleuad
Hyd orwyd Meirionyd meidriad
Medresid mawr ri
Mawr ran gan deithi
Arwystli arwyste rad
Aur hwysgynt wyr Bledynt bleiniad
Aergorf torf terfyn achubiad
Och Duw na dodyw
Dydbrawd can deryw
Derwydon weini nad[1]
Diwreidiws Powys peleidriad, ryfel
Ry farw ud gwlyb ystrad
Astrus chwedl ry chweiris i Gymry
Ystryw chwerw nid chweriau i ryle
Ail marth mawr mor de
Ail yrth ail syrth fe
Ail gawd gne gnawd gyfre
Ail diliw dilain draig erhy
Ail dyd brawd braw ystawd ystle
Ail llam am edfyn
Yw llad llywelyn
Ail dechryn am dechre
Ail dewr ud ai trymgud trymde
Ail drais wael am hael am hynny
Am orwyr Bledynt
Ym gorflawd lledcynt
Aml edfynt am dyle
Am adfod arth arfod arf he
Heb edfryd y' ngweryd wely
Gwelais dorf am dwr
Gwelais wyr am wr
Am wledig Edeyrniawn
Gwelais frad a chad a chamawn
Cyfrwng llew a llyw Merfyniawn
Gwelais Loegr y' ngrwn
Gwelais ais yn dwn
A thonwaed ar estrawn
Gwelais haul yn heiliaw ban llawn
Yn medu medged i oru eirchiawn
Gwelais wehelyth
Ac eu trefnau tryth
Ac y treth ni ogawn
Gwelais gynt wy cenynt cw dawn
Rag Madawg mechdeyrn Lleifiawn
Lliaws twr twnfriw
A gwaed freu am friw
A Ffranc trwch trathawys
Lliaws torf o derwyn Argoedwys
Am ud glew a glywid a Lloegrwys
Lliaws bard a borthid ar ei wys
Ar ei fed o felged gwlad achrwys
Lliaws eurfeil fawr
Yn llys llary a llawr
Heb hyd fawr orffowys
Lliaws aes esmwyth falch Gaerwys
Ar ei helw a hwylynt trallynwys
Lliaws cledyf claer
A glaif rud raid aer

[1] *Neu*, veinin ad.—D. D.

A gawr daer drag i wys
Lliaws teth rag treth tra brimwys
A bydin a bedrawd tu eglwys
Lliaws gorwyd gwelw gwalch frowys
Frwysg ffer ffraeth fraisg grawn faeth gre-
Lliaws gwinau fadw frawd tywys [wys
Tu hir tref tremyniad amdyfrwys
Lliaws llwyd a llai
Lliaws erch erfai
Lliaws grai grym diffwys
Lliaw coch ceinwiw
Cynfyn ford fawliw
Felaig riw redecdwys
Lliaws du a dwn a mygdwn melyn
A milwyr dragonwys
Can ry gallas Duw draig Powys
Crei dechryn dechreu garawys
As rodwy fy ren reidun drugarawg
I Fadawg fad gynnwys
Gan lain y' nglan Baradwys
Gan engylion gloywon glwys DIWEDD.

BREUDWYD GWALCHMAI.

Boed ym dysgwy Duw dwywawl annwyd
Mal y dysgws Duw Dafyd brophwyd
Boed ym dysgwy Duw dwys ym gadwyd
Rag cadeir enweir yn weitheu rwyd
Kym llywy Duw yn diarswyd
A dyly arglwyd a erglywyd
Ry llofies yntef
Undawd gyfadef
Gan engylion nef
Neu ry-urdwyd [nwyd
Er mawr gwymp Madawg modur plym-
Am bost cad ced goeth oeth ym uthrwyd
Ni'm ethrefig Duw a digfryd osseb
Ny lludiwn i neb newid breudwyd
Nyd breidgof genyf cen bwyf llwyd
Lleas goronwy gwr yn ysgwyd
Nyd gau o'i angau ym hangenwyd
Yn agal gofal dyual dyfrwyd
Dyfryded fonhed fennig yd wyd
Dechryd hun a hoen hon pan dodwyd
Dychyrch cyfarwyd dychyfarwyd, a mi
O drechryni y tri yd ym treulwyd
Genilles gnaws aur awr a ducpwyd
Cwl oed fy ngadu cany adwyd
A adwy creawdyr mad y crewyd
Ei wadawl er Duw diawd a bwyd
A dillad i noeth nawd rag anwyd
A gwely a thy a thes aelwyd
Eli freienhin elwch cyd wyd
Nyd el yth blegyd neu ryblygwyd
Ac am bo o'm bud ym niwedwyd[1]
Bod Duw ym diheu cadwyd
A chadw dy gyfraith
Hyd ym cyfranc a'm llaith
A'm llwydaw golochwyd DIWEDD.

AWDYL

A Gant Gwalchmai i Efa ei Wraig.

Calan hydfre cain cynwyre
Cyfarwyd dwfyr yn y dyfyrlle
Cyfarwar ac wyf ar gywir garu
Ac afar gynwyre
Cennyn can ein Duw neud de
Cyfryw atreg cof atre
Cyfdaerant y ron a rin a cheryd
A chur gnodyd ar ne
Gnaws edyn adnabod bore
Gnaws am ban benial ystre
Gnawd o'm gwawd gwychran i falchlann[2]
Gnawd o drin dres aele [febin
Gnawd gwedi ryserch ryse
Sylwed gwyth gwrth y dwyre
Gnawd erof hiraeth a dygyllaeth echen[3]
Ac uchenaid fore
Gnawd march o feirch rabire
Yn farch dewr yn farch dyre
Gnawd gwraig gwell genthi
A fo gwaeth idi
Fy adas ni debre
Dilyw a dyfu dydbrawd a dyfi
I dygyfor i gynne
Yd y gyfwrw enwir yn enwerys goll
Y' nghyllestrig dande

[1] Ymuwetwyd.—Ll. D. D. [3] Hiraeth edgyllaeth echen.
[2] *Neu* Valchlaun, falchlafn.

CANUAU CYNDDELW BRYDYD MAWR.

ARWYRAIN I OWAIN GWYNED.

Cyndelw ai Cant.

Ardwyreaf hael hwyl gyfrgain yg cad
Hwrd gleisiau feidiad flaid cyfwyrain
Yn ail arwar mawr myn yd gyngain
Yn ail awduriaeth medfaeth madiain
Yn falch awyd gwalch goradain
Yn ail awen dofn o dwfn gofiain
Yn ail arwraid fy huadain
Yn ail arwyre ail arwyrain

Yn ail gerd i'm rwyf yn rwyd yd fain
Yn ail gair moliant moli Owain
Cyfarw ag Eingl am Degeingl dired
Gwaedlaw ar darwed gwaed ar darwain
Cyfarfu dreigiau riau Rufain
Ac essilyd ran fud y gwigain
Dragon o dwyrag draig o dwyrain
Draig wen ollewin well y dichwain
Oed cleudaer oed claer cledyf uch gwain
A llinon yg gnif a llafnae llain
Llafn yn llaw a llaw yn llad pennain
Llaw ar llafn a'r llafn ar llu nordmain
Ac eryfoed trwm rag tremid angau
Wyned creu ac eryfain
A gnawd y cigleu adneu ednain
Ar edrywan gwan gwayw yw yn adain
Ar edrywed gwaed gwaedai gigfrain
Marchogynt feirw ar fil frain
Marchogion Brynaich branhes Owain
Celyrfed dachwed celaned crain
Calenig udud coelud celain
Cynt yd awn am dawn am dadwyrain
Cerdorion amryw am rod Owain
Ar ha cadr cadell hiriell hiriain
Ar berging coeling am eu coelfain
Ergyrwayw cludlain clod huysgain
Eryr huysgwr ysgwyd arwain
Erchwyniawg trylew trylwyn uch prain
Tryliw ei ongyr angryg rysgain
Gwaith Aberteifi torrynt grain waywawr
Fal gwaith Fadon fawr wriawr oriain
Gwelais gadau geirw a rud feirw rain
Oed ryd i fleidiau eu hargyfrain
Gwelais eu hadaw heb eu hadain
Y dan draed adar gwyr gwanar gwain
Gwelais eu trychni trichant celain
Gwelais wedi cad colud ar drain
Gwelais rag terfysg twrf adfirain
Torfoed ymosgryn tarf ymysgrain
Gwelais trydar crain y ar drumain mor
Gwelais ei hesgor ysgar dilain
Gwelais beleidr gwyr am fagwyr fain
Gwelais parau rud rag ruthr Owain
Gwelais ar saeson trychion truain
Cyn dyd difedyd fedel cyngrain
Gwaith fudig gwledig gwlad feibionain
Gwaith bryn dyganwy au dyganrain
Gwelais yn Rudlan yn rudlanw cain
Torf arwr am wr am orwyrain
Gwelais rag Penfro penadur digard
Gwelais rag Penard pen ar digrain
Gwelais eu berthl wrthlu yg crain
Yn yd byrth berthdud golud gwylain
Gwelais dyrf dygyn gwelais dyrain
Gwelais dyrawr awr arwyd dadfain
Gwelais darf ar gyfarf ar gyfaniain
Gwelais aer uch caer uch coed Llwyfain
Nyd oedynt wyned wryd fychain
Nyd oedud fygwl fugail Prydain.

DIWEDD.

ARWYRAIN I OWAIN GWYNED.

CYNDELW A'I CANT.

ARDWYREAF hael hawl diachor
Aerdarf arynaig aerdorf angor
Aer fawr fud fawr far aer bar bedror
Aerfawr fud fawr falch gwalch gweilch
Aer gyngrwn ysgwn aesdwn eisdor [oror
Aer gyngredf annedf anniolor
Aer a wnaeth ar draeth a dreithitor
Rwng Arfon peues a mynwes mor
Aer rag dinas caer cadr dyodor
Cadarn gyfarfod gwrthod gwarthfor
Oed dygyngwed Eingl oed digyngor Lloegr
Llu Prydain yn ymatgor
Oed anystwyth gwyth gwaith anesgor
Am Deifi am dwr am dwrf angor
Oed amdroch llynges aches achor
Oed amgen gwaith Fon a gwaith Fangor
Oed amgoch ystrad am ystryw por
Oed amlwg ysgwyd am weun ysgor
Oed amliw gelau oed aml gelor
Oed am dinau crau clau clywitor
Oed gwrd am alaf am Alun drefred
Oed gyr ban brofed cyfred cyfor
Greid goluch dyluch dilochitor
Grym afrdwl Ercwl ar grynitor
Teyrnas fy rwyf rwysg Edifor
Teyrnfoes eirioes eiriachador
Teyrned ai gwyl a gwelhator
Teyrnged yth law taw telitor
Teyrnaig arwar arfollitor gwen
Teyrngerd awen amgen am gor
Arwred Gwyned gweinidator
Arwyrain Owain cain cenitor
Arglwyd a'm cynfaeth cyn fy hepcor
Ar feirch pasg yg gwasg yg gwisg porfor
Arglwyd am porthes porthle teudor
Porthloed ysgwydawr pyrth mawr marmor
Arglwyd far gwrdfar gwrd faes oror
Arglwydaf gwraf gwrhyd echdor
Arglwyd Duw hedyw boed hawd amor llary
Llid esbyd ysbar ysbydawd ior
Nyd amdlawd nam gwawd nam gweditor
Yth fyw Faelgwn ryw ran gyfeisor
Nyd af y genyd mynwyd mawrior
Nyd athwyf drais wr dros dy gyngor
Nyd adwyd hebof heb gof heb gor
Nyd ediw hebod raclod ragor
Nym golo Gymro gwr diohor
Nym golud golut golythator
Nym gomed oi barth borthfeirch efrifed
Beirnaid am regyd beird am ragor
Ath folant feirdion derwydon dor
O bedeiriaith dyfyn o bedeir or
Ath gyfarwyre bard bre breudor
Cyndelw cynhelw yno cynnor
A'th gyfeirch ce wr cyfurdator
A'th gyfarchaf well pell itor
Hanpwyf well o honawd gawd gweditor
Hanpych well o honaf

ARWYRAIN I OWAIN GWYNED.

Ardwyreaf hael o hil Einiawn yrth
Ni cheuir ei byrth erbyn berthnawn
..... gwalchlid gweilchlawn
A oru gwythlawn
A orfu ar llu rawn
A oreu cadau Caredigiawn
..... cynnygir coelfain cyflawn
A budlaw bodlawn
A dylud cy frwythlawn
A dy cynnif canys dichawn
A dyly Cymry ai cymer drwy barch
Fal y cymerth march gwedi meirchiawn
A dyryd ei fud i feird proestlawn
A dyran atan ataw yd awn
A fo balch dulliaw o dull cyfiawn
A fo traethadur traethed ei dawn
A fo bard digard o myn digawn
Cer bron bro lydan gochaan gochaawn
Y dangos nad byw llary llyw Lleisiawn
I geisiaw mynawg myned a wnawn
Ni cheisiaf drostaw medyliaw myned
Nid ceisiaw caled ced Caswallawn
Nis llud llu cyngredf dedf Dyfnwallawn
Dyfnwallaw anaw anewig dawn
Nis card cyrd amnad anghad anghrawn
Nis car llid fyged lledfegin grawn
Nid lle..gan lluchfar lluchfeirch erchrawn
Nid lle...an helder crynoder crawn
Crynai Faes Carned rag carnial ei feirch
Rag tarf dihefeirch tyweirch tir dawn
Crynai flaen bra...d brad gad greulawn
Rag bar braisg wledigfal brig briw gawn
Crynai elorfeirch bre bryd nawn
Crynai elen rud rag ei we.....
Crynai gylch cadlan cadle estrawn
.....alch llafar llas eithiniawn
Crynai a chwr ysgwydawr
Pan dorres wr Mebwyniawn
Crynai ys is gwyn fynnawn
Mau fad gwaywdawn
Trydar ffawd awn
Trylew
Tryliw eu peleidr pan fo
.....am fedgwyn am fedgyrn llawn
Tyrrant am eu rwyf rwysg anogawn
Torfoed amnifer am ner am nawn
Am eryr cedwyr a'm ceidw yn iawn
Cedwid.....nef nerth Merfyniawn

MARWNAD I OWAIN GWYNED.

Cyndelw B. M. ai Cant.

Cadwedig ym cof codiant om arglwyd
Cor dygwyd caer dygant
Aros marw mawrgoel darogant
Armes draig dragon pedrydant
Llid ergryd esbyd esborthiant
Llydw amnawd oesgawd ysgarant
Llwrw branes ll ormes ormant
Llyw llafnawr llew llawr dichwant
Llwybr llanwed llenwis y ant
Om prydest ym prydain amgant
Amgre bryd o bryder adfant
Am drist beird am if diyrdant
Amgen fyrd o'e gyrd yd gerdant
Am Owain Gwyned yd gwynant
Mur moreb deu wyneb dyfnant
Dyfnais rod o'i fod o'i fediant
Medgwyn maith a'n maeth o'i ariant
Medgyrn dyrn dyrniad fant
Medel cyfriau cyfrifant
Ffwyr ffyrfder ffer ffyniant
Yn gwrhyd arddunian
Gwrd eifor eisillyd Morgant
Nid aeth trais tros Emrais a ánt
Oi amrawd gwarthflawd gorthoriant
A saint saith mil dybuant
Saith angerd seg yn difant
Glas ferau heiyrn heasant
Glas lafar gwasgar gwisgasant
Am dwyll marchogion marchogasant wyr
Am du a lliant
Am ardal Caer Dathal doethant
w amdrai amdrwch yd aethant
Am aid fleiniaid flaid anant
Am drychioed am drychu naw cant
Amdrychion berion buant
Amgoch bryn a phenryn a phant
Aml celain y'nghrain y' nghreunant
Y g.....creulanw ewyngant
Dor ysgor ysgwyd eliphant
Elyf nawd adrawd edrywant
Edewyd arneu ernywiant
Er nad byw rywr ryw runblant
Card anghard anghen a'm peidiant
Car cerdau cerdorion ramant
Cadarn farn feirniaid gwestifiant
Cyrd Forach cyfedach carant

Kerdgar cyfarwar cyfarwyd yw Duw
Diwedwr cyn trychwyd
A'm rodes nid rod gwaradwyd
Trech wyned haeloned hylwyd
Traul gordrud golud goleurwyd
Coel calan cyman cymhenrwyd
Glew gloywrad gloyw gyngad gynghwyd
Cyn canfeirch o duch ceirch cynnwyd
Cynwan torf terfysg ymorchwyd
Cynwayw gwyth gweith fudig arglwyd
Gwedi gwalch gwladlawch gwladlwyd
teyrnas
Teyrned gkwyd
Gwedi gwawr gwriawr gwreidrwyd
Gwraid ri gwesti gwastadrwyd

Gwedi gwr arwr ar orwyd
Ner orug orau bei canmlwyd
Ni thwyll pwyll pellnod heb arglwyd
Ni thyf cof rag codiant ebrwyd
Ryd euras riau ryd afrwyd
Ryd eurais Emrais amrygwyd
Neud efryd cerdawr neud afrwyd cerded
  Cerd am ged am gerthrwyd
Can ethyw llawr llyw llawn awyd
Llawch Gwyndyd gwendud ehangrwyd
Beird borthiad braint neirthiad nerthrwyd
Braw Brynaich ysgwyt faich ysgwyd
Balch edlid yssid ys arwyd
Ys ernyw ys arnaf yd gwyd
Ys wyf wedi rwyf rodrwyd
Bard difro dyfryd heb arglwyd

Arglwyd glew aerllew ydan eurllain gled
  Gledyfal gynwyrain
Arglwyd rwyd rud fu ei gigwain
Arglwyd hael hirglod dadwyrain
Arglodig arglwydi orchrain
Argledr llawr arglwyd mawr madiain
Aryf eryf eryr Nanhoeunain
Araf yw arwyd y dichwain
Ardrud walch gwrfalch goradain
Ar hil Run rud weryd a main
A dragon coeling nid coelfain, ei dwyn
  Ys coel brwyn braw dilain
I gerdawr a'm preidiawr a'm prain
I eilwyon am eirchion archfain
I flaid rud i fraw fud i frain
I feird dwfn dyf yd a gofiain
I gyndelw oed ardelw urdain
Urd wledig llurig llu aergrain
Urdws Duw diwyrnawd Owain
Urdawl ben priawdnen Prydain
Mal gwaith Arderyd gwyth ar dyrfain cad
  Yn argrad yn aergrain
Uch myrd wyr uch myrdin oed cain
Uch gwalchlan uch gwalchlad pennain
Uch gwayw ryn yn rudaw adain
Uch gwaed gwynt golau hynt gwylain
Uch gwaed lyry gwaedlanw gwaedai gig-
Uch gwaed frau uch adnau ednain [frain
Yg gawr huysgwr huysgain yn wybr
  Yn ebrwyd gyfarwain
Y gwrfoes yg orfaes cyfrgain
I gornawr gwriawr goradain
Ygwrial ygwryd Owain
Ygorun aergun aergyfrain
Yn aergad yn Argoed Llwyfain
Ym pen draig dremynt oed celain

Calenig beird byd buched redusion
  Bugail Mon mall dired
O'i fawrwlad morad maraned
Ym roded rifed anryfed
Ym aelwyd yd barthwyd berthed
Berth wartheg anreg anryded
As dygaf ys dygyn atchwedled
Ei fawr glod hyd fawr glwyd rossed
As duch Duw yny dangnefed
A dug trais tros Erch a Heled
A wnaeth anfadran anfedred ar wyr
  Ar weryd maes Carned
Pan amug Tegeingl teg rysed
Rysfa cad cadellig foned
Oed tramawr trameirw yn dyhed
Oed trymle gweithle gwythloned
Oed tromwan coelwan calfed
Oed tramawr tremynai tachwed
Oed tremid cyfnewid cochwed
Cledyfal clau dywal diwed
Clwyf efnys dyfrys dyfryded ys mau
  Braw gofiau brau gyfed
Porthi hoed argoed argywed
Porthloed gwawr porthes llawr llaried
A'm rodes rud aur gymmyred
As rodwy Trindawd trugared
Gwrawl hawl haelonaeth gorfed
Gwrfalch balch bwlch y difâed
Gwr efrais yn trais yn trofed
Gwr afraid ei farwnaid i fed
Gwr gwaedrwyf aerglwyf eurgled oed ei arf
  Eurgorf tarf torf hywled
Gwlyd wrth wlyd wrth wlad gyfanned
Garw wrth arw wrth awr gymined
Chweg wrth chweg wrth chwedl ei fawred
Chwerw wrth chwerw wrth chwant cyw-
Gwrd wrth wrd wrth ordrud gwned [rysed
Glew wrth lew wrth lyw teyrned
Gwyl wrth wyl wrth ellwng refed
Gwn oed hwn oed hiriell Gwyned
Gwyned ar gynnan aer gynnygn rebyd
  Gwystyl bedyd byd eilig
Ym buched haeloned hilig
Hil haelion heilyn dychymig
Hawl greulawn hael hwyrgrawn hirgryg
Hard i fard ei fwrd nadolig
Oed aelaw caer aelwyd Beblig
Pobl ar wled yn hed yn hirdrig
Mygr dragon gwron gwyrenig
Medw medlys melus eumestig
Meiriau angau angheinmyg ei farw
  Ei farwnad ni difyg
Aerllew tarf torfoed friwenig
Arllaw lles arlleg tres treisig
Cyrd cerdynt mal cynt Celliwig
Ar wyr wawr ar feirch mawr mawrthig
Fraeth leision leisiaid cynnhebig
Ffriw eurdo ffrwyngno ffroen dyfrig
Ffrawd wallaw anaw anewig
I fynu i fyned am dirmyg
Baran llanw ger llynges gerrig
Blaid aerflawd amnawd ammwythig
Berth nerth der haelder huenyg
Burthiad cad cedeirn ar drysug

Bud am bu am bo i edmyg
Bod am rod am rwyd galenig
Buelyn am win am wenyg o fed
  Feird orsed wersyllig

Gwersyll torfoed tew llew lladai
Gorsaf tarf taerfalch fal Gwalchmai
Gorfaran gwrfan gorfydai
Gwr yn aer yn aros gwaed fai
Bryd Erof gryd arf grau a dodai
Brwydr aergrwydr eurgrawn ni gudai
Bradawg waith gwyniaith gwynygai
Brys briwgad brig bragad briwai
Brwysg lafnau yg crau yg crai celaned
  Cymined cymynai
Gwyrd heli Teifi tewychai
Gwaedlan gwyr a llyr ai llanwai
Gwyach rud gorfud goralwai
Ar doniar gwyar gonofiai
Gwydfeirch ton torrynt yn ertrai
Gwythur naws fal traws ai treisiai
Gwydfid Eingl yg clad ai trychai
Gwydgwn coed colled au porthai
Gwydwal dyfneual dyfnasai...fy mod
  Fy mediant a gafaai
Collais arglwyd call nym collai
Corf eurdorf eurdal am rodai
Cof cadflawd a'm cawd a'm carai
Car cerdawr cerdau a'i cyrchai
Gryd wasgar lluchfar a'm llochai
Grym dillud dullus fab eurai
Gredf greidwyr a chyfyr a chai
Glew defawd glyw oestrawd aestrai
Ystre hynt wastad gwestai—gwyndigyf
  Gwyn eu fyd bieufai
Gwyth ysgor tra mor tra menai
Gwlyd elfyd elwais o honai
Tra fu Owain mawr ai medai
Med a gwin an gwirawd fydai
Gwyned wen Gwyndyd len ledpai
Gwedi gwawr cad fawr ai cadwai
Pa wladwr arwr ar wyndai
Pa wledig a wledych arnai
Gwledychws ar wlad ar wledolion med
  A mediant ar dirion
Gwledychawd molawd mil feirdion
I foli telthi teyrnon
Gwladoed pair cadair cadfaon
Yn nherfysg yn nherfyn Saeson
Yn nhorfoed cyhoed cyngreinon
Yn nharf enwerys gwrys gwron
Yn nhwrf llu a llef ysglyfion
Cyrn cenynt cerdynt carn-weilwion ar dir
  Ar derfyn Caerlleon
Eurllew byd esbyd esborthion
Aur llyw llwyth lleithig prydydion
Aur golofn aur diofn deon
Aur anreg redeg rodolion
Eurgor dor dinas cerdorion
Eurgorf torf teyrnas nwython
Eurdraig Eryri eryron—fybyr
  Eryr gwyr golluchon
Dangosed gweithred gwaith Fadon
Yn nyd gwyth gweithfudig dragon
Ar llwrw ysgwydfwrw ysgyrion
Arllwybyr llad a llafnau rudion
Ar greulif ar greulyd feirwon
Ar greulan baran berion
Ar greulen ar greuled Arfon
Creulanw gwaed am draed amdrychion
Amdrychid erfid arfogion—i lawr
  Am eurglawr mwynfawr Mon
Nid gair gau ef gorau gwron
O For Ud hyd for Iwerdon
Hyd Elfed trefred trag Idon
Hyd Elfael eilfa Gwenhwyson
Hyd weryd wryd orchordion
Hyd warawd reidgnawd reidusion
Hyd Gaer Gaint i gadw braint Brython
Hyd Gaer Llyr a hyd Gaer Lleon
Hyd Ystreigl hyd Eingl hyd Aeron yd aeth
  I bennaeth o Benmon
Pennaf gwr nid gorwag hofder
Pen riau riallu ymher
Tres trachwres trochiad ei wrymder
Prain Prydain preidwyr ehofnder
Pair enwair enwawg y glewder
Par anwar anwas yn racter
Pobl wasgawd ysbydawd oesber
Post esbyd oesbarth elifer
Asbarn mwy dadfarn ai dadfer—yn iawn
Na wnaeth crawn crynoder
As molaf mal yd adroder
Mal ym cant o bob cant cymer
Am hirwnaeth hiraeth hiramser
Hil Maelgwn Maelgynig ener
Marw mawrdraig mawrdrwg y dadfer
Mab Grufud cledyfrud clod fer
Maws medgyrn teyrn tyner—a'm rodai
  Nid rodion ni daler
Nid a gwad a rad ym roder
Am rodes rwydles rwyf nifer
O'i alaf amliw biw breufer
O'i breidiawr o'i fwynfawr funer
O'i winllyn o'i winllad ucher
O'i wenllen o'i wenllys
O'i wenllaw anaw anober—nym doeth
  Can doeth ym a llawer
O gynnif o gynnhal iawnder
O gyngredf o dedf o dyfnder
O difryd Gwyndyd rag gwander
O warthrud gwrthryn gwyn gwarther
O dyrru ar llew llu llwyrder
Llyw llwyrdrais llwyrdraws y nifer
O dorri o derwyn ober
O gadau rifedau rif ser
O gadwyd Prydain rag pryder—gorwlad
  Gorflodiad gorflyngder
Boed llawenyd boed lleufer
Boed cyfadef nef ym Ner DIWEDD.

AMRYSON

CYNDELW A SEISYLL BRYFWRCH, AM BENGEIRDIAETH FADAWG MAB MAREDUD. A CHYNDELW A DECHREUWYS.

YM hyfryd yn cymryd cylch
Gan llyw cyfed llew cyfwlch
Marchogwni marchogaeth falch
Marchogion meirch gweilwon gweilch

SEISYLL.

Gweilch cadau yn cadwyd maes
Gwyr gwanar gwawr trydar trais
Gwynfyd beird bod yn eu hoes
Gwendorf gwyn deyrn Powys

CYNDELW.

Cyd bei tau wledig hyd wlad bor—eur-
Aer farchawg deifniawg dor [awg
Rybydei fau faith ragor
Rybydwn bencerd ben cor

SEISYLL.

Am faes tref galw lys twrf emys—a glyw
A glywir yn hysbys
Twrf gawr gorwydawr gochwys
Fal twrf torredwynt am brys

CYNDELW.

Cyd bei tau wledig wlad Run—am Mael-
Maelgynig a borthun [gwn
Kyd bydei fau fed anhun
Rybydwn bencerd ben cun

SEISYLL.

Mi biau bod yn bencerd
O lawn llin iawn-llwyth Culfard
A hyn Cyndelw fawr cawr cyrd
O hon ni henyw beird

CYNDELW.

Rym gelwir yn fyrf yn fysg—arab hwyl
Yn arabhawl derfysg
Yn fyrd cyrd cerd dafawdlysg
Yn brydyd yn brifard dysg

DIWEDD.

ARWYRAIN MADAWG FAB MAREDUD.

CYNDELW BRYDYD AI CANT.

ARDWYREAF naf o naw ran—fy ngherd
O naw rif angerd o naw ryw fan
I foli gwron gwryd Ogyrfan
Gorun morgymlawd ai goglawd glan
Par-goch glyw glewdraws maws mab Cad-
fan
Pell yd wledych wyr wledig Arran
Perging cyniwair pair Pedrydan
Pedrydawg Fadawg farchawg midlan
Fy mard lef is nef nid anghyfan
Fy mardair ith barth nid gwarth nid gwan
Taer am aer am gaer am gain walch-lan
Tew am lew trylew traul arian gan
Tarf am galenig torf am galon
Twrf ton fraeth am draeth am draed gwylan
Perierin y' ngofur y' ngofan—fy ngwawd
Pergnawd parch folawd fal nas diflan
Erchwyniawg esgar ysgwyd trywan
Yr yfais i'th lys leisiawn gyman
Eurmydedawg lyn erbyn eurban
Eurgyrn buelin bueilgyrn bàn
Eirioes y perthaist parth ac atan
Emys llaw llamhir a dan lluman
Erchlyfn archlyn ceirw uch cain ebran
Eiliw pysgawd glas gleisiad dylan
Ermid ei greulaw ar ei greulan
Eryr argyfrain er yn gyngran
Ergyrwayw cyncad ar ferch cyncan
Erlyniad fleiniad flaid cynfaran
Arwar fy ngwrdfar ar fy ngwrdfan—rwyf
Canwyf py ganwyf cad clwyf cludfan
Canaf can caraf can wyf gwaethylfan
Canu cerd am borth am byrth cloduan
Cyfodwch cenwch cenyf o'm bàn
A mi feird imewn a chwi allan DIWEDD.

TRI ENGLYN

A GANT CYNDELW FAWR I FADAWG FAB MAREDUD.

MADAWG ai ceidw can urdas
Bryn diormail diormes
Bre uchel braint ardangos
Lle trydar Llech ysgar llys

Yssid yth llys liaws dyn
A chedyrn a chyrn amgen
A gwawd gwedi gwirawd gwin
Ac aur llathr yn llaw deon

Deon unged yn ungoel
Ys berth yd borthir y' ngwyl
A glew ynial yn ynniail
Y glyw ym myw Madawg hael

DIWEDD.

LLYMA ENGLYNION

A GANT CYNDELW FAWR I FADAWG FAB MAREDUD.

YM maes bryn actun canhun neu rifais
Am rhudlafn ar fy nghlun
Ar untrai trychan catcun
Ys elont nef ar nun

Ym maes didlystun oed duhun ein glyw
Nid oed glod gwarafun
Pob llary ar llyfnfarch diffun
Pob llew a llafn ar glun

Ym maes y croessau croessassam deon
Marchogion meirch gwinau
Hawlwyr hwylynt am breidiau
Haelon cledyfau rhudion clau

Ym maes tref galw lys torf emys ein glyw
A glywir yn hyspys
Twrf marchogion meirch gochwys
Mal turf torredwynt am brys

Ym maes mathrafal mathredig tyweirch
Gan draed meirch mawrydig
Ar dadl cynnadl ced fudig
Arwyd iawn wladlwyd wledig

Nis gwyr namyn duw a dewinion byd
A diwyd Derwydon
O eurdorf eurdorchogion
Ein rif yn riweirth afon

Llawer gorwyd blawr yn llanfawr llog-
Llemenyc yn ionawr [awd
A llawer gwr gwrd yngawr
Gan Llywelyn lles kerdawr

Llawer gwr a march ym maessing hedyw
Hedychdir digyfing
A llawer gwr gwrd yn ing
Gan hael o hil gadelling

Yn ystrad langwm ystyriais ein glyw
Ystyrient a genais
Torf fadawg fynawg fur trais
Torf lywelyn rywelais

Rhan Llywelyn llyw aere
Or rug hyd ym mudug wre
Llawer marchog march dyre
Lliaws gwas ar hyd glasfre

Ban in dyfynnwyd i gynwyd gadfor
Ein cyngor cynnigiwyd
Cedwyr balch bwlch eu hysgwyd
Hyd y pasg in gwascarwyd

Nid adawo duw dyn yn fyw bellach
Deu byllawg er deryw
Marw madawg mawr ym eilyw
Llad llywelyn llwyr dilyw

Hawdamor waelest edwy
Ar llys gan ystlys dyfrdwy
A lle teg tebyg i draeth
A wnaeth fy hiraeth fwyfwy

Hawd ammaur i gwm brwynawg
Ar tai ar terfynau enwawg
A lle ni llyssir cynnrann
Ar llan od uch llys fadawg

Er pan yw marw madawg wynn
Nid llawen llawer unbenn
Gwae yw y byd hyd i gwnn
A braint diffaith y weithion

Canys bu marw tarw trydar
Ac nid byw fy llyw llawhir
O thyrr calonn rag galar
Y fau a fyd dau hanner

Pei byw llary lleissiawn
Ni luestai wyned ym mherfed edeirniawn
Heb wyr llad gan llyw camawn
Llith berion lluydion llawn

Ym mywyd madawc ni feidiai undyn
Dwyn terfyu tra hyfryd
Nid medwl medu hefyd
Namyn o duw dim o'r byd

MARWNAD FADAWG FAB MAREDUD.

CYNDELW AI CANT.

CYFARCHAF ym ri rad obaith
Cyfarchaf cyferchais ganwaith
I brofi prydu o'm prifiaith—eurgerd
Ym arglwyd gydymdaith
I gwynaw Madawg medfaith ei alar
Ai alon ym mhob iaith
Dor ysgor ysgwyd ganhymdaith
Tarian yn aerwan yn eurwaith
Twrf grug yg godug yg godaith
Tarf esgar ysgwyd yn nylaith
Rwyf myrd cyrd cerdorion wobaith
Rud dilud diledf gydymdaith
Ry-gelwid Madawg cyn noe laith
Rwyd galon difogion diffaith
Rwyd attaf atteb fy ngobaith
Ryd wisgoed wesgwyn ganhymdaith
Rud ongyr Bran fab Llyr Lledlaith
Rwyd ei glod o gludaw auraith
Rudfoawg faon ny olaith
Rad wastad wystlon ganhymdaith
Llafn argrad y' nghad y' Nghynllaith
Llafn gwyar a gar o gydwaith
Llaw escud dan ysgwyd galchfraith
Llyw Powys peues diobaith
Hawl ofyn gwr ny myn mabwaith
Hwyl ysgwn ysgwyd pedeir-iaith
Hil teyrn yn heiyrn henwaith
Hael Fadawg uender anhywaith

Can deryw darfuam o'i laith
Can daerawd darfu gydymdaith
Oed beirdgar bardglwm dilediaith
Oed cadarn angor dyfn for diffaith
Oed hir ei drwyded oed hyged hygar
Oed llafar gwyar o'i gyfarwaith
Oed buelin blas gwanas gwaedraith
Oed eurllew o aerllin gadiaith
Oed difarn gadarn gydymdaith—unbyn
Oed dyrn yn heiyrn haearn dalaith
Ai diwed ys bo can bu ei laith
Y difwyn y cam gymaint ei afaith
Y' ngoleuder saint y' ngoleudaith
Y' ngoleuad rad rydid perfaith

DIWEDD.

EGLYNYON

A Gant Cyndelw y Deulu Madawc. M. ar-edut, pan Uu Uaru Madawc. Am Glybod eu Godwryf.

Godwryf a glywaf am glawr maelenyt
Mur eluit eiluann[1] gawr
Teulu madawe mad anawr[2]
Mal teulu bann benlli gawr
Godwrf a glywaf am glawr yeithyon hir
Hydyr y wir ar saesson
Teulu madawc mur dragon[3]
Mal twryf tormennoet kynon
Godwryf a glywaf godor drein waewawr
Gwae wyr lloegyr[4] yn dyt kein
Teulu madawc mur prydein
Yn llwythawc yn llithyaw brein
Godwryf a glywaf am glawr llafur rei
Ryuelglod disegur
Teulu madawc[5] mawrglod mur
Mal gawr toryf teulu Arthur
Godwryf a glywaf[6] am glawr uagu glyw
Glew[7] vadawc bieufu
Trinua cyua kynytu
Trydyt tri diweir deulu
Tyll eu hysgwydaur teruysc vawr vaon

DIWEDD.

EGLYNYON A GANT KYNDELW Y YWEIN.

M. Madawc.

Ywein aer dilein a dylif yg gawr
A llafnawr llat heb rif

[1] Elfan.—Ll. du.
[2] Anhawr.—Ll. du.
[3] Galon.—Ll. du.
[4] Gwae lloegr.—Ll. du.
[5] Eglur mur.—Ll. du.
[6] Ar.—Ll. du.
[7] Gloew.—Ll. du.

Ac o du gwaedlafyn gwaedlif
Ac ar dir kynnygyn kynnif
Kynnytws aeruleit acrulawt teyrnet
Teyrnas gyuadrawt
Ny bu trwy hunaw tra hawt
Ny bu trwy gyscu gasgawt
Gosgortuawr keduawr cadw amuod wrthyf
Y wrthyd nam gwrthod
Om bot ny bytwn hebod
Nyd ef oet uy mot uy mod
Gan vod yn unvreint yn unvryd am llyw
Llaw urydet nym ergyd
Dragonawl wrawl wrhyd
Dreic wynua dragon wynuyd
Gwynuydic y ueirt oe uawrdawn rebyt
Gwr am ryt rut eurdawn
Arlleg toryf rac twryf kamawn
Ual twryf ebyr yn llyr llawn
Llawn am lyw estrawn am lyw ystrad mawr
Gwyr am lawr gwyr amlad
Ac yn dyt rebyt rotyad
Rotyon o ueirch rutyon rad
Rad wallaw anaw yn oed awyt kyrt
Cawt arnaw ny gyflwyt
Pryder dragon rotyon rwyt
Prydein glawr eurglawr arglwyt
Arglwyti gyntwryf gyntorawr yn toryf
Yn teruysc bytinawr
Marchawc balch bwlch y aesawr
Meirch anvonawe mynawc mawr
Mawr ged agkaled ygkalan yonawr
Mawr llyw llawr llaw gyfran
Pan dygyrch cludveirch cloduan
Pan vyt kyd kedwyr am pann
Am pennaeth yt ym am pennaf terrwyn
Tyrrant veirt am alaf
Teyrneit hael teyrnaf
Teyrnet orset orsaf
Nyth orseif esgar esgynvaen mawruro
Mawrvrydic yth adwaen
Gwawr glyw glew diuwg blwg blaen
Gwalch yn eurgalch yn eurgaen
Eurgolofyn arwr yn arwein eurgrwydyr
Yn eurgreir gywyrein
Yn aergreu mawr yn aergrein
Ergryd byd bid rac ewein. Ewein

AWDYL I EWEIN.

Ewein arwyrein yr oroet ar bawd
O bybyr genedloet
Mygyr varchawg deifnyawg da oet
Mygedvys y magadoet

ARWYRAIN EWEIN VAB MADAWC.

CYNDELW AE CANT.

ARDWYREAF dreic o drud veith awen
Llew llawen llawr osbeith
Llewenyt llu bedyt bydreith
Llyw anaw llauyn eurllaw aerlleith
Llary ywein lloegyr dilein dileith
Llid ysgwn ysgwyd pedeiryeith
Pergyg glyw glewdraws maws metueith
Par greulyd peir gwrhyd gwr reith
Pedrydawc pwyllawc pwyll goteith
Pell y glod o gludaw anreith
Preit wasgar dreisuar driseith gyuarpar
Yg gwear yg gwynyeith
Ry gelwir gelyn agkyfyeith
Celeu rut geloreu dyrreith
Gretyf diletyf dilut gyuarweith
Glew difraw glyw ganllaw gunlleith
Brys yg gwrys yn efnys ouyn wreith
Bryd yg gryd yg greidyawl afeith
Breisc abrwysc abrwysgyl anorreith
Bleit a blwg a blaengar gyweith
Bro amnawt oesgawt oesgeith y gynnygyn
Y gynhal nyd hawt weith
Dremhynt hynt hirualch walch osgeith
Dremrut prut preityawr rwy canwreith
Dor dewdor deon arwyreith
Doeth dewrgoeth dewrglod ganhymdeith
Drud aerlud aerlew yn aerlleith
Dryd aergwys aergun gedymdeith
Dwrn dradwrn dradegyn yd peith
Dyrnheyrn haearn y daleith
Bre drydar arwar anoleith
Braw bronndor bar dyfynuor dyuynueith
Blawt esgar ysgor yn diffeith
Balch eryr baran llyr lledyeith
Brad eurgrwydyr gynurwydyr gynureith y daryan
Yn aerwan yn eurweith
Byrt kyrt cadw agkadw agkyureith
Breint ongyr angert agkyuleith
Brein borthyad gweiniuyad gwinueith
Gwin a met a metgyrn rwy meith
Ry talaf ym rwyf om rwylweith molawd
Nyd molyant o uriwyeith
Delw ym peirch a meirch mygyr hydeith
Mynw eilon mal gwyllon gwellueith
Delw ym daw oe law lawer gweith
Prif ragor plu porfor perfeith
Delw yt wytt pen rieu pen reith
Yt wyf pen prifueirt om prifyeith
Delw yt wytt wawr toryf coryf kyureith
Yt wyf dann deduryd wyd oleith
Nyd wyf uart dylaw wyf dyleith ar gert
Wyf dilut ym pob yeith
Dym keinuyc om kuinualch areith
Aros gwarth yr gwrthod auyeith
Nyd wyf dlawd om gwawd om gweiuryeith
Gweiruyd bryd bryssyaw y ymdeith
Heirt veirt vut ar ueirch rut rawngeith
Hael hebod ny hebaf nosweith
O honawd handid uy gooeith
O honaf hanbych well ganweith

MARWNAD YWEIN UAB MADAWC.

CYNDELW AE CANT.

LLEITH ywein llith brein breit urys y uar-
Auarwy aet uab klys [an
Llafur llafyn dolur dilys
Llid carant cad wrygyant wrys
Gwrys aerureu dechreu un dechryn a hwnn
Honneid uyt y deruyn
Lloegyr al am eur mal melyn
Er lleas duw ny llas dyn
Dynyadon oesgawt as gwtant oe uarw
Gwr oe uar am peidyant
Coll arglwyt call argledyr cant
Eurglet y muchet mochnant
Mochnant diheuchwant erchwynawc gwl-
Gwlad vrochuael ysgithrawc [edic
Dyfynuet a orchut deifnyawc
Detyf hael mad auael Madawc
Madawc essillyt oes ellwg aergawt
Eurged beirt neud echwg
Kedernyd bleit aergryd blwg
Ked wallaw kadoet ollwg
Neud kygkolled ym colli rwyf mechein
Rwym achaws oe gygklwyf
Ar goreu yt ym gyrwyf
Am gar neid auar neud wyf
Nyd wyf diletkynt am diletcawt hael
O hil yoruerth hirulawt
Colled gwr eurged aergawt
Oe golli tewi nyd hawt
Nyt hawt ym wybod neud anobeith kyrt
Kertoryon neud ynt geith
Och nad byw keinllyw kyulleith
Achaws uu liaws oe leith. Leith ywein

RIEINGERT EUA VERCH VAD AWC, M. MAREDUT.

CYNDELW AI CANT.

GORVYNAWC drythyll goruynt a dygaf
Wrth ar a volaf a voleisy gynt
Kynrawd ewyn dwfyr ae dyuriw gwynt
Kynraec laesdec o lys dyfrynt
Kyfleuer gwawr dyt pan dwyre hynt

Kyfliw eiry gorwynn gorwyt epynt
Rin woleith woletyf woleu dremynt
Riein nym rifei y ked am riuynt
Rienet iti a dywedynt
Rieingert eua a vawrheynt
Tremyn y treitwny treuyn a gedwynt
Treitle glyw powys pei am getynt
Pan dreiteisy yno ynyt oetynt
Trwy fenestri gwydyr yt ym gwelynt
Trybelid wylein a wylynt arnaf
Treul atteb attaf a danuonynt
Llawen y carwn y kenym kerynt
Llawuorynyon gwery gwiryon oetynt
Amgall a bwyllad a bell bwyllynt
Am gyndelw brydyt yd bryderynt
Gorwynawc drythyll golwyth yolwyf
Gordawc pall eurawc pell nas gwelwyf
Goruelyn called colledic wyf
Colleis gall attep y nep am nwyf
Ym pwyllad newid neud adwyf am vun
  Yn anhun anhed kyd rys porthwyf
Gorthewisi wrthyfy gwerth uy hirglwyf
Nyd gorthaw a wnaf wrth a garwyf
Keladwy lywy liw tonn am rwyf
Rwy gennyf gennyd yr nad ydwyf
Cadyr amneid ganneid ged ath yolwyf
Cany wney dy erofi yr a ganwyf
Na wna ui veinwen val na hunwyf
Nyth wnaf ernywed yr nath gaffwyf
Nyd yr chwetyl amgen yt amgyrwyf
Namyn amgaru ny gerytwyf
Nym dawr verch pennyaeth pryd nath
  welwyf
Nyd yr keisyaw tal tros a ganwyf

Gorwynawc drythyll gortyuyn dy uyned
Gwrthdrych lys leissyawn y ystlyned
Llys y daw deon yw darymred
Llys eua y veirt y digoned
Llysseit y hirdwf oe heur duted
Llaes wenn gall wenngann wengaen decked
Llif dragon vanon valch y thyged
Lliw ewynvriw tec rac tonn nawued
Nawued rann ym poen yr pan aned
Nys ryborthes nep na thebyked
Ni riuafy ar vun vod yn galed
Nyd clod uyg gwrthod wrth uyndaed
A dywed yno eniwed o honaf
  A dywan attaf ac attep ked
Ac yrofi na chel vy ryweled
Ac yrti yt wyf o nwyf nym kred
Ac yrod titheu nam amheued
Ac er peryf nef nam diuanwed
Diuanw am goreu kyn nom gwared
Y gwaret oet reid pei rybuched
Gwarvart wyf iti o dylyed
Gwar eir ym kyueir nym kyuaered
A chenym karo nam keryted uyth
  Om kerytawd nawd nam ditoled

Pell ym treit treitgof oe rygolled
Preit preitwyr preitiwr yg kynired
Pargoch gad gadarn rac calchdoed
Pergig kynverchin kynn noe vyned
Gwedy hael ywein hawl ordiued
Hwyl dihwyl diofyn am y drefred
Neud wy ae gofwy nyd gouyged
Goualon eilon aelwyd reged

Gorwynauc drythyll gortyfyn dy gyweith
Gortawn ked kyrtuawr kertawr kyureith
Gortyfnyad bual buarth metueith
Goreu ar veinwen vyned eilweith
Na chymyt a hi o hir obeith
Na chymer wrthep a dan wrthyeith
Nyd af y ar hir dwf ny dal hirdeith
Y ar draed awel y drydeweith
Ny theweis er moed oe moli mal drud
  Ny pheir gossymud ym gossymdeith
Ac nym rify gwenn riein ryuet a weith
Ac ym oet y llaw uy llawen reith
Ac nyd oes uart dwfyn dunus gyfieith
A garwy yn hwy o hir obeith
Nym athreity meingann meingadyr y hyst-
  Nym hu vrys oe llys y llaes ymdeith [lys
Gwiryon dec dawel y chyuaryeith
Gwann detyf dof ym cof ym canhymdeith
Gwery uanon vanwl gwar uetwl veith
Gorme gwawr vore ar vor diffeith

Gorwynawc drythyll gortyuyn dy arlwy
Arlwyaw erlid gobrid gobrwy
Gorwynawc drythyll syll na (fy) saffwy
Y saffwn yt wyf o nwyf neud rwy
Neum rydraeth hiraeth uetuaeth uakwy
Am a rygarafy kenym karwy
Neud llutedic glann rac glas vordwy
Neud llawen awen awel neud mwy
Neud llawer ym llify lliw amaerwy tonn
  Ban llewych y bron ger y breichrwy
Golwc dof dewis gan ae syllwy
Goleuliw golwc yr ae gwelwy (caffwy)
Gweleisy ystlys glwys gloyw y gylchwy
Ny ry weleis tec nwy ry gwelwy
Ac adan rut em ruteur vodrwy
Ac uch wynep gwyn gwineu vagwy
Deuawd a gatwaf can ae catwy
A berthyn rac dyn nwy dylynwy
Uy rin a riein nys rybuchwy
Nys gwybyt rewyt nys ry gelwy
Keledic uy hun yn hir ofwy lle
  Y lledrad vore gan auarwy

Gorwynawc drythyll gortyuyn dy gywir
Eil gwynn gorwynawc gorpwy cuwir
Manyled meinwenn mal yt yolir
Mal yd ardunaf ym ardunir
Ardunedic dyn a dwc y ffynyant
Ardunyant molyant mal yd glywir

A glyweh chwi deon a dywedir
A dyweid rieiu ny ry geblir
Yg golud amliw amyl ym rotir
Nyd amgen ym ryt nym rybuchir
Handid om kyuoeth om kyuarch pan wyf[1]
Om rieu om rwyf[2] ry gystlynir
Bart llywelyn hael hud ym gelwir
Geleurut gelyn y bob enwir
Enwawc ym keinyoes ym keinmygir
Anwar vy lluchvar onym llochir
Pall gwyluann gwylein gwylualch wrth gertawr
O ruteur gwerthvawr y gorthoir
Pellynnic vyg cof yg caerwys dir
Pell yt wyf ym nwyf ony thelir
Petestreg wedeit yn hydreit hir
Petestric yolic[3] pa hyd yth yolir

DAU ENGLYN

A gant Cyndelw i Gynydion Llywelyn am Madawc, Am Maredud ac iw gyrn o achos rodi ido y carw a ladassant yn ymyl ei dy. A llyma yr Englynion.

Balch ei fugunawr ban nefawr ei lef
Pan ganer cyrn cydawr
Corn Llywelyn llyw lluydfawr
Bon ehang blaen hang bloed fawr

Corn wedi llad corn llawen
Corn llugynor llywelyn
Corn gwyd gwydr ai can
Corn rueinell yn ol gellgwn

MARWNAD CADWALLAWN M. MADAWC.

Cyndelw a'i Cant.

Dymgwallouwy duw diheudawn awen
Awdyl urten amgen amgall digawn
Yn ardunyaw gwr gwrtuar eigyawn
Yn awdur llavur lleueryt yawn
Y ganu marwnad y gadwallawn
Mal pan gant moruran marwnad einyawn
Neum bu om caru can ut carawn
Cymyrret a met a meirch crychrawn
Neud meu oe agheu dagreu digrawn
Digrifwch dragon dreig yoruerthyawn
Neum dotyw defnyt dyt dyuytlawn
Dyuod y gyfnod y gadwallawn
Edmygaf radeu rieu radlawn
Rad wehynn grannwyn gu'd anogawn
Adref adraut veirt heirt hiraethlawn
Adrawt gan hiraeth a wnaeth a wnawn
Am eryr mawrwyr meruynyawn yt wyf
O diua uy rwyf yn ry dristlawn
Gwedy gwawr cymry cymreisc gwrth nawn
Kymrwysc rwysc rwyf gawr
Fraeth lawr frwyth lawn
Pwy keidw o haelon hil cadwgawn
Teudor am ysgor am iscell grawn
Py urys cyflauan yn gwan gwaewdawn
Py uriw lliw llassar o lin lleissyawn
Py uyt glew a llew a llauyn greulawn
Py uyt glyw aerllyw ar llwrw camawn
Py uyt llary llysseit llyssoet hylawn
Hylawch prydytyon prydein ogawn
Py uyt cart oleith olud angkrawn
Py uyt cert olwch oestrwch estrawn
Py uyt cad wryaf rac cadwryawn
Py uyt ced wallaw ual cadwallawn
Cadwallawn radlawn rodri essillyt
Cadeu ysgymyt ysgymodi
Cad asgen ysgwn ysgwyd veli
Ced ysgein gwynyein gwn y golli
Neu cholleisy arglwyt rwyt yn roti
Neum rotesy hil run rut a phali
Neu chyuyd ynof cof ym koti
Cotedic yt wyf o diglloni
Neum bu oe aghad rad ragori
Ragor vut heb gut heb gyntoli
Rec ouyt oetwn oe daeoni
Gan gyueisor por pawb ae gweli
Gweleis am eurllew am eurllestri
Yn llyssoet llisseit ymgegenni
Ymsag toryf am goryf am gert westi
Amsathyr kyrt a byrt a bartoni
Amser am kerid gan lyw keri
Caradwy wledig wladoet noti
Carasswn aestwn as dirperi
Carassei am bot am bod yndi
Gwedy gwalch kedwyr am kedwis gan yawn
Ny gadwei na chrawn na chrynoi
Ryhir y tawaf tawel wyfi
Ny bytaf dawel nyd meu tewi
Am gadwallawn mawr gwawr gwrhydri
Gwryd gwyr deheu bareu beri
Am gadwaladyr hael hawt y uoli
Pan voled haelon haelach nor tri
Am vorgant gormant gormes uenlli
Gormeissyad bleinyad blaen dyuysgi
Am dreic argoedwys bowys berchi
Un perchen parchus ar y deithi
Am vadawc mynawc mynw haelonı
Medel glyw glewdraws maws mynogi
Am ywein prydein pryderi haual
Prennyal ymdial ymdiodi
Gwr ny orseuyid a orseui
Gwr gorsaf gwrhaf gwrt yg kyni
Gwr a wnaeth argel ar galedi
Argae kedernyd kadarnualch ri
Gwr a wnaeth kymry mal nad kymri
Gwr a wnaeth kymryd gwrhyd gwrthi
Gwr a wnaeth gwrthod gwrthuot dewi

[1] Kyveirch panyw. [2] Om ryw. [3] Petestric yolyd.

Gwrthwyneb lloegyr heb eu llochi
Gwr a wnaeth gwaedlif gwaedlauyn gochi
Gwr a wnaeth gwaedlan gwaed cann deiui
Kymysgei greu gwyr a gwyrt heli mor
Mawr diwyrnawd wrth y hoffi
Hoffi digoni a digones llew
Ar llu tew trylew trwy varanres
Hofder nyd ouer val y doues
Ygkefyn yr aelwyd oet aelaw tres
Eruyd a drychid rac y drachwres
Arucu pendrychyon cochyon coches
Aruawc tormenawc toryf agkynnhes
Agkymessur cart kerteu achles
Agheu cad ortwy rwy rym rotes
Aghen am lut gwen gwae rwy golles
Neus gwarchae mynwent y mynwes daear
Neud gwar gwawr trydar trin orllawes
Er pan llas llyw ked neud neued nes
Neuaf nas gwelaf ual ym gweles
Eissyeu am dygyrch, ym dygyn afles
Nyd aflwyr ym gwyr ym gotiwes
Oet brwysc breisc lafnawr ban breityawr bres
Oet bwlch y ysgwyd nyd ysgoges
Oet balch y ragor kyn noe reges
Clod itaw racdaw y ragores
Ugein punt oe uot eam rotes yn rot
Oe varannet nym ditoles
Nys ditolwy duw oe deyrnles
Teyrneit ormeil teyrn ormes
Yttwyf am danaw val ym donyes
Yn goleith adneir mal yd adnes
Rys molaf om kert om kein aches
A beidyad bleinyad a bleit neges
Beirt ganhelw ganherth berth ry borthes
Yn amwyn ednob edneint ar gnes
Yn llat esgarant pan esgores
Ny bu esgorueich bryneich branhes
Branes ymborthyad nyd amborthei gabyl
Nyd oed gablawd a obrynei
Nyd oet ef am grawn a grynoei
Nyd oet ef gronnyad ual a gronnei
Nyd oet amdlawd fyrt kyrt ae kyrchei
Nyd oet ny geffyn or a gaffei
Nyd oet agcloduawr llawr pan llatei
Nyd oet agcloduan y uann yd uei
Nyd oet e dressic yt odrossei
Namyn y dreissyaw dros a welei
Nyd oet am galan yt ymgelei hael
Nyd hauturyd yr ae kotei
Gwalch hyder glewder glewdraws diuei
Gwaew hydwn ysgwn ysgwyd amdrei
Gwartheruab madawc aruawc eruei
Gwawr mawr milwryaeth metuaeth mordei
Mordaf heuelyt ryt ym rotei
Rotyon gwelw gwyllyon dym gwallouyei
Gwallouyad anaw anoeth aduei
O blegyd beirt byd bieuuytei
Amgylch kyminawc kymynei saesson
Ar swyt wynnogyon yd wynnygei
Ac oet mal gwr ae gorsauei
Gorsaf teyrnet het ny haetei
Ac oet mal trochyad yt y trychyei
Trychwys eigyl trychyon y hadawei
Y loegyrwys hwysgynt lledcynt nyd llei
Can llas llid acrlew llew nwy llochei
Neud etiw milwr mal na ryuei
Neud ydiw hetiw hetwch arnei
Arnaf ernywaf ernywed am clwyf
Am gletyfrut rwyf ym rygoted
Cotyant a llywyant rac eilywed
Eilyw am dotyw duw ym gwared
Aele om dygnet yt ym dogned
Ry dogneis uawr gert am y vawrged
Mawrgor gar llachar llacheu gyfred
Gan vawrdraws arglwyd rwyt ym roted
Gan vawrdreis emreis amryw duted
Kyuym doeth kyuoeth kyuym daered
Kyfliwyon gweilwyon gweilch ogyfred
Kyuystrawd eurgalch mygyrualch myged
Mygedawc uarchawc veirch yn ehed
A hetiw ym daw dywrthred oe dwyn
Handwyf dirrwyn urwyn oe vraw golled
Yn amwyn eluael pan wnaeth elued
Eluyten greulawn elvyt greuled
Nyd oet ym erbarch ked kyuarched
Yt oet ymerbyn heb ymarbed
Yd gilyei pob llwfyr yny llated
Yd gyrchei pob glew yn yd glywed
Yd kwytynt pennawr penn o draed
Yd gystlynei pawb oe gystlyned
Yd oleithid gwr gwrt ry weled
Rac ked ellwg blwg bleit kynired
Rac kadwallawn llary llaw egored
Agored y lys y les eilwyon byd
Eithid y espyd y esporthyon
Ymyw mynw aches buches beirtyon
Ym buchet gwledic gwlad orchorton
Gortyfnws udut but a berthon
Gorwytawr tuthuawr tu hir gleisson
Gwr eil uleit gwreit gwrhyd nwython
Gwrawl gletyual gwryal gwron
Prif arglwyt bro lwyt bro din eithon
Priodowr cloduawr clud ac aeron
Pan brofer traethawd traethaduryon call
Nyd kolledic uyg kyueillyon
Cyndelw wyf hyd tra uwyf traethawd gysson
Treithitor ygkert yg kein osson
Gnawd om gwawd gorvod yn amrysson
Mal pan oruyt llen yn llyuyr canon
Canaf yn esgud yd gwn pa hon
As gwtant yn dysc yn discyblon
Gwedy cadwallawn rwyt yawn rotyon
Rotuawr gwaur gwendyd gwynuyd gwein-
A eirchyeid prydein a phrydytyon [yon
Nyd gwaclaw adaw adaf rutyon
Edewis y ron gan gofyon galar

A geleu rut yg gwelydon
Edewis terrwyn teyrn veibyon
A edeu geleu yn y galon
Tri ergyrwaew glyw glew ganaon
Tri eryr ongyr angertolyon
Tri chyurin a thrin ac a thrychyon
Tri chyfred a ched a chertoryon
Tri ehorth am borth am byrth saeson
Tri ehouyn diouyn dialuoryon
Tri chyfaryf rac taryf rac toryf hadon
Tri chloduan gwalchlan gweilch urodoryon
Golchynt eu deurut dewr weissyon o gad
Gwastad gymynad gymynogyon
Can etyw an llyw llew teyrnon
Teyrnet ohen dreic nenn dragon
Canys dir hepcor dewrdor deon
Deus Dominus duw boed gwiryon
As deupo casnar kar kyngreinyon
Colofyn cadellig cadell brython
Yg goleuad gwlad gwledic veinyon
Yg kein adef nef nawt eggylyon

CANU Y YWEIN KYUEILYAWC.

KYNDELW BEYDYT AI CANT.

DYSGOGAN derwyton dewrwlad y esgar
Y wysgwyd weiniuyad
Dysgweinid kyrt kydneid kydnad
Kyd uolyant gwr gormant gormeissyad
Dysgweyd keinyeid kyua enad eu rwyf
Eu rwytuot yn amhad
Dy brydeich brwydyr daer aer aerurad
Dybriw dreic dragon beleidryad
Dybrys alaf deifyr y drefad Bowys
Y beues y hendad
Dygostwng arthan dy gwystyl.....
Waew dy gwan dywynnyc oe aghad
Dygwisc amgenwisc amgeinyad
Dy gwasgar trychyeid mal trochyad
Dychanaf ym naf ym neirthyad ywein
Peir prydein preit gyrchyad
Breisc y doryf am goryf am geinrad
Beirt gynnull am drull am dri llad
Botawc y rodawc y rodyaw toruoet
Twryf kyhoet kyhutyad
Bot rot rann gyman gymynad
Bolch lauyn goch heb guchyed o gad
Brondor wrt ortrud ordyuynyad knudoet
Uch knawd meirw ar ystrad
Bron hyged hygawt y gywlad
Bro hygadw a diuradw a diurad
Diurad dygymrad dygymrwyn ognaw
Digymrut wrth eirchyad
Dilwfyr ut dilut vut veityad
Dilyw glyw glewdraws gynniuyad
Difwys beith odwys beithynyad glud glwys
Argoedwys argleidrad
Diachris cartwys cert vorad
Diechrys llwry llwyrwys llwyprad
Diechig wellig wallouyad
Diachor wosgort wosgrynyad
Diachar llachar lluchyad y laspar
Llacheu uar llaw weinyad
Llewenyt preitwyr preitwr yawn
Lleithiawc ywein llwyth ogawn
Lleithyar llym grym gryd
Lleityad kad kert glyd
Kedernyd katwallawn
Pasgen wrys pascueirch urysc vreiscdawn
Pascadyr toruoet twryf eigyawn
Pasele kun kyflawn kyflafan goteith
Gwyth gwynnyeith wrth wynnawn
Par odrut parawd vut votlawn
Paladyrgoch paladur estrawn
Gwnaeth gwrf gwrhyd vann
Gwrualch yg gwalchlan
Gwawr creulan mal creulawn
Gwaew drwy benn drwy beri camawn
Gwaed ar wallt rac allt gadwallawn
Yn llannerch yn lleudir meruynyawn
Yn llew glew yn llyw rac lleissyawn
Llatei llauyn gasnar llathrei galch llassar
Mal llachar llaw digrawn
Digrawn rwyf rwyt vann rwyuan rwy digrifwch
Digrifwch dragon dreic ofrwy
Dinas gwestiuyeint gostygws mal gwr
Gwestun dwr dorradwy
Gwesti gwlet gwledic aruordwy
Gwesti gwyr yn gwastad gwarwy
Gwesti gwastador
Gwastad rad ragor
Gwawr tewdor toryf arlwy
Gwesti ked kedernyd uwyuwy
Gwesti kyrt keiryadawc ouwy
Gwesti gwystyl greu
A gwystyl degeu
Gwesti creu a chymwv
Rutbres kad beityad beirt wantwy
Rutbeir bar llachar ban llatwy
Rutbraf y saffwy ny syll ae olwc
O olud ny rotwy
Rut bareu a beir yn adwy
Ryt bebyll rynn gestyll gystwy
Rut uyt gryd grym aer
Ysgor glyw glewdaer
Ysgwyd glaer glod arlwy
Rut ongyr angert alasswy
Rut lwybyr gwaed gwae lwuyr ae gwelwy
Run auael auwy rugyl ordwy ortrud
Ar erdrych auarwy
Rut uedel ryuel ryuerthwy
Ruthyr uthyr ualch eurgalch y gylchwy
Kylchwy kyuryuel kyureith orden rwyf
Kynnygyn glwyf glod urten

Kyuaruod oruod orawen
Kyuaryf taryf twryf llu yn dyrwen
Kyfle niueroet kyflaun y eiryoes
Kywlad loes moes maxen
Mawrdraws dreis dra llyr henuelen
Mawr bar beir o bedeir echen
Marchawc meirch canwelw
Meu genhyd gynnhelw
Mi gyndelw gert ogyruen
Brwysc rwysc rwyf tewdor dor dygen
Brwyd rwyd rad rannawc om awen
Brwydyr gygrwn gygres
Bryssyws bwyd branhes
Ucb kawres kaer amgen
Balch ongyr angert uruoen
Ball ar lyw am lanneu hafren
Braw rac y wryawr gwrtwawr a gwrthwan
A gwrtwaew yn aghen
Blaengar glew gletyual uryen
Bangor toryf taerlew llew llawen
Blaengar y volawd yn hartwawd hytestyl
Yn hywestyl yn hywen
Baranres aeruleit aeruen y waedlafyn
Ae waedlan disgywen
Disgywen gorten gordawn fraeth gordwy
Hydyr goryw uilwryaeth
Gorpo teyrnuar tywyssogaeth brut
Ar brydein dirogyaeth
Goruawr glyw glewyd dialaeth
Gorulwg aryf aeruetawc bennaeth
Gorchynnann gosgort gwasgawd calchdoed
Gwasgargert gwisgogaeth
Gorwytawd pen keirw pennhilluaeth an ryt
Anrydet uarchogaeth
Gorun toryf twryf aches ar draeth
Gormes draws gwenwynuaws gwinuaeth
Gortyfnyad bual butugolyaeth ualch
Ny uwlch dyn y aruaeth
Aryf toruoet teruysc eigyl yg kydoch
O vangor hyd vangeibyr dydoch
Amyl ywch veirt yw vut
Emys llys nyw llut
Emys rut ruthyr gwytuoch
Y ordawn a ordyfyn drosoch
Y ueirch kann kyfran kyfryngoch
Y ysgwnn gynnif y ysgwyd yg gnif
Y yscwyteu vochuoch
Y dreiswaew y dreiswan mor groch
Y drosset ny dreissir nemoch
Y drylew yn riw
Y doryf drylwyn wiw
Y daryan dryliw droch
Y bareu y arueu aruoloch
Y bebyll y byll y ball coch
Kochwiw y osgort am byrth marmor mawr
Mab gruffut greid oror
Coch y lauyn o lat yn ragor
Yn raclan yn raclym eissor
Koch arueu aeruan kochliw luman
Rac baran beirt vangor
Koch rodawc pedrydawc pedror
Y ar orwyt pedrogyl pedreindor
Koch bwlch y lein o drin o drydar
Koch y bar o borfor
Porthes gwr gwrualch ygkyntor
Gwyth vore yn racre rac yor
Treis ar ysgwyd rac ysgor dinteirw
A gwyr meirw rac mur cor
Tres rac llew rac llyw pedeir or
Treis ar lloegyr a llu wrth agor
Taryf rac twryf glasuor a thewdor a theruysc
A thrylew a thrylwyn vrondor
A thrychyon a thrychan elor
Gelyn traws ryuel tros ruuein yd wys
Tros y llys yn llundein
Mynw ehofyn colofyn kyfwyrein
Mur metgyrn mechdeyrn mechein
Mwyn ouyt y veirt y veith goelvein rann
Meirch mygyruann kynkan kein
Yn rith rynn ysgwyd
Rac ysgwnn blymnhywd
Ar ysgwyt yn arwein
Yn rith llew rac llyw goradein
Yn rith llauyn anwar llachar llein
Yn rith cletyf claer clod ysgein yn aer
Yn aroloet kyngrein
Yn rith dreic rac dragon prydein
Yn rith bleit blaengar vu ywein
Ewein awytuawr argledyr toryf twryf gawr
Angert llawr llu gyngrwn
Ny hirgeidw ar geirch meirch mygdwn
Ny hwyrgyrch cludlann clod adwn
Ny fy rac teruysc rac taryf yg gosgort
Tarw tewdor dor dyrwn
Ny phlyc y brafaw ym pryfwn
Ny phyrth gwarth gorthrum y gystlwn
Nys ergryd goruryd
Na gorthrwm glewyd
Nys treuyd nys traethwn
Nys crawn ked escud rac ysgwn
Na thaeawc mygawc na mygdwn
Ny dodaf uyg kert yg kynhelw camdull
Om kynnull canys gwnn
Nys llut llew llauynuriw kanmiw krwnn
Ny dotwyf archavael hyd ar hwnn
Horitor y glod o gyflawnder kyrt
Kertoryon ae daduer
Dychyuyd glewyd glew hyder
Dychyfry fossawd fwyr gnawd fer
Dychynne flamdreis y dan flamdei lloegyr
A phlant eigyl yg gwander
Dyglud glod mal y clyw llawer
Dychyrch cad dy rann rad rif ser
Dychymmell prydein or pryder yd vu
Prif deyrn ae differ
Drud ysgwnn ysgwyd dau hanner
Drud anyrdwyth annwyth anniver

Drudyon a veirtyon
A vawl neb dragon
Namwyn dreic ae dirper
Drud wr gwrt gortrud y lasuer
Drud rwyf toryf twryf llanw yn aber
Druduleit gawr drud vwynuawr vuner
Drud lachar drudlauyn a gymer
Drud lawn y eurdyrn
O lad y eurgyrn
Am lugyrn am leuuer
Drud urwysc ri drudureisc y haelder
Drud uannyar druduar drudualch ner
Drudlwyr y drafwyr y ar drafun veirch
Oe draferth rac fordun
Saeson sag dyllest yg gwestun
Bu creu eu callon eu kymun
Gwrtlann dihauarch
Gwrtnenn perchen parch
Y ar erchuarch veinllun
Gwruawr glyw a glewyd arnun
Gwr osgeth o wisc borforun
Scodic rac cart kert orun deyrn
Kledyr kedeyrn cad eitun
Ysgryd gryd rac greid eborthun
Ysgrud wlyt ar wlet y melltun
Ys gnawd rac ywein
Ys gauael y urein
Ysgauaeth y veit kun
Ar ysgwyd rwyd rodwyt ual run
Ysgawl toryf rac trefred alun
Ysgordor dyrwn
Ysgwn oet ysgwn
Ysgwyd twnn tal rugun
Taer peir par llachar lloegyr diwael
Taryf lutyaw toryf gyuyaw gyuael
Kynwalch valch uygyrdor
Kyuachauael cor
Kyuechei ueint kafael
Eryr cad gwrthodyad gwarthwael
Erchwyn greid eirchyeid archauael
Erchwynyawc pedrydawc pedryael y lenn
Powys wenn wlad urochuael
Eurdyrn wal gletyual glywael
Ettiuet kynuyn kert auael
Gauael glew yg cad gauaeled y wlad
Gauaelant ueirt y ged
Gal dywal dyual diarbed
Gwawr ofrwy kylchwy calchdoed
Granwynnyon trychyon trachywet eitun
Trachwytynt benn o draed
Yn llidwm yn llydan drefred
Yd wanei wanar yd waned
Baryf ar uaryf ac aryf yn greuled
Tâl tra thal trannyal tra chaled
Yn llys ywein hael hu anred y wir
Hydyr y dir ae daered
Yny mae gwaret a gwared
Yny mae gwarae gwaradred
Yny mae yued heb neued heb nac
Heb nebawd eissywed
Gorpo teyrn twryf llanwed
Yn teyrnas nef noted

MARWNAD TEILU YWEIN GWYNET.

CYNDELW AI CANT.

EWEIN arwyrein aur wron kymry
Kymroeyd orchordyon
Mur metgyrn mechdeyrn mon
Meu hoed am hoetyl y dragon
Dragonawl kedawl cad uarchawc melyn
Llywelyn llaw deauc
Aerdaryf glyw glew dywyssawc
Aer goryf aer doryf eur dorchawc
Eurdorchauc deifnyauc o dyfnant ragor
Rac ysgor esgarant
Ny bu uethyl ny bu vethyant
Ny bu uagawd meirch morgant
Mor gynneuin trin tra latei ysgwyd
Ac ysgwyt a danei
Gortiuann annwaws traws trei
Goronwy ualch uab gwalchmei
Gwalch gwaedrwyf hynwyf vnic a gereis
A garaf y edmyc
Blaen blawt bleinyad gwerennyc
Bleit gawr bletynt uab kynwryc
Cyrchyad kynniuyeid kert aryal drudyon
Clwyf ehofyn cletyfal
Nyd kyrt nyd cart anwadal
Kein awen canawon yal
Canawon keidryon cadyr yd uolir glyw
Glew dragon a gwynir
Deu vadawc enwawc enwir
Deu gyuet gyuoed hoed hir
Hir y kedwir kof ked vawr oronwy
Cad ortwy ortaun vawr
Gwrt y law ar y lafnawr
Gwyl hael gwrt auael gwryawr
Gwruan gynuaran gynuelyn angert
Angut gert gart elyn
Aer deruysc am y deruyn
Aruaeth haelonaeth heilyn
Hael hygleu urydeu uryd eryr yn aer
Yn aros kyuergyr
Hirgwyn brwyn brwydyr diechyr
Hiruraw amdaw am dudyr
Tud achles butles botlawn kertoryon
Kertessynt am y nawn
Breinrut brwydyr breisc ualch y dawn
Bryd ar llwrw ar llary einyawn
Llary einnyawn lluchdawn llochessid
Veirtyon vab kynon clod venwyd
Llaw rotyad llew yg glewyd
Llaffetheir yfo fort byd

Byd trist wyf o glwyf am glaer dechryn
Can treghis llid erwyn [treul
Lloegyrulawt gadyrgawt gyngelyn
Llyw mawr llew llawr llywelyn
Llywelyn llachar lluch uaran gyuet
Ny gyuyd oe vablan
Bu llw cloduawr bu cloduan
Y law y liaws kynran
Kynran rann gyfran gyuradw wellyg bart
Balch digart digyuyg
Mor dec moli mor deilyg
Milwr mawr mal maelogyg
Maelogyg mwynuawr mynw gyuod y gad
Mygyr uleinyad uleit ossod
Angut vrt ortwy hynod
Angert ulawt anglawt anglod
Clod wasgar aesgar eisgur gyuaruod
Gyuaruawc bennadur
Bleit blaengawr bar dyrawr dur
Beirt auael hart aeardur
Haetassei wawr glyw glod dengyn gyuet
Gwirawd uet gwir oet ynn
Gwae am vab gennillyn
Gwae veirt kymry gwedy gwynn
Gwyn gwaednawt aerulawt aeruleit auael
Aryf trylew treis allael [lew
Llawrotyad llaw rot gaffael
Nyd llaw vytac vytei hael
Haelon eiuyonyt hil merwyt marw ynn
Hil kedwyn cad ouyt
Eissyeu glyw ynn byw an byt
Eissor balch bwlch eissillyt
Essillyt merwyt mawr a letkynt yw
Nad ynt vyw vegys gynt
Llas llary vrodyr gwyr goruynt
A chyd lletyd llatesynt
Llas asser aerllew aerllid uuelyar
Aerbeir bar baet eruid
Llyw glyw glewdraws yg gouid
Llew toryf taryan eur gymid
Llas goronwy hael hwyl ueidyauc yn yg
Hil kyuyg kaduarchawc
Gwrolwalch balch bwlch y rodawc
Gwrueint gwrtvreint garanawc
Llas morgant mur gawr llassar wawr wanar
Llary llachar llawch kertawr
Mab y ewein prein preityawr
Wyr y ewein madyein mawr
Llas rys ruthyr efnys afneued y dawn
Aer greulawn aryf greuled
Rwysc vrwysc vreisc vreuawl dyghed
Rwyd vrwyd vrwydrglwyf rwyf rwytged
Llas deu gymynawc am gymynad eigyl
Am degeingyl dec ystrad
Einyawn wyl olud rotyad
Einnyawn diwyl diofyn cad
Llas mab gwyrengyn gwyruriw y baladyr
Gwr oet gadyr y gadw riw
Rwytuut ueityad gad geithiw
Rut y waedlafyn o waedliw
Llas rys fynhonwys fynedic hygar
Gwar y gar y gynwys
Gwr yn gware a lloegyrwys
Gwalch balch oet bwlch ar bowys
Llas arglwyt grwytrun gwyturiw y baladyr
Gwaladyr cadyr yn cadw riw
Gwan garthan gyrth yn ymliw
Gwan wrth wan gwaed luman liw
Pan llas gwas sanfreyd frawtged y gymry
Oet kymraw y glywed
Oet gwr gwrawl y weithred
Oet gwalch balch bwlch y golled
Eny llas arterch yn ardiffryd llu
Y llas ku can vy mryd
Coryf toryf teruysc fysc flamgryd
Cor eissor eissyeu yr byd
Eny llas madawc mur dygyuorth uar
Meu auar car kynnorth
Oet anwas cas cad ehorth
Oet anwar par yn y porth
Tra rwy ym gouwy goual gogywec
Am vab tec tudawal
Baran lew llew lloegyr oual
Lleduegin gwin gwyrt uual
Gwae ui gletyf glan gloewdrud yth arwein
Oth arwet ossymud
Medel draws a dreis latud
Meuryc beuyr bieuoetud
Gwae ui gletyf glan gloewdrud ym llaw
Or llachar diwyrnawd
Llas trauswalch treis y deuawd
Ual yd las ureichuras y vrawd
Kut vedrawd ae ceidw wedy kein wotew
Arllwybyr llew lloegyr dylein
Ar win ar breitin ar brein
Ar uet o uetgyrn ywein

DADOLWCH YR ARGLWYT RYS.

CYNDELW AI CANT.

AM rotwy rwyf nef rwysc awdurtawd kert
Nym gwnel cart o nebawd
Y uoli mab duw dibechawd
Dibechdoeth kyuoeth kyuundawd
Eil digabyl parabyl parawd
Per awen parhaus hyd urawd
Ar lles llawr llyw llafnawr llwyprawd
Ar llwybyr ywan or dawn ym daerawd
Delw ym bo yr bot y drindawd
Trugaret tros waret tros wawd
Y adrawt aerulawt eurulawd y ysgwyd
Mal ysgwyd rwyd rahawd
Mur mawrgor treithitor traethawd
Traeth om bronn tra thonn tra thywawd
Mur mawrdir mawrdoryf amgyffrawd

Mur mawrdut uch medut metwawd
Mur mawr daryf mawr dwryf gorwytawd
Mur mawrdreis mawrdraws gynnefawd
Yth gueir vn kwbleir cablawd
Nys keneis kenif dy uolawd
Molaf wr klydwr klutawd y eirchyon
  Y eirchyeid ar blanhawd
Y eryr eiryoes moes medrawd
Ny welaf ny welir kydurawd
Gweleisy vt nym gwarthrut gwrthrawd
Gwrthurwydyr crwydyr creulawn dybytawd
Gweleisy wledic dic diofnawd
Ofny y ofyn y efnys giwdawd
Gweleisy gleis a threis a thrallawd
Cletyual dywal diwyrnawd
Gweleisy glod a rod a rawd o beleidr
  A reeydr rut o gnawd
Gweleisy hael o hil anarawd
Ae gweles gwelei ryuetawd
Mal cadarn yn cadw y briawd
Mal cadwr cadwei a dywawd
Kedweis kyghaws maws mae ystawd deheu
  Duw o nef ae gwarawd
Gwr gwrthaw gwrthrych ys defawd
Gwrth uchyr gwrthrychyeid ys gnawd
Gwrth eurdro eurdrull gno gnythawd
Gwrth eurdal bual bugunawd
Buelin oreurin wirawd
Buarth llat llonyt o uragawd
Buches kyrt kertornon wasgawd
Buchet glyw gloyw ystryw aestrawd
Burthyad cad kyrchyad kyrchynawd
But beirtyon barteir om tauawd
Briwgoch bric ongyr brythawd
Breithgad gwyr brydyeu llyr lloegyr dif-
Bri brython breit saesson saghawd [rawd
Bre bronndor bronn dewrdor durawd
Bryd gryd grynn grannwynn greid wor-
  grawd
Brisc risc reu rieu rad barawd
Brwysc rwysc rann gyman gymendawd
Brwydyr eurgrwydyr eurgreir bydyssyawd
Breisc rebyt yn ryt yn rwyt nawd
Y gwna rys rietawc o dlawd
Braw bryneich branar eu bedrawd
Bro kreugyl braugoel yspytawd
Bolch y lauyn o lavur fossawd
Bwlch y glet balch y gletyuawd
Cletyfrut gwrvut gwr a deffry clod
Gwrawl rod rodawc hy
Gwr kyrchyad kyrchwn yw uawrdy
Mawr dal kert nyd cawt y uelly
Gwr gwaedrwyf gwlad vn rwyf vn ry
Gwr gwaedlann nyd gwr gwann gwecry
Gwr golud gwaetkaud gwaedkny calanet
  Kelennic a dyry
Gwr creulawn creulan ae kyffry
Kyffro cad cadellig wely
Gwr a wyr yn dyt fwyr na ffy
Gwr a wnn y a hwnn yw hynny
Gwr yn twryf yn toryf ar hyly
Gwr yn taryf yn teruysc wedy
Gwr yg gryd gwyr gwrhyd gwr hy
Gwr greidyawl ual greiduab ery
Treis dreon trinheion nyw try
Traws trydar trydyt haearnlly
Gretyf eigyawn ny grawn ny gryny gormot
  Alaf rot elifry
Grym ertrym aerdreic ae dyly
Glyw uyged glew vugeil kymry
  Kymry difreidyad
  Kymrwyn y gywlad
    Kymwy cad cas venwyn
Kyrd wadawl cerd gamawl ganwyn
Ked gyfred gyfrieu gadwyn
Kadeir cor cadeu dor dirrwyn
Kar kerteu kertoryon wo rllwyn
Gwrllyw glyw glewdraws maws metgwyn
Gwr llwrw llu lloegrwys digyflwyn
Gwr gwrtuann am aduan atwyn
Gwrt uann gawr gwrtuar vawr venwyn
Ef goreu val gwr yn adwyn
Yn ceint cler cletyual ar drwyn
Llathrei lafyn uch auyn vch auwyn
A llif creu a lliw freu ar frwyn
Llatei dreic ar dragon drylwyn
Tryliw goch trylew droch drachwyn
Am eururwydyr am eurgrwydyr eurgwyn
Am eururo am eururon terrwyn
Toryf anwar trydar trydolwyn
Twryf taerueith goteith gwaeanhwyn
Teulu a thewlu a thewlwyn waewawr
  A gwyr mawr ymasswyn
Fyryf deruysc fysc dydysc dydwyn
Fwyr fysgyad fal fleimyad flamdwyn
Frwyth wellig welluaeth fraeth frawdwyn
Frawt wallaw anaw aniuwyn
Llwrw milueirt milueirch dygyflwyn
Llwybyr molyant metyant met ankwyn
Llyw kemeis oth goteis yth gwyn
Llew camawn kymer y difwyn
Llawvrydet am dwc om dwyn y wrthyd
Lloegyr eruid braw lid brwyn
Brwydyr asgen brwysc nenn breisc adcf
Brein borthyad achryuyad achref
Bradw ysgwyd bryd ysgein wrth lef
Brydeu tan treulwan trin wotef
Ys arglwyt ys arwyt ys ef
Ys cad fyrt ys car kyrt kyflef
Gwledic dec cantoryf a dec cantref ri
  A rugeint kyuadef
But barawd baran gwynt hydref
Bugeil byd biw gymryd gymref
Coryf keindoryf can dothwyfy adref
Yth edryt yth adrawt is nef
Par eurglawr erglyw uy martlef
Peir prydein profwn yn tagnef
Tagneuet am nawt amniuerwch rif

Riallu diheidwch
Nyd achar llachar llauarwch
Nyd achles afles arafwch
Nyd achlut eurgut argelwch
Argel kart kertoryon wolwch
Dor yscor yscwydeu amdrwch
Doeth a drud am dud am degwch
Taryf aergawt aergwl gadarnwch
Toryf eurgoryf eurgwyn gyuedwch
Kyuetach uorach uireinwch
Kyuetwalch kyuetweilch elwch
Elyf dreic dragon digrifwch
Alaf lyw lluoet amgelwch
Amgelet brython brythwch teyrnon
Teyrnas ynyalwch
Teilu rys teilwg gwrys gwryssywch
Gwrys arloes eiryoes eiryolwch
Chwi gennyf gynnifyeid sefwch
Mi gyndelw a gynnelw gennwch
Beirt wogawn bart vrtawn vrtwch
Vrtawl kert kan edifarwch
Angut but beirnyeid gyuradwch
Ongyr vrt angert uatholwch
Angertawl gretfawl grefyt vnhwch dywal
Am dywed llonytwch
Can dotwyf a digerytwch
Na dala uar casuar cas hetwch
Nam gwrthvrawd om gwawd om gwarwch
Nam gwrthrynn grannwynn greid wolwch
Nam gwrthod eiryf drauod aryfdrwch
Ny wrthyd mab duw dadolwch
Dadolwch llachar
Llacheu gyuarpar
Yn aeruar yn arueu
Llydw ysgor ysgwyd bytineu
Llid ysgwn asgwnn ys goreu
Y gymryd an kyd kyn bareu
Y gymmod an dyuod an deu
Dy uoli uilwr hyd angheu
Dy uolawd ystanwawd ys teu
Dy uart da dothyw yth oteu
Dy uar gwrt gortyfyn y vateu
Ti hebof nyd hebu oet teu
Mi hebod ny hebaf uinheu
Hir yth ardrethir ar dretheu o bell
Hil cadell kell kerteu
Hil coelig pergig pennaetheu
Hydyr am datyl kynnatyl kennadeu
Hil rodri gwesti gwystyluereu
Gwastad gryd gwystlon byd boed teu
Hil gruffut rwyf rwytuut radeu
Rwysc rynnawt morgymlawt mawrgleu
Hil maelgwn milcant adodeu
Hil tewdwr diwetwr deheu
Brwydyr orchwyt ny orchut tlysseu
Nac aryant nac eur yn adneu
Brwysc rwysc rwyf brolwyt bro seithbeu
Breisc am ged am gadeu [dyued
Preit preitwyr preitwalch gyureieu
Priodawr prydein prein preityeu
Pressennwr prysswr pres oleu
Preswylyawc uarchawc ueirch gwineu
Gwynnuydic wrthurydic urydeu
Gwynfyd cyrd ceinfyrd cyfedeu
Gwynnuyd gwyr gwrawl deuodeu
Gwynnuyd beirt beirnyad wyf uinheu
Gwr glewyd yn ergryd aergreu
Gwr gwledic ar wladoet nyd geu
Gwr g...wy gwrtrych ysgwydeu
Gwr gortrin golud geloreu
Gwrt uaran kyfran kyureidyeu
Gwr uannyar gwrt uar gwynn doleu
Gwr a dengys llat a llafneu rutyon
Llew dragon llyw dreigyeu
Dreic ehofyn ehag y deruyn
Dragon rwyf rwyt walch gygelyn
Dragonuart dragon ualch uytyn
Dragonawl dra ganwyf o dyn
Canaf wawd yr priawd ae pryn
Prif arglwyt brolwyt bron heilyn
Breise anlloet beirt borthloet berthyn
Brwysc brydeu brwydyr dechreu dechryn
Brad bryneich branes ae canlyn
Braw dachwet gyminet gymyn
Gwrys efnys dechrys dechryn y ongyr
Y angert nyd eduyn
Gnawd vch knawd knudoet ar gylchyn
Arllwybyr llawr neud llawer blwytyn
Llew llyssoet llysseit y deruyn
Llys ehorth llu adorth llewyn
Gwyt wossut llofrut lloegyr dilyn
Gwyr wosgo wosgort diergryn
Gwrd wasgar o wiscoet keinwyn
Gwyr ossed gwr goruod goruyn
Gwedy mydw a met gorewyn
Am hirwlet am hirwlad y hyn
Am gedawl am gadeu dylyn
Am gyrt wawr am gyrn mawr melyn
Gorpo hael haelonath wobryn
Hawl modrut hil mawrvut mervyn
Gwawr gwendoryf gwendud oe gylchyn
Gwennvlad nef gwir adef gwiryn

ARWYRAIN YR ARGLWYT RYS.

CYNDELW AI CANT.

Yn llyfyr arall hon yw wythfed Awdyl y Dadolwch.

ARDWYREAF dreic fwyr seleic ser
Ardwy kedernyd menwyd muner
Ardemyl ehagdoryf am ehangder
Am eurdal bual buarth hydyruer
Hydyr yd gert uyg gert ygkyflawnder
Yg gyflawn voli ri rwy dirper
Yn urtyant molyan mal yd glywer
Yn awen barawd awdyl burwawd ber

Yn anwfyn yn dwfyn yn dyfynder yd uarn
  Nyd bart ae daduarn beirt ae daduer
Yn taryf yn teruysc yn fysc fyryfder
Yn twryf yn toruoet hudoet hyder
Ynghyfragor glyw am eu glewder
Clos y clyw llawer
Yn agkyflwyth gwyth gweith nanhyfer
Yn agkyfle llwfwr llafur ouer
Yg kemeis yn treis yn traws ober
Peunyt oet newyt newid ruteur
Peunoeth oet pennaf gwedy pynner cad
  Can llary llawrotyad llad a llwyrder
Llowyt yw ganthaw heilyaw haelder
Hil gruffut hael ut hawl diaber
Kart wahan kadwan kadwalch nifer
Kert wetawl gedawl gadell ener
Kadarn vleit uleinyad cadyr neirthyad ner
Kadyr yt ym dengys rys yn racter
Rac twll y gylchwy pan am gylcher brwyd-
Nyd bradawc arglwyt yn yd wneler [yr
Kynifwr kynnif nid diouer
Kynnifyad kynnetyf Alexander
Teyrnas dinas dyn a gymer
Ymerawdyr llywyawdyr llyw amniuer
Teyrnuro a geidw o gadarnder
Teyrnuron heilyn haelon daduer
Teyrnet osgryn mal gwynn gwarther
Teyrneit gwreit gwr yn ygder
Teyrnweilch prydein gwedy pryder
Teyrnged kymry ef ae kymer
Kymeraf ut naf na uid ofer
Ym na uid ouid yggwenwynder
Pan gychwynws gwr gwrt yn trymder
Ny bu a gwalltan y gwrth gwallter
Oet fyscyad fleimyad flam gan ucher
Yn seith neid awyr yn seithwyr ser
Pan aeth sarf cadlan seint cloduan cler
Cletyfeu cochyon cochyn vriger
Ysgor ymdiffyn pan ym differ gwlad
  Nyd ef gwledic a orsauer
Pan amuc teyrn teifi aber
Nyd abar y gwnaeth nyd saeth salwder
Yn ran orfowys yd gynnwyser
Yg kynnwys rydid gleindid gloewder
Yg goleuad rad ry damuner
Yg goleu ureisc ure yn lle lleuuer
Yggoleuureint seint yt asswyner
Yg goleu adef nef yt noter

EGLYNYON MARWNAD Y RIRID VLEIT.

CYNDELW BRYDYT AE CANT.

RIRID rwyf gwrhyd gwrhaf o gyfet
  A gefeis y alaf
A duw ae duc y arnaf
A dwc pawb a vo pennaf
Pennhaf y treitem trwy ryuyc gwron
  Ffroen wynyon friw dyfryc
Lles beirt heirt oe hart wenyc
Lles kelynyn kelynnyc

Kelennic ruteur am rotei riryd
  Nym rotes a vei lei
Nyd aruanwl vut vytei
Nyd ar vanarch yn parchei

Nyd ar an perchis an peirch y weithon
  Or deon diheueirch
Yny kyrchem karcharueirch
Karcharoryon kecoron keirch

Gwnaeth goronw gwr anlew
  Gyflauan anhelediw
Adlat ririd rwyf anaw
A byth nys beitei bei byw

KYNDELW AE CANT Y RIRID VLEIT.

MAE ym vleit am car om caffael wrthaw
  Yn wrthep archauael
Nyd bleit coed coll y auael
Namwyn bleit maes moesawc hael

Cledyf clod wasgar a wisgaf ar glun
  Rwg uy llun am llassar
Cledyf cloynneu hygar
Cledyf ririd uleit vlaengar

Priodawr pennant pennaf uchelwr
  Uchelwyr uodrydaf
Nyd y uleit preit y prydaf
Namyn y vleit glyw y glewhaf

MARWNAD RIRID ULEIT.

CYNDELW BRYDYT AE CANT.

YM peryf digart bwyf dygen geinyad
  Yr mab yr mawrdad rotyad uy reen
Yr yspryd vchel or vn echen
Yr arglwyt gwlad lwyt gwledic moysen
Mor wyf gert geinrwyf hyglwyf hagen
Mor wyf hygleu uart o ueirt ogyruen
Mor wyf gwyn gyfrwyf nyd wyf gyfyrwen
Mor oet gyfrin fyrt kyrt kyrriduen
Mor eissyeu eu dwyn yn eu dyrwen
Aessawr andianc oes anien [doden
Mor wyf dirrwyn urwy nam urwydyr a
Breisc uab gorgeneu brydeu braduen
Mor debic uy mod megys gwydyen
Gogwytaw peb llawr ker llaw y benn
Mor nawd pob rahawd na byt ryhen

Mor wenwyn ym kwyn am yd ym ken
Mor wyf godedic dic disgywen
Mor uynych mor veith lleith llwyth pobyen
Gwyr yn auyrdwl gwyr gwerin vrten
Gwyr yn auyrdwyth gwyth yr gweith ueigen [gwet
Gwyr yn amwyn greid gretyf ychen yg Gwyr yn kywrysset gwyr gwlet gwlytyen
Gwyr yn kyd berchid uch gwid gwenen
Gwr an kyd barchei oe barch amgen
Gwyr y huam y gyd am ged orten
Nyd ym gyd am vut am vetu gwen
Ny threuyd hebof aghof aghen
Agheu ririd wynn wedy arthen
Kyn kanwyf o dwfyn o dofyn awen
Awyt neud aflwyt neud aflawen

Neud aflawen wyf neud aflauar drist
Neum rym cotes crist creawdyr trugar
Neud amrygwyn ym neud amrygar
Neud amrygyr kyrt kyd ymarwar
Neud am dragon dwfyn dyfneisy auar
Neud am dreic bennant bennaf galar
Neud gwaruet meuet mynwent uranar
Neud gweryd riryd rwyf uuelyar
Neud gordiuanw hoen hoetyl abar lledkynt
Neud gordiuynt hynt gwynt gwrth don-
Neud wy ae gouwy neud gordyar [nyar
Neut gordiwet gwr gwrt y uannyar
Gwr ny oet hygawt a oet hygar
Hygyrch y neuat kyn llat llachar
Gwr oet gyhaual diel dyar
Ar goreu a vu o veib gleissyar
Gwr oet ueirt aruoll kartgoll kertgar
Gwr oet vleit llyaseit llyssid y uar
Gwr oet rut y lauyn o lif gwyar
Gwr oet ruthyr aruthyr ar y escar
Gwr athrigyad aer gwr athrugar
Gwr athrist y ueirt oe vod yn war
Gwr am gwnaeth hiraeth hir ysgar ac ef
Yny del llu nef a llu daear
Gwr gweinnyad yg cad gwr gwanar yn yg
Gwr o dinodyng gwr bergig bar

Paraud oe adaf kyn noe adaw
Pareu post enweir peir pedrylaw
Pedryliw y lauyn y lat racdaw
Pedrylef kwynuan kyrt am danaw
Pedrydawc deifnyawc dyfneis y gwynaw
Kwynaf ym er moed hoed o honaw
Eil kwyn am tremyn tremid yrdaw
Eil gwr gwrt gorten arthen eirthyaw
Eduynt edryuynt wrth edriuaw rot
A geueis oe vot o vut ganthaw
Eryr glyw glewaf neuaf na daw
Edlid a berid oe bericlaw
Ernywed arnafy o uod arnaw
Deyerin derwin dir eu kutyaw
Er pan yw tawel ryuel rwyuaw

Rwyuan tan taerwres trachwres trinnaw
Rym gwnaeth yn athrist athreityw pennant
Ae phennyadur wedy syrthyaw
Priodawr dinmawr prutuawr preityaw
Preityn oet y gwyn kyn noe gwytaw
Prydein am galwant om gwarandaw
Prydyt ny hepcyr yr breyer braw
Pryder am danuer prydaf itaw
Prydeis y rwyf treis cyn treul athaw
Athal eur vual a vu eityaw
Ethiw hael hebofy athwy hepdaw
Nyd etiw om kof keissyaw uyg kyuet
Kyuoed oueret y uetylyaw
Y mywyd riryd wryd wognaw
Delw ym doeth anoeth ym doeth anaw
Delw yt oetwn vart y ueirt ganllaw
Canlles am rotes ruteur wallaw
Delw yd oreu duw y dewissaw
Dewissed y duw y dwyn attaw
Delw y doeth ataf alaf oe law
Delw yt oet wrthyfy yt wyf wrthaw

Wrth ar am carei caraf gymen gadw
Kerrynt aessawr bradw brad gyghallenn
Ruthyr aruthyr eirthyaw arthen vnbenn
Run venwyd riryd rut y onnen
Nyd oet dylaw dreic dragon woen
Nyd oet vleit amprut nyd oet ampren
Eurdwrn oet y lauyn yny loflen
Eurglet kymynet kymynei benn
Eurdorchogyon dewr deyerin lenn
Edlid ym dilid yw eu dilen
Aervleityeid vleinyeid vleitieu kyuaruod
Erlynassant glod yr bod yn benn
Ergrynynt eu bar seirff saffar senn
Ergyr waewawr treis traus y gynhenn
Eryron trychyon trychwyd orfenn
Yr yuassamny uedw vet y drefwenn
Ym buchet gwledic gwladoet berchenn
Madawc mur kyhoet niueroet nenn
Meidryad cad cadyr dor car cor kyuyrbenn
Medreis uot uy rwyf ar uy rwychren
Mechdeyrn metgyrn metgwyn pennyadyr
Medel gwyr gwaedvur oesgur asgen
Maws massarn cadarn callon yaen
Moes ysbwys ysbys echrys ochren
Mygedawc y hoedyl hoed ar orfen
Mygyr yd latei loegyr hyd lewdir trenn
Mynw traglew llew llawr mwynuawr mes-
prenn
Mur gwryd gwynnuyd gwenn eluyten
Nyd llawen uy mryd y mro gyngen
Ar llary llaw hyged gweled gwytlenn

Gwytlenn ae gortho gorthaw dristlawn wyr
Gwytlan ae gwerchyr gorchut gwythlawn
Gwytuet eu gwytua gwytuid estrawn
Gwytun am rotes butles botlawn
Gwytueirch eirch erchlyuyn erchliw
krychrawn

Gwytuiled gyfred gratyuyged grawn
Ymuchet mur treis traws y gamawn
Creshwyr fwyr faglawr fraethlawr frwythlawn
Can riryd rwyf cad kunyad creulawn
Callon oet agraff kedoet agrawn
O rotyon gwron gorun eigyawn mor
Madawc mur tewdor cor caswallawn
Gogyman cluduan cludueirt wogawn
Cludeisy alauoet llyssoet lleissyawn
Gwedy pargoch grym parllym peirllawn
Kyrchwn hael dinmael dinmawr nyd awn
Duw damnaut eiryoes einyoes einyawn
Mawruab ytnyued mawrged gyflawn
Nym golut mawrvut mal riwallawn
Llyw llafnawr llew llawr llystynwallawn
Ririd nym gochel am gochawn oe breit
Wedy riryd uleit vlawt haearndawn
Toryf aergoryf argoed hoed hiraethlawn
Twryf taerdreul taerdan yn gwan gwynawn
Aer daer deruysc daryf aryf aradryawn
Arth warth wrthodyad am nad am nawn
Tra vu vyg kyuet yg kyuoeth yawn
Nym llauarei y nep nam bei digawn
Nym ditolei y lary o lawer dawn
Nym goruc dewr wr deurut warthlawn
Ny bu warthlef kert kynverching werin
O benn talyessin bartrin beirtrig
Barteir om kyueir ny byt kyuig
Ym kyueteu breu brwydyr diedig
Handoet eu hachoet kyn eu hechig
Y merw derw duruet vuchet vethig
Or kedeyrn kedawl hawl hirdiuig
O gadell ener o gadelling
Or glan essillit gloew essillig
Or glyw glew dywal ny dal ny dig
O vonet koelig coelvut kertoryon
O arvon o uon o vaelgynig
Wedy cad wosut mawr mygyrvut mig
Wedy ced wosep neb nym deiring
Llew llawr llid enweir llydw beir bergig
Llwrw trylew llawr llew llurig deilig
Ym buchet arthen arthuar yn ig
Y mywyd riryd ruteur wellig
Rotynt rut a gwyrt rwyf kyrt kunig
Roted ardunyant ar dinodig

MARWNAD EINYAWN, M. MADAWC, M. ITON.

Cyndelw ae Cant.

Kywrysset brydein ysy bryder ynn
Y sy brid i lawer
Armes gwr gwythlawn y ober
Argleidryad vleinyad uleit niuer
Aervur uar aerbeir bar bynnyer
Aruod uygyr a vagei haelder
Digones pen glyw pan glywer hyd urawd
Peir fossawd fwyrnawd fer
Kymyrrws y hoedyl y hyder
Kg gorwyt glasure rac glasuer
Yn trymgleis yn treis yn trymder
Yn tromgad yn tramgwyt wener
Yg kyflaundal kyrt yg kyflaunder but
Ny bwyad diaber
Yny vyw ny vytei ouer
Yny varw y vart ae daduer
Teilwg ym talu a roter
Treth volawd traethawd nawd nawsber
Teruysc yn racfysc yn racter a wnaeth
Twryf tonn fraeth fraw aber
Ysgryd glud glewyd uyd valchder
Ysgryd gryd greidyawl hawl hydyruer
Ysgor gadw ny gedwis llyuyrder
Ysgwn walch ysgwyd deu han ner
Ysgawl gwyth gwaethaf nad anuer y hoetyl
Neud y hoed a gwyner
Kwyn kyrt kyuaenad na water
Kwytaw llary ar llau vart beuder
Kwyn kydneid keinyeid ae kymer
Cof colli a roti rif ser
Gwaethyl edlid om bron pan brouer kyurein
Yr kyuran y doter
Gwasgaud gwaud gwisgoet diouer
Gwasgarei gweiscueirch mei muner
Gwaedlann vlaut amnaut amniuer
Gwaedlyry vyry varan elifer
Gwae ni ueirt uyned yn dyuynder daear
Gwaur trydar traus lewder
Gwarth wrthrynn gwaewrut gwynn gwarther
Gwas a las o leissyawn ener
Llary einnyaun llyu lluyrdaun lluru ner
Llew doethlyw dothyw y amser
Amser ym perchis parch dillut berchen
Aerbeir benn preitnenn prut
Rwysc aches am rotes rwytvut
Rwyf cadeu yr cadw y deurut
Ny tholyes uy lles llyw rybut
Ny tholyaf a ganaf heb gut
Nym gwnaeth golut glyw golud am anaw
Nam gorthaw nam gwarthrut
Kertoryon kertassant rac dut
Ar llary uronn ar uryneich gystut
Kerteu dwfyn deifnyawc y sy utut
Kwyn kynran kyfran kyfryngthut
Oet eityaw eu kert oet eitut eu kadw
Or kadyrwalch nwy dihut
Diurad hael oet haelach no nut
Diuraw dreic dragon dadanhut
Dyuryd uyt uytaf drwy gythrut
Am ben cun kenetyl varedut
Dyurydet y veirt varw achlut einyawn
Dor breisclawn brwysc lofrut

Llofrut glyw glewdor gor gadwyd
Lloegyr dachwet gyminet gymwyd
Neum hirdeul hirdreit na atwyd
Hael kedawl hoedyl ureuawl ureutwyd
Pan ym daw anaw o annwyd uyg cert
Uyg kyeuillt neud adwyd
Neud adwyf o nwyf nad ydwyd
Ruthyr aruthyr eryr dihywyd
Ruthyr kynwan kynan ab kynwyd
Ruthyr kynon vab kul uanawyd
Ruthyr torredwynt gwrt gordyfnwyd ar
Ar breitin y magwyd [brein
Ef oe barth neud gwarth gwaredwyt
Gwaud volaud val y derllytwyd
Ef gunyad a gad ni gilwyd
Ef latei ef wanei wanwyd
Ef gwnaeth a gwaedwaew gwaed abwyd
y urein
O uryneich tra adwyd
Gwaew kynllew kynllat y annwyd
Gwaew kynulawt kynvleit kyn ulaen
rwyd
Gwaew ysgwn esgud ym plymnwyd
Gwaew gweinnyad gwenwyn y dysgwyd
Gwaew gwanar gwawr aeruar aer uwyd
Gwaew gwaedrwyf gwawr dirglwyf dor-
glwyd
waew yg koryf yn toryf yn tryfrwyd
wryaf
Y orssaf oet arswyd
Gwaew trwy vlwg trwy vwg truy uortuyd
Gwaew y dreis yn eis yn ysgwyd
Gwaew einnyawn creulawn creulanw
wyd o lid
A lithyei ganaw llywd
Llwytessid y uut y veirtyon llwybyr an-
Anaw prydytyon [ant
Llwyr ym treit tremid goualon
Treulgawt hoen[1] hoetyl uyrr gyueillyon
Treulyws vyg grutyeu
Cofyon kyueissyeu
Kyueteu kyuoedyon
Un am clwyf ar cletyf rutyon
Un a vu a dyvu deon
Un catgaut cadulaut uleit galon
Un kadkun val cadki aeron
Un a vu haelaf o haelon kymry
Un kymreisc y rotyon
Un mawr llary mawrllwrw kynreinon
Un mawllew mawrllyw kertoryon
Un mawrwalch mawrualch mur dragon
Un mab mawr madawc ab idon
Un llorrut prydein pryderwn y gert
Pryderus y kanwn
Bleit blaengar bar dyar dyrwn
Beirt ganllaw bart itaw oetwn
Ym pwyllad am braffgad bryffwn
Praff edlid ysid y saffwn

[1] Treulgadw hoed.

Dyfnasswn vreiscdawn o vreiscrot ein-
yawn
Da digawn a dygwn
Nyd oet nep a gynnhebykwn
A llew treis pan y treityasswn
Nyd oet llary mor llary lluadawn hynt
Handid kynt y kwynwn
Nyd oet drwc ar dreic valch gystlwn
Ad oet da y deduryd a wnn
Nyd oet nawd nebawd na bytwn
Yny bei am veirch mei meindwnn
Nyd oet ny gaffwn or a gaffai hael
Ydoet hael tra vu hwnn
Hunn oet digrif hael hun oet digraun
Hwnn oet lew o leissyawn [gleu
Aerdaryf taryf teruysc yg camawn
Aerdoryf toryf twryf goteith wrth gawn
Ar uyg grut am veirt uut valchdawn
Neud divwg[1] deigyr dillwg digllawn
Neud meu hoed am hoetyl anwogawn
Neud wyf gwyn gotedic digawn
Neur gyrcheis ar oestreis estrawn
Emys pasc pyscawdliw eigyawn
Dihauarch gyuran[2] a duc y gadlan
Ar gaduarch cann krychrawn
Dinac dreic a dragon kreulawn
Dinas gawr garwlym y waewdawn
Diwethaf y canaf[3] can yawn
Diwetgof Diwetgoll einyawn

ENGLYNYON

A Gant Kyndelw, y Ewein Kyueilyawc.

Gwirawd ywein draw dra digoll uynyt
Mor vynych y haruoll
O win kyuyrgein nyd kyuyrgoll
O vet o vuelin oll

Gwirawd am daerawd am daw gan rebut
Am rybuch oe wenllaw
Pennyadyr cad ked wallaw
Penn cor penkert wyf itaw

Gwirawd a dygyr a digawn atan
Gwin a bann rann radlawn
Yn llys lles glyw llyw lleissyawn
Yn llaw llew cad kyrn llad llawn

Gwirawd ywein llary llawen yd rotir
Yny tir tu hafren
A threul hygar yw hagen
A thraw y daw a dygen

Gwirawd ywein llary llachar y deruysc
Ar deruyn y esgar

[1] *Neu*, dwyng.—Ll. D. D.
[2] *Neu* gynran.—Ll. D. D. [3] *Neu*, Cadwaf.—Ll. D. D.

Balch y daw yn llaw lluchuar
Metw y thoryf met y thonnyar

Gwirawd an gwrthuyn gwrth syr a lleuad
Gan rwyf rad rut vyhyr
Am hiruryn hirvreisc eryr
Am hauren hyuryd gwen gwyr

Ar llaw ywein hael hawl dilin gwrualch
Y mae gorvlwch eurin
Anrydet gwymp arwet gwin
Anrec brifdec breyenhin

Vt yssym etiw ar geir
Nys arueit llew a dau lloer
Gwaew crwm yn dyt trwm trwy fwyr
Gwan fysc yn eurwrysc yn aer

DADOLWCH RHYS FAB RUFFUDD.

CYNDELW AI CANT.

ASSWYNAF nawdd duw diamheu dy ddawn
Ath ddoniawg wyf finneu
Ar dy wyr eryr aereu
Ar dy wlad wledig deheu

Asswynaf archaf arch vawr y beryf
A beris nef a llawr
Nawdd rac dy var car cerddawr
Ar dy byrth ar dy borthawr

Asswynaf archaf eirchiad ym gelwir
Nawdd cywir cyngwastad
Ar dy ddryseu aur drwsiad
Ar dy ddrysawr gwawr gwenwlad

Asswynaf awch nawdd na chelwch awch porth
Can perthyn attregwch
Gostegwyr llys gostegwch
Gosteg beirdd bardd a glywch

Asswynaf nawd hawd haelon deheubarth
Diheuborth cerddorion
Ath dwrf oth darianogion
Ath dorf ath deyrnfeibion

Asswynaf nawd hawd haeloned worsaf
Nith orseif teyrnedd
Ar dy dorf corf cywrysedd
Ar dy deulu teilwng medd

Meddgwyn eu gwirawd meddgyrn au gw
Au gwarcheidw yn eurdyrn
A gloyw y fed yn edyrn
A glyw dewr a glew deyrn

Teyrnweilch prydein prydaf awch prifgerdd
Awch prifglod a ddygaf
Awch bardd awch beirniad fyddaf
Awch porth perthyn yw attaf

Atteb a ganaf a ganwyf arglwydd
Erglyw fi can dothwyf
Lleisiawn llyw y llew glew glewrwyf
Llaesa dy far dy fardd wyf

Wyf cerddawr ym rhwyf rhwysg morgymmlawdd gwyrdd
Rhwysg ffyrdd cyrdd cerdd wahawdd
Aswyn aserw herw hirflawdd
Aswynaf ar udd naf nawdd

Am rhoddwy rhwyf nef rhwysg awdurdawd cerdd
Nim gwnel cardd o nebawd
I foli mab duw dibechawd
Dibechddoeth cyfoeth cyfundawd

Eil digabl parabl parawd per awen
Parhaus hyd frawd
Ar lles llawr llyw llafnawr llwybrawd
Arllwybr iawn or ddawn ym daerawd

Delu ym bo er bodd y drindaud trugared
Tros waredd tros wawd
I adrawdd aerflawdd eurflawd
Ei ysgwyd mal ysgwyd rhwyd rhahawd
Mur mawrgor treithitior traethawd
Traeth om bronn tra thonn tra thyuaud
Mur mawrdir mawrdorf amgyfrawd
Mur mawrdud uch meddud meddwawd
Mur mawrdarf mawrdwrf gorwyddawd
Mur maurdreis maurdraus gynnefaud
Ith gyfeir un cwbleir cablawd
Nis cynneil cennyf dy folawd
Molaf wr clydwr cludawd
I eirchion i eirchiaid ar blanhawd
I eryr eirioes moes medrawd
Ni welaf ni welir cydfrawd
Gweleis i udd nim gwarthrudd gwrthrawd
Gwrthfruydr cruydr creulaun dybyddawd
Gweleis i wledig dig diofnawd
Ofn i ofn i efnys giwdawd
Gweleis i gleis a threis a thrallawd
Gleddyfal hywal hw yrnawd
Gweleis i glod a rhod a rhawd
O beleidr a rheeidr rhudd o gnawd
Gweleis i hael o hil anarawd
Ai gweles gwelei ryfeddawd
Mal cadarn yn cadw ei briawd
Mal cadwr cadwei a ddywawd
Cedwis cyngwas maws maiestawd
Deheu duw o nef ai gwarawd
Gwr gwrthaw gwrthrych ys defawd
Gwrth uchyr gwrthrychieid ys gnawd

Gwrth eurdro eurdrull gno gnythawd
Gwrth eurdal bual bugunawd
Buclin oreurin wirawd
Buarth llad llonydd o fragawd
Buches cyrdd cerddorion wasgawd
Buchedd glyw gloew ystryw aestrawd
Burthiad cad cyrchiad cyrchnawd
Bud beirddion barddeir om tafawd
Briwgoch brig ongyr brythawd
Breithgad gwyr brydeu llyr lloegr difrawd
Bri brython breint saeson sangawd
Bre brondor bron ddewrdor ddurawd
Bryd gryd grynn granwyn greid worgrawd
Brisg risg reu rieu rad barawd
Brwysg rwysg rann gyman gymmendawd
Brwydr eurgrwydr eurgreir bedyssawd
Breisg rebydd yn rhydd yn rhuyddnaud
Y gwna rhys rhieddawg odlawd
Braw Bryneich branar eu beddrawd
Bro Brengyl brangoel yspyddawd
Bolch ei lafn o lafur ffosawd
Bwlch ei gledd balch ei gleddyfawd

Cleddyfrudd gwrfudd gwr a ddeffry
Clod gwrawl rod rodawg hy
Gwr cyrchiad cyrchwn ei fawrdy
Mawrdal cerdd nid cardd y felly
Gwr gwaedrwyf gwlad un rwyf un rhy
Gwr gwaedlan nid gwr gwan gweccry
Gwr golud gwaedcnud gwaedcny
Calanedd calenig a ddyry
Gwr creulawn creulan ai cyffry
Cyffro cad cadellig wely
Gwr a wyr yn nydd ffwyr na ffy
Gwr a wnn i a hwnn yw hynny
Gwr yn twrf yn torf arhyly
Gwr yn tarf yn terfysg wedy
Gwr yngryd gwyr gwrhyd gwr hy
Gwr greidiawl fal greid fab ery
Treis dreon trinheion nwy try
Traws trydar trydydd haiarnlly
Greddf eigiawn ni grawn ni grynny
Gormodd alaf rodd elyfry
Grym erddrym aerddreig ai dyly
Glyw fyged glew fugeil cymry

Cymry diffreidiad
Cymmrwyn i gywlad
Cymmwy cad cas wenwyn
Cyrdd waddawl cerdd ganmawl ganmwyn
Ced gyfred gyfrieu gadwyn
Cadeir cor cadeu dor dirrwyn
Car cerddeu cerddorion worllwyn
Gwrllyw glyw glewdraws maws meddgwyn
Gwr llwrw llu lloegrwys dygyflwyn
Gwr gwrddfan am adfan addfwyn
Gwrddfan gawr gwrddfar wawr wenwyn
Ef goreu fal gwr yn addwyn
Yn seint cler cleddyfal ar drwyn
Llathrei lafn uch afn uch afwyn
A llif creu a lliw ffreu ar ffrwyn
Lladdei dreig ar dragon drylwyn
Tryliw goch trylew droch drachwyn
Am eurfrwydr am eurgrwydr eurgwyn
Am eur fro am eurfron terwyn
Torf anwar trydar trydolwyn
Twrf taerfeith goddeith gwaeanhwyn
Teulu a thewlu a thewlwyn waewawr
A gwyr mawr ymasswyn
Ffyrf derfysg ffysg hyddysg hyddwyn
Ffwyr ffysgiad fal ffleimiad fflamddwyn
Ffrwyth welling wellfaeth ffraeth ffrawd wyn
Ffrawdd wallaw anaw anifwyn
Llwrw milfeirdd milfeirch dygyflwyn
Llwybr moliant meddiant medd ancwyn
Llyw cemeis oth goddeis ith gwyn
Llew cammawn cymmer y difwyn
Llawfrydedd am dwg om dwyn i wrthyt
Lloegr erfid brawlid brwyn
Brwydr asgen brwysg nen breisg addef
Brein borthiad achryfiad achref
Bradw ysgwyd bryd ysgein wrthlef
Bradeu tan treulwan trin oddef
Ys arglwydd ys arwydd ys ef
Ys cad ffyrdd ys car cyrdd cyflef
Gwledig deg cantorf a deg cantref rhif
Ar hugeint cyfaddef
Budd barawd baran gwynt hydref
Bugail byd biw gymryd gymref
Corf ceindorf can dothwyf i adref
Ith edryd ith adrawdd is nef
Par eurglawr erglyw fy marddlef
Peir prydein profwn ein tangnef
Tangnefedd am naud amniferch rhif
Rhiallu dihe'ddwch
Nid achar llachar llafarwch
Nid achles afles arafwch
Nid achludd eurgudd argelwch
Argel cardd cerddorion wolwch
Dor ysgor ysgwyddau amdrwch
Doeth a drud am dud am degwch
Tarf aergawdd aergwl gadarnwch
Torf eurgorf eurgwyn gyfeddwch
Cyfeddach forach fireinwch
Cyfeddwalch cyfeddweilch elwch
Elyf dreig dragon digrifwch
Alaf lyw luoedd amgelwch
Amgeledd brython brythwch
Teyrnon teyrnas ynialwch
Teulu rys teilwng gwrys gwrysiwch
Gwrys arloes eirioes eiriolwch
Chwi gennyf gynnifiaid sefwch
Mi gynddelw a gynnelw gennwch
Beirdd wogawn bardd urddawn urddwch
Urddawl cerdd can edifarwch

Angudd bndd beirniaid gyfradwch
Ongyr urdd angerdd fatholwch
Angerddawl greddfawl greddf unhwch dywal
Am dywed lonyddwch
Can doddwyf a digeryddwch
Na ddaly far casnar cas heddwch
Nam gurthfraud om guaud om guaruch
Nam gwrthryn granwyn greid wolwch
Nam gwrthod eirif drafod arfdrwch
Ni wrthyd mab duw ddadolwch
Dadolwch llachar llacheu
Gyfarpar yn aerfar yn arfeu
Llydw ysgor ysgwyd byddineu
Llid ysgwn asgwn ysgoreu
I gymryd ein cyd cyn bareu
I gymmod an dyfod ein dau
Dy foli filwr hyd angeu
Dy folawd ys canwawd ys teu
Dy fardd da dothwyf ith oddeu
Dy far gwrdd gorddyfn ei faddeu
Ti hebaf nid hebu oedd teu
Mi hebot ni hebaf finneu
Hir ith ardrethir ar dretheu
O bell hil cadell cell cerddeu
Hil coeling perging pennaetheu
Hydr am ddadl cynnadl cennadeu
Hil rhodri gwesti gwystlfereu
Gwastad gryd gwystlon byd boed teu
Hil gruffudd rwyf rwyddfudd radeu
Rhwysg rhynnawdd morgymmlawdd mawrgleu
Hil maelgwn milcant addodeu
Ail tewdwr diweddwr deheu
Brwydr orchwydd ni orchudd tlysseu
Nag ariant nag eur yn adneu
Brwysg rwysg rwydd brolwydd bro Seith beu dyfed
Breisg am ged am gadeu
Preidd preiddwyr preiddwalch gyfreieu
Priodawr prydein prein preiddieu
Presen wr pryswr pres oleu
Preswyliawg farchawg seirch gwynnieu
Gwynfydig wr frydig frydeu
Gwynfyd cyrdd cennyd ceinfyrdd cyfeddeu
Gwynfyd gwyr gwrawl ddefodeu
Gwynfyd beirdd beirniad wyf inneu
Gwr glewyd yn ergryd eurgreu
Gwr gwledig ar wladoedd nid geu
Gwrddfaran cyfran cyfreidieu
Gwrdd fanniar gwrddfar gwenddoleu
Gwr a ddengys llad a llafneu rhuddion Llew dragon llyw dreigieu
Dreig ehofn ehang ei derfyn
Dragon rwyf rwyddwalch gyngelyn
Dragonfardd dragon falch fyddyn
Dragonawl dra ganwyf ei odyn
Canaf wawd ir priawd ai pryn
Prif arglwydd brolwydd bronheilyn
Breisg anlloedd beirdd borthloedd berthyn
Brwysg brydeu brwydr dechreu dechryn
Brad bryneich branas ei canlyn
Braw dachwedd gyminedd gymmyn
Gwrys efnys dechrys dechryn
Ei ongyr ei angerdd nid etfynl
Gnaud uch cnaud cnudoedd ar gylchyn
Ar llwybr llawr neud llawer blwyddyn
Llew llysoedd llyseidd ei derfyn
Llys eorth llu adorth llywelyn
Gwyd wosudd llofrudd lloegr ddilyn
Gwir wosgo wosgordd diergryn
Gwyrdd wasgar o wisgoedd ceinmyn
Gwrdd wosod gwr gorfod gorfyn
Gwedy myddw a medd gorewyn
Am hirwledd am htrwlad i hynn
Amgedawl am gadeu dybyn
Am gyrdd wawr am gyrn mawr melyn
Gorpo hael haelonaeth wobryn
Hawl wodrudd hil mawrfudd Merfyn
Gwawr gwendorf gwendyd oi gylchyn
Gwenwlad nef gair addef gwir yn

Arddwyreaf i ddreig ffwyr ffeleig ffer
Arddwy cedernyd fenwyd funer
Ardeml ehangdorf am ehangder
Am en dal bual buarth hydrfer
Yr gerdd fy ngherdd ynghyflawnder
Ei gyflawn foli ri rhwyddirper
Yn urddiant foliant fal yt glywer
Yn awen barawd awdl burwawd ber
Yn annwfn yn nwfn yn nyfnder—yt farn
Nid beirdd ai dadfarn bardd ai dadfer
Yn tarf yn terfysg yn ffysg yn ffyrfder
Yn twrf yn torfoedd hudoedd hyder
Ynghyfragor glyw am eu glewder
Ynghyfragod clod y clyw llawer
Yn anghyflwyth gwyth geith nanhyfer
Yn anghyfle llwfr llafur ofer
Ynghemeis yn treis yn traws ober peunyd
Oedd neuyd neuid y rudver
Penoeth oedd o penaf gwedy pynier cad
Gan llary llaw rodiad llat a llwyrder
Kenyd yw ganthau heilyau haelder
Hil gruffud hael ud haul diaber
Kardwahan catwan catwalch nifer
Cerdd weddawl cedawl cadell ener
Carn fleidd fleiniad cad neirthiad ner
Cadr ydd ymddengys rhys yn rhacter
Rhagtwll ei gylchwy pan amgylcher brwydr
Nid bradawg arglwyd yn yt glywer
Cynnifyw cynnif nid diofer
Cynnifiad cynneddf Alexander
Teyrneidd gwyr theidd rhag gwynn gwarther

Teyrnfro a geidw o gadarnder
Teyrnfron heilyn haelon dadfer
Teyrnwalch prydwalch wedy pryder
Teyrnged cymry ef ai cymmer
Pan gylchynnwys gwr gwrd yn nhrymder
Ni bu a gwalltan i gwrt gwallter
Oedd ffysgiad ffleimiad fflam gan ucher
Yn seithfed awyr yn seithwyr ser
Pan aeth sarff cadlan seint clodfan cler
Cleddyfeu cochion cochyn onger
Ysgor amddifyn pan ymddiffer gwlad
Nad ef gwledig a orsafer
Pan amwg teyrn teifi aber
Nid abar y gwnaeth nid saeth salwder
Yn rhan orffwys yt gynhwyser
Yg kynnuys rhydid glendid gloeuder
Yngoleuad rhad rhy ddamuner
Yng ngoleu freisg fre yn lle lleufer
Yn ngolefeint seint ydd asswyner
Yng ngoleu addef nef yt nodder

D. S. *Mae hon yn dri chanu yn y* Ll. Coch: "Asswynaf ar udd naf nawdd," *yn diweddu y gyntaf;* "Gwenwlad nef gair addef giwr yn," *yn diweddu yr ail.*

MARWNAD ITHEL AP CADIFOR WYDDEL.

Cynddelw ai Cant.

Mab cadifor kat wormeil
Maurg ot adas mygrwas mael
Ysgwn bryffwn braff diwyl
Ysgwyt llathreit hyneit hael
Hael anuar guenuynuar guyn
Huyluleid[1] vleiniad ygkatlan
Perchennauc parchus luman
Peir glyv periglus unben
Unben daun amgen ni div
Unbenn balch bulch yn hediv
Rudei pan llatei rac lleu
Rud onnen oe lovlen lau
Llau hylat ar llafyn hylurch
Llunyei glot lleu[2] dihavarch
Mynu tonn tremit y dygyrch
Maengann wedy meingan veirch
Marchauc llauir lleith unbenn
Maurgof argychuedyl yu yn[3]
Kyt ragor a duc ragon
Catvab gruffud am rudlan
Yn rudlan rug deu niver
Pan gyfreing gwavaur a guyr
Lladaud a hi llith adar
Llavyngreu keneu kedivor
Mab cadifor, &c.

[1] Ysgwn.—Ll. D. D.
[2] Mynneu glod glew.—Ll. D. D.
[3] Ae glod ar gychwetyl gychwyn.—Ll. D. D.

MARWNAD IORWERTH GOCH AP MAREDUDD.

Cyndelw ai Cant.

Iorwerth aer gannerth eur ganhorthuy
Nyt kerdaur nyu moluy [kyrd
Nyt cablaut ys molaut muy
Moli hael mal y haeduy
Haeduys deifnauc ri devnyd vymbardaur
Lluru llavnaur llaur llauryd
Llary llit aerleu lleu lluyd
Lleissyaun llas y hynevyd
Hynevyd argluyd ar eurglaur powys
Porthes glwys gloes waewaur
Glyw lovrud geleurud gaur
Glewdrut golut geloraur
Bu gelyn bryneich branes gyvuyrein
Bard goelvein beird gyvles
Bleidgruydyr bruydyr brydeu aches
Bryt yn arvot a dodes
Ny dodes vygkerd ygkyvreith eryoet
Dreic argoet hoed hydyrveith
Hirwaur toryf coryf kyvarweith
Hirvalch gwalch gwae ui oe leith
Lleithicluyth hyduyth hyd wasgar o gat
Brwysc luchiat breisc lachar
Ef oed leu oed lyw trydar
Ef oed lary o lin gasnar
Kaswallaun eissyor eisseu y dyvot
Balch arvot bwlch arveu
O beleidyr reeidyr rudgreu
O beleidryat kat kigleu
Kigleu beleidyr briu brith o gyvergyr
O gwaet gwyr y ar wlith
A gwyach hylef hylith
A guydva bleid yn y blith
O blith guyrd a chyrd a chein amser guin
A guiraut wrth leuuer
Berth yt borthynt amniver
Am iorwerth amnwych nerth nêr
Aervlaud kyvadraud kyvadref kerdeu
Cledyr cadeu kat wodef
Ny tholyes bud beird achref
Ny tholyir guaut guedi ef
Ef oed gatvarchauc get verchyr am cluyf
Cledyvrud nyt etkyr
Gueilchlyu glyu gleudraus eryr
Gwalchlann gannerth gualchnerth guyr
Gur ygaur dyraur deryu ygkreulan
Hael am rann am ruythvyu
Bu truy lewyt voes gloes glyu
Nyt o lyvyrder y deryu
Kan deryu dor glyu glot diogan hael
Kann bu guael an guahan
Ny chel vygkerd vygkuyvnan
Ny chud vyggrud vyggridvan
Gridvan darogan drycyruerth am cluyf
Clotvan ruyf ruydget nerth
Aerualch balch bulch y darmerth

Aryf taryf toryf agor[1] yoruerth
Iorwerth aer gannerth, &c.

CYLCH LLYWELYN,

SEF BRWYDREU LLYWELYN AB IORVERTH.
CYNDDELW AI CANT.

CRIST celi poet mi om meithveint synuyr
Ae synnyuy kyn heueint
Crist kreaudyr llyuyaudyr lluru seint
Cret krevyd celvyd kyureint

Nyt kywreint y neb kywryssed am ruyt
Yn ryvyc guythloned
Tut glyu tir mynyu neus med
Tir torvoed tervyn guyned

Guyned ny ryssed yn rysswryaeth gluy
A glywant men yd aeth
Mai toryf nyw tervysc alaeth
Mal tonn treis trytlon tros traeth

Traethaf canmolaf kan mil gwyr ysgun
Haud esgyn eu heryr
Calchdoet seith rivet syr
Cylch vy ruyf yn y rechtyr

Rhechdyr croesoswallt cryssyassant onn
Amyl dragon pedrydant [dreic
Guyr gortho bro bryn a phant
Guir cymry cymhellasant

Pebellyuys rywr rywodic lluoedd
Llywelyn weithvydic
Ym bro loegruys diffuys dig
Ym bryn gwyth yn amwythic

Amwythic wledic wlat om hydyr y breint
Am ud breisc ny chyhydyr
Uch uch y dydd herwydd hydr
Yssic dyd osuyd oeswydyr

Godreis a ladaud o lu trycheit lloegyr
Llywelyn arhonneit
Ae bobloed cyhoed kytneit
Ae byll ae bebyll ny beit

2. Pebyll llywelyn llew cat a welet
Yn oleu arthanat
Yn llutwau llidum yn rat
Twr—bu tyno wrth an gwynn
Pan doeth oes aessawr yg grynn
Pan dyfu penn llu pennllyn
Penn llyssoet kyhoet keiryawc amgant
Glaer—a glywir dra lliant
Hud aeth eu naf yn diuant
Hud el rac gruffut out cant
Can ced ryt peunyt prif eurglaer yn rwyt
Am roteist ut didaer
Can cad tec torreist dreic aer
A gwedy cancad cancaer
Carws duw dy uod uyd ohen gymro
Ar gymry yt wyd nenn
Ar bob dreic dragon berchen
Ar pob hydyr hud wyd yn benn
Pan ym gwnaeth vulet nath uolwn uy
Rwyf—nyd ryuet na thawn
Peryf nef pyr dywettwn
Parabyl prif hyuryd hyd hwn
Hwnn a duc ragor ragoch wyr kymry
Kymriwei dur vochuoch
Pan vu lew loegrwys voloch
Pan oet llif ceiryawc lliw coch

Cochurynn keredic kyrcheist rysset gwrt
Yn gorddwy teyrnet
Ongyr gwyr gwyrynt yg gwet
Onn ger bronn breenhinet
Breenhin mawr llin mab gwlad a gwyr
Wyf gorwar am danad
Ath garaf wyf digarad
Ath garo duw dewr duw dy dad
Duw douyt dym ryt &c.

LLYMA EGLYNYON MARWNAT.

A Gant Prydyd y Moch y Ruffut ab Howel ap Owein Gwynet.

Chwefrawr mis chweiris chweddyl
Diargel mawr—marw gruffut vap hywel
Nym aele gne gnaws echel
Nym eilyw dilyw ken del
Dotyw ynn dilyw am dilen preitwalch
Prid uyt pawb or gorffen
Gwander coll aerner eurnen
Gwendud barch gwyndyd berchen
Perchen vo gruffut parch westi ar nef
Ar neillaw grist keli
Am lyw mawr gwawr gwrhydri
Am luchuar gwanar gwae ui
Gwae ui uod llawryt llawen vt gwendoryf
Gwyndeyrn heb datcut
Lloegyr ormes rotes eur rut
Rotyad gra dillad gruffut
Gruffut grym euruut adwyn llew
Yn lle bei gyuamwyn
Vnbyn detyf vn boen oe dwyn
Enbyd ym ergydy mawrgwyn
Cwynaf vleit gwryaf ulawt gwryawr
Kyfnod—kyfnewid glas waewawr
Einyoes drang llew gyfrang llawr
Anyan chwefrin dan chwefrawr
Chwefrawr mis chweiris &c.

AWDYL

A Gant Prydyt y Moch y Wenlliant Dec Verch Hywel.

Duw sul gwyn yw hyn hynt gynwyre
Glyw—hynt a dycco glew gloew dydwyre
Dygychwyn olwyn elwa[1] vanngre
Dygymer hwyl fer heul neud foure
Dos heb argysswrw ar llwrw yr lle

[1] *Neu*, elwawd.

Dossawc hytolawc hawt y belre
Heb dymyr Tudyr tud elisse
Enwawc kyueilyawc ys kof aele
Heb uerch gynuelyn gelyn gne unbynn
Ked boed vnbennes ys anebre
Nest a dywawd im dim gy dwyre
Gnawd y dyn dylaw dylif ny gwe
Llywarch ym gelwir llu dy ganre
Lloegyr dystryw distrawch dilawch dile
Dyfnwyd uy ysgwyd yn ysgarte
Dyfnant ysgarant gwaew oe hasgre
Y fort yd gertwyf gwrt yd gre branhes
Gwr yssy o varanhwc yny haryfle
Llawer vcheneid ym reid dy re
Llwybrant om nwyfyant vch nor nwyure
Neur arwet dyuret yn eu dyfyrlle
Gwisc gwyndeil gwyeil gwet a darre
Neud adneu cogeu coed neud attre
Neud adwen ar dyn ry dwyn uygne
Neur duc wysc cantwysc gan y godre
Dolyt caer llion deil lliaws bre
Neum duc meirch mygyruawr dyrawr
Dyre—ar hwyl ganmawl hawl ar heul orne
Caeroet gwynlliant gwynllywc se
Caradwy lywy lewych ystre
Can y daw ym bot om bod yn de
Am hyn gwar uorwyn liw gwawr uore
Klywaf uyg callon tonn val tande
Yn llosgi yrdi ar detyf kynne
Diameth osgeth o wisc eurde
Diamheu anuon grann wynyon gre
A chludaw y hawl y chlod a he
Hyd y daerahawd heul hyd y dwyre

CANV

A Gant Prydyt y Moch y Rys Gryc.

Crist creawdyr ymerawdyr an met
Crist keli kolofyn tangnheuet
Crist mab meir am peir pur uonhet
Synhwyr—kyn synhyaw enwiret
Caranhawc yessu car ym wet
Keiryonnyt kyrcheis uym buchet
Kyrchaf yn gynttaf kyntet deheubarth
Diheubenn teyrnet
Kycrhaf rys uab rys om rysset
Kyrchyad cad cadell ediuet
Kyrchynueirt kyrchant wy orset
Kyrchuawr llawr ys kyrchu llaryet
Kyrcheist ros ditos diuaet
A phenuro a phen goruolet
Torreist gaer uyrtin toruoet ar freinc
Llawer franc ar adwet
Ac aber tawy tref dyhet
Tyryoet briw a hetiw neud het
A seint cler ar claer wyndiret
Nyd saesson y maon ae met
Yn Abertawy terrwyn allwet lloegyr
Neud llwyr wetw y gwraget
Ny char eryr gwyr gorwet na chysgu
Na chosgort heb wnet
Gnawd ysgyn ac ysgwyd ar glet
Yn ysgor brondor brenhinet
Gnawd gwaewawr gwryawr gwythlon
Gwan trwywan trwydun gythrymet
Gnawd oe law y lavur cochwet
Y gychwyn allmyn alltudet
Gnawd y lu y lat eu tachwet
Y lwydyon canaon callet
Gnawd eryr ebyr abar gwet bangaw
Y bencnud wy gyuet
A chicurein kyuwyrein kicwlet
Kicytyon coelyon kalanet
Trydyt gnawd cannrawd kynrawet oueirt
Am y vwrt kyuannhet
Ae breitin ae wlytwin ae wlet
Ae breityawr goruawr gorhoffet
Ae eur rut ae uut ae ueuet
Ae emys hyweturys hywet
A minheu om donyeu dym het
Gnawd ym daw anaw anuedret
Or deheu yrdanc haelonet
Ardal hart y uart am uerthet
Por eissor vn eissyeu nym gwet
Penn elyf pan elwyf wynet
Vn llyssenw a run nyd ryuet uy mod
Yn mudaw am reuet
Reuet teyrnet ti bieu y dreis
Ar draws ualch gyfrieu
Rysva dygyn dugost wy goteu
Rusgleth gwrt nyd ymhwrt amheu
Riuet syr syrthyassant yg oreu
Oth gynnygyn oth gynneuodeu
Ros diuro penuro penn uateu pybyl
Pobyl uedyt rwy kigleu
Llys hawrfort y berw fyrt neud teu
Llwyr llosged y thudwed hitheu
Llutwyd kymynwyd kwbyl yn eu pobed
Pob kenueint yn ychreu
Kastell gwis kystyngeist yn gleu
Ac arberth gosymerth goleu
Anghen yn aghen yn agheu oth gas
Ath osgort rwy goreu
Rys uychan y galwant ys geu
Rys uawr ualch yg calch yg cadeu
Rys gryc y galwant golofyn peu
Nyd Rys gryc yn kynnyc kameu
Rys nys kil na deg mil na deu
Pan el rys yn rwysc y arueu
Arvawc kymynawc kymened osswyt
Oes vdut nyd tyghed
Aerwr syr syrthyws eu riued
Ar y law ae lafyn wyarlled
Arwr dinefwr dinamhed adaf

Neud athwyf ath weled
Yn bennaf yn bennaeth or gred
O gymro o gymry giwed
O bob teyrnas teyrnged yn rwyf
Nwy rotwy gogeled
Y eirchyon y eirchyeid ar lled
Ae eur rut ae vut ae vynwed
A minheu ked mynhwyf vyned
Am radeu ryeu ryn daered
Yssym eur ac aryant nyd fled
Ac emys grawthurys grawnvyged
Yssym wyr a thir a threfred ehang
Ac ehofyn ystlyned
Yssym vt digut digaled
Digryno digawn y doethed
Am rotes ryodres riued
A drych eur ar drychant tuted
Ef goreu rieu ry aned
Er Arthur llary modur lliwed
Ef dihytyl y eur yn arfed frawt veirt
Ual frwyth coed llawn adued
Llywelyn llyw bedyt a chred
Uab Ioruerth uy nerth uy noted
Y titheu vt deheu dyred
Clod wr llary om llwry yth drwyted
Ny bytud wrthut vut vyged
Yth eissor yth oes o haelhed
Wrth uordaf a nut pan roted ruteur
A rydderch afneued
Yth wrhyd yth wrt gadarnhed
Mal gwrhyd ercwlff ergrynhed
A Samswn gwytgwn gogoned achaws
Ac echdor pan broued
Ac or pryd y prouaf nad fled
Nath adws yessu eissywed
Yn hygant y tri yn tecced adaf
Neud adwyf yth ganred
Run gymrawt gymry ouyged
Rynn wrthyd llyw ryd llaw roted
Rys uab rys dilys dylyed prydein
Prydytyon eituned
Rys derllys dyrllytwn y ged
Rys rebyt ef dyrllyt dyued
Dyued rwyf dy glwyf dy glod dy gyn-
ygyn
Dy gynnif ys hynod
Dy gletyf ry glywssam arrod
Ath waew rut yn rynn ym wossod
Dy arwyt ech awyt vchod
Ys ar grad y gad y ganuod
Canhorthwy gordwy gordirod
Can wyr lloegyr ys llwyr adnabod
Dy ysgwyd rwygwyd ragod trychanweith
Trychangwyth gyuaruod
Ath eur ryt dilut diuyth od yth lys
Ath emys amgyruod
Ath breityawr yn dyrawr dyuod
Ath preitin ath braf dy ofod
Mal yt wytt yt wyf yth ganuod
Yth ganmawl ny gannwyf goruod
Mor huysgwr gwr yn gornod ar bawb
Or bobloet agkyduod
Cannhyad duw ys diheu y uod
Yth gannerth kyn darmerth daruod
Canyd oes yma amnod y drigyaw
Dreic prydein syll ragod
Pan vuttych oth uyd hart gyduod
Or bythwn ny hebwn hebod
Boed yn nef ath hendref ath hauod teyrn
Teyrnas duw vchod

MARWNAD HYWEL UAB GRUFFUT M. KYNAN.[1]

PRYD Y MOCH AR CANT.

HYWEL ddiogel diogan deyrn
Duw or nef nyth wyl han
Ae senet laryet lydan
Ae seint gloew ardonyeint glan
Gloewdid a rydid gan y rad boed teu
A bid duw yn ganhyad
Hywel hoewal pob eirchyad
Hil kynan hwyl kynwan cad
Cedawl arwynawl ar wyneb prydein
Prydytyon dioheb
Ny uagei uygwl atteb
Ne uaeth uegyuaeth y neb
Naf eryr teyrn rac tympestyl kedeyrn
Cadwei dud y dan destyl
Ner trymder tromgad diwestyl
Neun gwneir vegys gweir vab gwestyl
Gwystlid rac llethrid llathreidrut lafnawr
O loflen mab gruffut
Treis gymryd lewgryd lofrut
Tros gymry traws gymreisc vt
Ut adyen hywen hywel neud adneu
Nyd adwna duw a wnel
Gwr hydyr yn hoedran a del
Gwawr echen gwrhyd echel
Echig ynof cof neum cafas edlid
Am edlig teyrnas
Hydyr vt cletyfrut cloduras
Huysgwr gwr yn oed gwas
Gwastad yg cancad yg kyngwyt galon
Gal ouid yn rodwyt
Gosseb rotyad eur rad rwyt
Gwys eissyeu aergleu arglwyt
Ar deheu rieu rwyf goruchel nef
Yn adawd mihangel
Arbennic aer bynnac gwnel
Arglwyt boed hywyt hywel
Hywel ddiogel diogan deyrn &c.

[1] N.B. Hywel Fab Grufudd ap Cynan a fu farw An. 1216. ac a gladded yn Nghonwy meddai y Powel.

PRYDYD Y MOCH Y VADAWC AP GRUFFUT O VAELAWR.

Am vnic treissic y traws yolaf duw
A ddigawn yach o glaf
Milwr milwyr uodrydaf
Madawc law ddeawc lary naf
Naf ner rac trymder trist gythrud dolur
Dilys ym y eur rud
Mab duw nef noda vy vd
Gredeuawl greidyawl gruffud
Greit eryr milwyr maylawr a archaf
Y erchwyn nef a llawr
Vd dinac dinas gwryawr
Vn dinam vn mab mam mawr
Vn mab duw ehun oe heneint na lud
Gwr ny lwyd beird oe heint
Rwym galon nyt gelyn seint
Rwyf powys peues hoffeynt
Powyssed angheu powyssuc ae gwyr
Or goreu y hamwc
A edeu rieu ryddrwc
Ac a uo da ef ae dwc
Dvc ywein wynnuein ny wnn han ae hoet
Neut y hoedyl am erwan
Hil gruffud taer rybud tan
Teu angheu anghyflauan
Kyflauan vuan vu ar dreigyeu byt
A bedyd kyn bwyn teu
Kadyr grist rac cadwen angheu
Kadw vadawc uynawc yn veu
Meu bryder llawer llwrw klwyf ym
Deuryd—ym dewred nyt ydwyf
Am———

[*Englynion ar goll.*]

Llyw gwrawl breinyawl brenhineitaf
Llywyawdyr gwenndref nef nerth a archaf
Llwydyant pob carant caraf dy uoli
Llewychuawr geli ri rywoccaf
Llwyr ym kyfyd bryd brys ny gelaf
Llauur veith a weith aweinydaf
Llyryeid uawl trethawl traethaf o naw
Uan—llwydran ellylw gan a genydaf
Llawen eidun vun uyd diorssaf
Lleueir ry gwbl eir ny rygablaf
Lletyf dihol dethol doethaf or gwraged
Llaryed gluduawred a gloduoraf
Llawr mawr mebwynyawn dawn diwarthaf
Llewychdud meinhir ywr tir teccaf
Llu diurawd hyffawd hoffaf ker meuryc
Lliw gwynnblyc gwenyc gwen y hadaf
Leuuer eiry didreul neu heul yn haf
Lliaws ae canmawl or mawl mwyaf
Llin gwinuaeth pennaeth pennaf o gymry
Llun hy ae dyly ieith atalaf
Llwrw gwir nyw cenir ual y canaf
Llauar car kerdrod o uod uydaf
Lloer hynot ar glot yr gloewaf deurud
Llaesuerch uaredud a brud brydaf
Llederyd yw gouyn dyn diweiraf
Llit cant o volyant gwarant gwiraf
Llawer geir —— neir a wnaf ker aeron
Llif dragon vanon vonhediccaf
Llebliw ardal gwiw gwydyrblas yd af
Lle uym llwyd eilwyd arwyd araf
Lles uymoet eres evraf am tavawt
Llathreit wawt hyd urawt hut nawt hoet naf
Lliw cer enwysc riw rin dawl om tafawd
Neut diuethl anueidrawl
Llin arglwyd llary hylwyd hawl
Llun diweiruun dy wiruawl
Mawl ran ellylw gan gynyd gwyd hydec
Y gwawd hydyr ny deruyd
Milyoed dreul ne heul hafdyd
Molyant pwyll uedyant pell uyd
Ny byd amdlawd gwawd gwawr hynod
Ellylw—allwed dawn a gwybod
Nawd yw rac ran o dannod
Nwyf rieu glwyf rwy o glod
Cloduawr dwn kyrchwn kyrch dilud
Ueinuarch—ar fwynuerch varedud
Claer orne dwyre deurud
Clwyf cant uyrd uedyant veird uud
Buduawr yawn hydawn hediw hawl
Dylyn—yw heul dolyd hebliw
Bod rod rin diurawd wawd wiw
Bun laes wanllun lwys wynlliw

LLYMA VARWNAT

A Gant Prydyt y Moch y Iorwerth ab Rotpert.

Fyscyolin byddin bud achref kerddeu
Kerddwys hael yn tangnef
Carno vro vreinyawl addef
A gwedy carno caer nef
Nef yr gwr arwr eur ossep cerddeu
Ny duc card e wynep
Ny wn o wawt e wohep
Ny wybu nakau nep
Nep ny wyr yn llwyr uy lletvryt am lary
Am lury nul oespyt
Trydar wasgar wisg ermyt
Trydyd hael beird auael byt
Bydoed ygkyhoed ygkwyn a ethyw
Oe athaw yn amwyn
Post cadeu kedawldut vrwyn
Powys dir peues derwyn
Terwyn yn amwyn am nerth teyrned
Teyrnas oed y werth
Ysgwyt eurdrut balchdrut berth
Ysgemyt tewdor Ioruerth
Ioruerth gat gannerth gyt gynnor kynran

Kynreul eur a phorffor
Ef oed llew llew lu agkor
Dyhed teyrned tut yor
Yor drydar aerllary oerllawr ae gortho
Ny wrthit yndyd gawr
Mab rotpert rwyf byddinawr
Wyr aryfrud maredud mawr
Mawr a gwyn kymrwyn yr dwyn
Kymrawt dreic drwy ganhyat y drindawt
Car anwar llachar llwch gwawt
Llary llawfer fyryfder fossawt
Fyscyolin &c.

MARWNAD MARED. M. KYNAN.

PRYDYD Y MOCH AE CANT.

MAREDUT llofrut lloegyrwys diarchar
Diorchrawn orthywys
Y mer nef nota vt glwys
Ym parawd ym paradwys

Parawd ysbytawd y esbyd prydein
Vt pryduawr y wrhyd
Maredut marw yw heuyd
Mal modur arthur arthgryd

Greidyawl arwynyawl arwynebet glyw
Gloew eryr teyrnet
Clwyf dygyn deheu a goglet
Clywed y uyned y uet

Betrawd an daerawd pob deurut prydus
Pryderwn yn achlut
Daear vn kyuar an cut
Deon derw maredu maredut

Maredut gruffut grym aduan teyrn
Teyrnet ar gwynuan
Meibyon dewr derynt ychlan
Mur greid kynniuyeid kynan

Dwyn meibyon kynan cyn bu llwyd yr un
Arwynawl ym plymnwyd
Engyrt gyrt gwrthlys annwyd
Anghen agkyuartal wyd

Angheu an goreu gormeil kenetloet
Can edlid yn adueil
Nyd hawt ny nawt neb ynyeil
Nyd hyn hoes dyn noc oes deil

Deilyadon dyfrynt am defry hiraeth
O hiruod dreic kymry
Yth weryd hydyr wrhyd hy
Yth achles wales wely

Gwelytyn teyrn tud gynuan ae ceidw
Ae cedwis pob calan
Bro heirt y ueirt y ueirch can
Bronn gedawl uch bro gaduan

Caduan ner ener anaw kertoryon
Kertassant ar eityaw
Arwar trydar trin ognaw
Eryr gwyr frawt dymhyr fraw

Fraw gyrchyad cant cad kyn bu llawr y
Ae deyrn vytinawr [dy
Ny elwid rwyd ysgwydawr
Ry gelwir rann varw rann vawr

Mawr deyrn kedeyrn kyd gyuranno eur
Ac aryant ym pob tu
Milwr milwyr gynytu
Maredut mawr adwyn vu
Maredut llofrut &c.

CANU

A GANT PRYDYT Y MOCH Y LLYWELYN
M. IORUERTH.

CRIST creawdyr llywyawdyr llu daear
A nef—am notwy rac auar
Crist keli bwyf keluyt a gwar
Kyn dywet gyuygwet gyuar
Crist mab meir am peir om pedwar def-
Dofyn awen diarchar [nyt
Crist uab duw dym ryt ar llauar
Y uoli uy ri rwysc o dyar
Llywelyn llyw prydein ae phar
Llew a glew a glyw gyfarwar
Uab ioruerth yn cannerth an car
Uab ywein frawtyein frwyth kynnhar
Ef dyfu dreic llu yn llassar dillad
Yn dillin kyuarpar
Yn eruid yn aruod abar
Yn arueu bu keneu kynnhyar
Yn dengmlwyt hylwyt hylauar
Yn didranc y gyfranc ae gar
Yn aber conwy cein dafar uy llyw
Llywelyn a thrugar
A dauyt deuawd ul kessar
Diuei dreic dragon adwyar
Diuwlch ut diualch y esgar
Diuwg blwng blaen uuel drwy uar
Dybryd ynn veirt byd bod daear arnaw
Ac arnan y alar
Ef an llyw kyn llid gyuysgar
Ysglyuyon ysglyuynt llurw bar
Oet rynn rut ebyr or gwyr gwar
Oet rann veirw uwyhaf or drydar
Oet amliw tonneu twnn amhar eu neid
Nyd oetynt dilauar

Tonn heli ehelaeth trwy uar
Tonn arall guall goch gwyar
Pann orvu penn llu llachar llywelyn
Llyw alun athauar
Myrt bu llat llith brein gortyar
Or milwyr a mil ygkarchar
Porth athwy pan aetham y ar
Meirch mordwy vch mawrdwryf tonnyar
Oet ongyr oet engir eu bar
Oet angut gwaedrut gwaedryar
Oet engyrth yn hynt oet agkar
Oet yg oet agheu an kymhar
Oet amheu yr byd bod abar
O honam o heneint lleithyar
Mawr gadeu angheu angklaear
Meirw sengi mal seri sathar
Kyn plygu rodri rwyd esgar y mon
Mynwenhoet bu branar
Llywelyn kyd llatwy trwy uar
Ked lloscwy nyd llesc uuelyar
Llary deyrn vch kyrn kyuarwar
Llwrw cyduod yr clod ys claear
Ry lloues rwyf tres tros uannyar y ueirt
Oet vawrllwyth yr daear
Gwisci eur ac aryant nys car
Gwascwynueirch goseirch gossathar
Ysginawr goruawr goruynt par
Ysgarlad lliw fleimyad flamyar
Meirch mawrthic frwythyc fraeth anwar
Frawtus—a phreityeu cwiar
Mwth y ryt arwyt ygwascar
Mal arthur kein modur kybdar
Cann a chann a chein wyllt a gwar
Cant a chant a chynt noc adar
Adar weinidawc caeawc kynran drud
Dreic prydein pedryuan
Adod lloegyr lluossawc am pann
Adaf hir yn herwyt calan
Adwet teyrnet tir nys rann
A dan ser yssef y amcan
Adnes y uranhes y vrein bann dychre
Y dychrein gwyr ygkreulan
Gwrt y gwnaeth am deu draeth dryuan
Gwr hydwf gwrhydri ogyruan
Dygwyt gwyr heb leuyr heb lann
Dygoch llawr dwygad uawr varan
Vn am vro alun eluyt cann a freinc
Yn frawtus val camlan
Ar eil yn aruon aruor uann
Yn vndyt an vnduw ynn a rann
A dwy dreic feleic faw gyman
Ual deulew nyn dylochassan
Ac vn traws gadgun treis uaran ual gwr
Yn goruod ym pob uann
Llywelyn llafnawr agkyuan
Lloegyr diwreit llu rutuleit rutglann
Llu racdaw a llaw ar lluman
Llwybyr yn wybyr yn ebrwyt allan
Llwrw dawn cadwallawn uab caduan
Y mae am brydein yn gynuan
Llary ny del y law attaw attan
Llyryed tremyned tea mor dylan
Rac lleith anoleith anolo llann
A llafnawr lledrut uch grut a grann
Ninheu ueirt prydein prydus eiryan berth
Gwyr a byrth uy rwyf ym pob calan
Yr digabyl barabyl gan bawb oe uann
Digrifwch elwch elyf egwan
Oe aryant gormant gorym drudran
Ae alaf ae eur ae aryan cann
Can edwyn dechryn o dechreuho bleit
Vch blaenwel yn oed llo
Gnaws achaws yn ych kyn aduo
Gnawd y lat ny lwyt y abo
Caer lleon llyw mon mwyn pabo ath duc
Ef ath dwc yg godo
Llywelyn ef llosges dy uro
Llas dy wyr tra llyr tra llwyuo
Llwyrduc y wytgruc nyd fuc fo
Lloegrwys yn llucvryd ys ymino
Lleu dir teyrn llutywyd yn agro
Llas y glas y glwysdei neud glo
Llys elysmer bu fer bu fwyr gno
Llwyr llosged y thudwed ae tho
Llwrw gwelwch neud hetwch heno
Can vy rwyf nyd ryued ked bo
Hyd yt el y doryf ar dyno a brynn
Vt breinhyawc bieiuo
Llew ae duc ae dwc pan uynno
Yr trallwng trillu angosgo
Llys efnys afneued tra uo
Lles y uyrt o ueirt ae kyrcho
A duc y wytgruc ae dycco gwylywch
Gwelhator pwy llutyo
Llwrw uochnant edrywant a dro
Llwydcun llwyd llithwyd am honno
Lledkynt argoedwys gwys greudo
Llys a dwy neud einym yno
Edryched powys pwy uo
Breyenhin breisc werin brwysc ado (acdo)
Ae gwellygyaw pwyll ry twyllo
Ae gwell franc na frawtus gymro
Llyw yssyn synhywch ked tawo
Lloegyr gychwyn a uynn a uynho
Llwyr y dyd y uryd ar uro gadwallawn
Uab caduan uab yago
Llary ysbar ysbenyt y plo
Llwrw esbyd yspeid anolo
Llew pryduawr llyw prydein ae chlo
Llywelyn lliaws y vranuro
Llary deyrn kedeyrn cad wosgo ygcur
Ys fyg car a oruo
Gorwyt vt dremrut dra mor lliant y mon
Mam gymry y metant (bedrytant)
Gorllwybyr llu llenwis ewyngant
Gwarthaf brynn a phenrhyn a phant
Gorlleinw gwaed am draed a ymdrychant
Amdrychyon pan ymdrechassant

Cad y coed aneu cadyr anant borthi
Burthyeist wyr yn diuant
Eilgad trom yn tremynassant
Vt adyen vch dygen dyfnant
Eil milwyr milwyr dybuant
Eil yrth gyrth yn gwrthuynnassant
Eil agwrt ymhwrt am hart amgant bre
Bronn yr erw y galwant
Kynwan llu mal llew yth welsant
Kadyr eryr yth wyr yn warant
Kan hynny kynhennu ny gwnant
Kan wyllon kelydon kertant
Dugost y wytgruc a dygant y dreis
A dryssei kyfnouant
A rutglann yn rutlaw amgant
Run gannclawt adrawt edrywant
A dinbych wrthrych orthorryant ar uil
Ar voelas a gronant
A dinas Emreis amrygant
Amrygyr newenhyr naw nant
A chaer vn aruon acharant yg gnif
Yg gnaws coll am peityant
Neur orwyt dy orofyn nad ant
Yth erbyn yth erbarch vetyant
Neur ortwytt yg gorhenw morgant
Ar vilwyr prydein pedrydant
Mad yt ymdugost waew mad yth want
Arall—yn aruoll ysgarant
A chletyf a chlotuawr yth wnant
Ac ysgwyd ar ysgwyt an chwant
Mad tywysseist lu loegyr yrddant
Ar deruyn mechein a mochnant
Dy gynnygyn ny genhynt cwt ant
Ny cheif hoen na hun ar amrant
Mad yth ymduc mam wytt doeth wytt
Dinam—wytt ditawl o bob chwant
O borfor o bryffwn uliant
O bali ac eur ac aryant
Afy wrys[1] gochwys goch anant y veirt
Yn vyrtoet y caffant
A minheu om radeu rym anant
Yn rut eur yn rwyt ardunyant
O bob rif ym rwyf ym donyant
O bob ryw ym roted yn gant
Ked archwyf ym llyw y lloergant yn rot
Ef am ryt yn geugant
Lliwelyt llettrawd dy uolyant
Llywelyn a llywarch ae cant
Munerawd y marw ny mwynyant
Mal ym byw lleissyawn ryw run blant
Nyd gormot uyg geir wytt[2] gormant teyrn
Wyf tebic eliffant
Can oruod pob rod yn ramant
Can volawd a thauawd a thant
Kein deyrn kyn bych digreiuyant
Can difwyn oesgwyn ysgarant
Can duw ren yn rann westiuyant
Can diwet pob buchet bych sant

[1] *Neu*, O omys. [2] *Neu*, ytt.

AWDYL

A Gant Prydyt y Moch y Llywelyn M. Iorwerth.

Duw ren dym ryt kymwynas
Detyf dyfyndawn kyuyawn kyweithas
Deduryd dyt gwynuryd gwyn wanas
Dragon—dreic prydein ae hurtas
Detyf uy rwyf rynn wrthyd o lias
Dewr egin dwyreawd yn das
Llywelyn llary dyn llwyr dias galon
Gwyl hydwf ual pallas
Buost mab arab arueu dras
Drud cadeu dreic keneu kynlas
A gwedy hynny buost gwas
Clet eurin clo bytin cloduras
Neud wytt wr aerdwr ardwy euras cad
Kedernyd eneas
Dy gywlad nyd lledrad y llas
Dy gynnogyn ny gynheil y tywas
Dy gludawr waewawr goch leas kynnygyn
Yn kynnwyn galanas
Dy gludueirt ynt heirt yth hartglas
Dy gletyf dy glod ry seas
Dy arueu angheu angkywas galon
Gal ouyt rwy dyfnas
Dy orwyt dy oruawr adas
Dywedi teithi teyrnas
Ar ynys brydein briodas yn hir
Yn herwyt bod achas
Dy ystwng kedyrn kadarndras
Detyf gwystlaw yth law heb lutyas
Dygymer pob ner pob nwythas deyrn
Duw o nef yth swynas
Wytt priawd tir prydein ae thlas
Wytt prifwyr eryr arddyrnuras
Wytt chwyrn wytt teyrn wyt eiryas
Cadeu—wytt cadarn ual dinas
Wytt goreu vn gwron or uas
A wnaeth duw y dyt yn creas
Llym anyan tra than trwy gras a choed
A cheyrn oreuras
Llyw bydoet lled byd dwfyn a bas
Llywelyn llywarch ryth gauas

AWDYL

A Gant Prydyt y Moch y Llywelyn M. Iorwerth.

Ath uendiccwy duw deyrn werlin hael
Hil uletynt uab kynuyn
Aryf eryr gwyr llewyr llewyn
Aer gymid kyndlid kynuelyn
Aryal gortywal gwrdiuyn pennawr
Penn prydain ogyrthyn
Yth ysgwyd tebygwyd toryf wyn
Ysgwyd ball guall guhelyn

Geir uyg eir or penneir yn perthyn
Ar bawb—o bobloet dyfestin
Meu eur rut ym rotyon glyn
Mi lywarch titheu lywelyn
Mechdeyrn kedeyrn cad o mynn aryfrut
Eur dilut aer dylyn
Amhyl yth gylch galchdoed gymyn
Am dymyr gwaed gwyr gorewyn
Peithyawc dy alon dy elyn gwae ef
Gwaet a gwlad neuth ganlyn
Peth oth oed athwyd wy deruyn
Pymthengweith pymthengmlwyt bych
Hyn—mabddysc ytt dreulyaw treth en-
Y veirt—yn yrtyoet yth gylchyn [uyn
Dy law hir neu chredir na chryn
Yn roti eur rut a melyn
Dewr yth wnaeth vn duw yn vn dyn
Haelaf—hyd aeth heul oe gylchyn
Detyf dy dad daeoni ath glyn
Dadeni haeloni heilyn
Wyr ywein prydein praf dechryn galon
Gal ouyt hil meruyn
Wyr madawc vreinhyawc enwawc hyn
Mab Ioruerth mad ganed urtyn
Ath ogyuarchaf naf ny eduyn beirt
Megis bart ar dremhyn
Hawl gretuawl kedawl cad edwyn
Hael hywlyt lawryt lywelyn
Hanbwyf well o honawd wawd obryn
Hanbych well o duw ac o dyn

AWDYL

A Gant Prydyt y Moch y Lywelyn Uab Ioruerth

Neum bu dyt ker eluyt elwy
Eilywn wawd a deuawd a dwy
Neum bu aralldyt ym rydyd rwy
Ker moreb kein wyneb konwy
Neum bu tremyn tramwy rwng lleyn
Llewychedic eur ar uy kyfrwy
Ac eurawc aruon ac ardudwy
Ardal dwfyn hoewal dimilwy
Eissytyn gwylein riein yn rwy
Kalcheid y kaeroet kylchwy maelgynig
Milgieit eu gwyr ym pob tramwy
Nyd treid tra dilyn pell ouyn pwy
Py geidw yr gorddwfyr rac pob gorddwy
Llywelyn ae keidw llew yn adwy
Llyw gwynet ae met hyd y mawddwy
Llaw orthrech wrth rwyfan mordwy
Lloegyr wrthryn tra llynn llwmynnwy
Wyr madawc ermidet uwyuwy
Wyr ywein uirein y auarwy
Pryffwn y digreit praff y ddirwy
Ger eluyt mechyt a machawy
O lydaw o draw o drwy mor hafren
Hyfriw y peleidyr ym porthaethwy
O ddyfneint o neint o Nanheudwy
Or tir a uernir wrth efyrnwy
Gwychyrualch lywelyn erlyn arlwy
Nid kywiw a llwfyr dwfyr dyfyrdonwy
Kereist oth uebyd gwryd garwy
Karu bun weddeit lunyeit lywy
Eur didawl meidrawl y modrwy ae phall
Ny phell tynn riein rac a garwy
Yn ganmlwyt yn rwyt yn rwy ar gymry
Ath gymryd yn uwyfwy
Doeth attep duw ath attwy
Teir oes byd a heuyd yn hwy

PRYDYT Y MOCH AE CANT Y LYWELYN VAB IORUERTH.

Aele nadolyc yr ae dyly lloegyr
Dellis llew o gymry
Yn gert gytuod rod ryly
Yn ged gyhydyr gad hydyr hy

Hy bytei arthur eirthyaw hyn ae lu
Eilywoet oe gylchyn
Milwr gwlyt milwyr gryd gryn
Mal yt wytt hetiw hytyn

Hytyn lywelyn hytolawc y veirt
Ae vytoet lluossawc
Rwyf bedyt ny beit y rawc
Rwym lloegyr lliwed trahawc

Traha yw y neb na bo kaeth ym rwyf
Gwr ny rif kybytyaeth
Duw mal ef nef ner bennaeth
Dyn kynna nys gwna nys gwnaeth

Gwnaethost gad aerbost ged eurbar
Prydein—nyd pryduerth yth esgar
Y gymry gymryd gotyar
Lloegyr wales yn wores war

Gwrhydri benlli ban llocher ys gwlyt
Ys gwledic kymynner
Ys gwrt yny gordiner
Ys gordrud fwyr dylud fer

Fwyr fysc aer deruysc ar deruyn lleon
Llyw prydein llywelyn
Dygen rwyf ry duc dy hyn
Ducost vt dremrut dremyn

Tremyn llywelyn llyw rydyrch prydein
Prid y loegyr y dissyrch

Miluyrt glydwr glod neinteirch
Moes terrwyn maes twrr a gyrch

Cyrchyad tremynyad tra mor ut dy gas
Dy gosgort yn breinrut
Meu dy ged gad wychawc nut
Teu uyg gert angert angut

Angut uu dy gyrch angert lyr a bran
A briw goch dy ongyr
Traw y tremynaist benn gwyr
Trwy dyrn deyrneit eryr

Er pan y llywyeist lloegyr diwreit gymry
Gynniweir milcanpreit
Elyf dreic feleic fwyrdreit
Elysmer vt fer nyd furueit

Nyd fuc orwyt gruc wytgun ysgorua
Oes goruod y hil run
Tyreu poeth peithyawc pob vn
Tande fyryf foes alun

PRYDYD Y MOCH AE CANT Y LYWELYN.

Treisuawr lywelyn trossof nys rotei
Ef rotes wyllt a dof
Y winllynn dengyn da gof
Oe wennllaw heibyaw hebof

Hebof nyd anghof anghad glydwr llew
Llewelyn huysgwr
Hebawc teyrn varchawc twr
Heb ameu ef goreu gwr

Gwr gwrthod gwarthrut gwrt yn gwrthrynn lloegyr
Llywelyn ar gychwynn
Ym blaen caen cawad vnbynn
Ymbliant gwyrt ac vn gwynn

Arwynn yw gennyf arwein y vetwl
Ae veddyant hyd lundein
Aerwalch balch bolch y laslein
Eryr araf prif wyr prydein

Prydein anghyngein am gyngas galon
Ef golofyn teyrnas
Anaw pedyr ae nawt pa dras
Y gallwn val y gallas

Gallas arglwyt was aer gleis lywelyn
Lewenyt dwfyn a beis
Gwendud amryw dud emreis
Gwynet adrysset y dreis
Treisuawr lywelyn trossof &c.

Y CANU BYCHAN

A Gant Prydyt y Moch y Lywelyn vab Yoruerth.

Cyuarchaf ym ren cyuarchuawr awen
Cyureu kyrridwen rwyf bartoni
Yn dull talyesin yn dillwg elfin
Yn dyllest bartrin beirt uannyeri
Kymhwyllaf uy naf kymry uodrydaf
Kymro keluytaf ry wnaeth keli
Kymreisc lywelyn nys kymrawt neb dyn
Kymry y deruyn ae doryf drosti
Eryr teyrnet yr yueis y vet
Ar het ar dyhet ar deheu ri
Yr yueis y win o ualch uuelin
Ae wisgoet eurin ae uynogi
Yn llys aberfraw yn llochi bartrin
Yg kaer uawr vyrtin vyrtyoet beri
Yg kaer dygannhwy yn abertawy
Yn agwrt dramwy dref Gedweli
Yg kaer yn aruon ygkert gyflawdon
Ac ygkaer llion uy lliw dybi
Yg caer Amwythic yg cein dreui ner
Yg caroet aber tyner teiui
Yn llys fer elysmer yn seint cloduan cler
Yn llysseit aber hydyruer hodni
Yg castell baldwin ygkeri osgort
Yn hawrfort dref gort dref diuysgi
Yn rutlann deguann deiui drachas eingyl
Yn rutlan degeingyl tec a threui
Yn llys y wytgruc a lloegyr yc catuc
Llawer an goduc yn ymgoti
Yn llyssoet deheu yn lloegyr adodeu
Lliaws twr goleu yn golosgi
Ym pryffwn rywrys yn rwyoli gwrys
Ym prydein ynys gwys an gwesti
Ny chawsan droeduet heb wan heb wnet
O deruyn gwynet yny gweini
Anoethach powys ae thir amddyfrwys
Ae thoruoet diffwys nyw differi
Neu loegyr lu derrwyn ae llyw llid wenwyn
Ae lluoet trylwyn hyd tra gweilgi
Ny chawsan genhyn kymod kymeinthyn
Eithyrgwarth a gwrthrynn wrth ymbroui
Darogan mertin dyuod breyenhin
O gymry werin o gamhwri
Dywawd derwyton dadeni haelon
O hil eryron o eryri
O wyron ywein ar wyneb prydein
Vn vrtyein llundein o lan deithi
Yn lew loegyr gymyn yn yoruerth y hyn
Yn lary lywelyn o lin rodri
Nys kelaf honnaf hon yw beli hir
Ny chelir nae wir nae wrhydri
Am bob treis ryduc ar bob tarw caduc
Ac ar bob ssaruc yr eu sorri
Argynnifer gwaed amdrychyon amdraed
Ac am pob paraed parawd losgi

Ae gwbyl weithredoet ar gel ar gyhoet
Ar gadarn gadoet dyryoet dorri
Can kymery duw difwyn ynni dyn
Kemer lywelyn lyw kydeithi
Archaf ytt arglwyt yr arglwyti
Y eryr keinwyr kymod a thi

ARWYREIN

A Gant Llywarch vab Llewelyn y Lewelyn vab Yorueerth.

Mi ath arwyre vt bre breinnyawc
Breisclew anael hael o hil madawc
Arwr yn arueu aeruetawc deyrn
Eryr ar gedyrn eurged uarchawc
Llywelyn llary rwyf rwym kyuryawc
Lluyteu beri ri rutuoawg
Llyw kymry deruyn diryawc y harglwyt
Llwyr diruawr dygwyt y digassawc
Ry darueit aeruleit eurulaen rodawc
Aruogyon dragon dreic llys eurawc
Ry arueityaf naf nerthawc dygyrchu
Yn rwyuan teulu rwyf teuluawc
Am prydest dyllest ar dull donnyawc
Prydu nyd anoeth y gyuoethawc
Prydyt wyf ym rwyf rywawc lywelyn
Hil meruyn hytyn hytueirch gwiscawc
Teyrnuab ioruerth berth byddinawc
Uab Owein uur prein preitrwyf enwawc
Goreu wyd gorwyd am geiryawc dyffrynt
Gwrawl hawl hwysgynt pellynt pwyllawc
Mynneist gyfaruod yn gyuaruawc
A gwenwynwyn rynn rwyf lluossawc
Gyueillyeist ual drud gyueillyawc yth law
Gauaellus dreic fraw freic kymynawc
Y deheu neud teu ual teithyawc
Urehenin gwrt drin gwyr dreul uodawc
Keueist eluyden alaawc ynyal
Oth gleu gledyual goed gleuyuawc
Dy uart wyf dy uut ys anghutyawc
Dy ueirt ynt heirtyon vt mon mynawc
Dy uyrtoet kyhoet kyhoetawc beunoeth
Dy gertawr byt goeth doeth dauodyawc
Dy gert dy ganaf naf niuerawc
Dy gynny gyn dygwyt arwyt eurawc
Dy gy———ny bu bolchawc dy daryan
Dy gynnif nyd man nyd mal diawc
Dy gynnetyf dyuod yn oruodawc
Am benn gy gynnygyn kynnwryf gwythawc
A gwasgaru clwyf a gwascarawt clod
A gwisgoet arot yn uyd uodawc
Ac eur ac aryant wrth chwant chwannawc
A meirch mei meingrwn dwnn a dossawc
A lluoet ygnif a lluoetawc uaes
A lliaws dilaes aes asgethrawc
A ragod penn clod claer ysgwydawc
Escudwan garthan is garthynnawc
Gwaed am draed o drin a gwaedlid lain
A gwaedlauyn aduutyawc
A gwaedlwrw gwyr aerfwrw aruawc
A gwaedlenn am penn ym peithawc
A gwaed a bwyd brein
A bran ar gelein
A galon aduutyawc
A golo ker man ro meinnyawc
Gelynyon saeson sidanawc
A geloreu creu
A gwan a gwaedfreu
A gwaedffrwd redecawc
Am uochnant kein amgant coedawc
Am uechein yn uochdwyreawc
Am eiluann urychan urecheinyawc heuyd
Bu hiruryn berchennawc
Rac uy llyw yn llu diofnawc
Amherawdyr llywyawdyr llurygawc
Llywelyn llary rwyf rywonyawc
Berchen—barch wledic hiraethawc
Ath uolaf uilwr pedrydawc
Ath uolant pymtheccant caderyawc
Ryth uawl ar yssyt estronyawc
Nath orsseif na moel na myghawc
Boed dy wir ar dir tormennawc dyet
Can mlynet yn het yn hytolawc
Can dewis uuchet rinwet rannawc
Yn rann yth barthred rwyf ced cadrawc
Caffael trugaret trugarawc arglwyt
Trugar duw hylwyt rwyt rinwetawc

CANU

A Gant Llywarch Brydyt y Moch y Duw.[1]

Deng grat benn berchen barth briodawr
Deng grat dy wennwlad mor uad mor vawr
Duw dewrwir pellir pwyllawr on kynnhen
Dilen o bressen ban yn bryssyawr
Deu edryt yssyt a synnhwyryawr
Deu erbyn agheu agychwiawr
Doethwlad nef adef adaf wychawr seil
Vffern yw yr eil dur eil dyrawr
Ofer difuner llyther lleawr
O fyt achrefyt yt achrettawr
O fyryf yoli tri o draethawd berffeith
O egwydet yeith o egwytawr
Berthideu rieu ry wasgarawr
Ny mad borthes mam mab nyw ditawr
Porthid donnyeu byd dynyawl ogawr
Nenn: dynyaton berchen benn bob euawr
Parthwys rwyf radlawn dawn diburawr
Porth ym gwawd tauawd dy garcharawr

[1] Cynddelw ai k. ait.—Ll. C.

Berth gyuoeth llwyrddoeth llewychawt beunyt
Am elyf vedyt am eluyt glawr
Gwedy golo dyt o dywyllawr
Gwedy golwc vrad goleuad gwawr
Gwrth yoli keli kyn neithyawr daear
Gwyl drugar dy gar uo dy gertawr
Kyd gwypwyf hetiw hawtuod vch llawr
Ny wnn yr hynny a wyf henawr
Gwyr ren an reid ryt yolawr heb daw
Rac yn periglaw heb periglawr
Gwytam yn gorllwc gwr llwyrddrwc llawr
Gwr hydyrueu agheu yg ghyghellawr
Kygholli mawr duw mor ddybryd y neb
Kyghall nwy goheb oe gynuebyd
Kyntorawr yssyt ys ef an cryd
Kyghallen ddilenn orfen orfryd
Kygeuddon a daw o diofryd crist
Kygafawc kyfyrdrist kyfyrdost benyd
Cam yw y dyn difanw y uryd
Kygreif diawl kygwl kywyd
Kyghaws a uyt traws a uet tristyd meith
Kyfreith dioleith kyn lleith lleduryd
Kywirdoeth rwy gwel brad annel bryd
Kyfyrdwyth kyfarfyrdwyth prifwyth prifwyd
Kyuaruaeth amaeth am aruetyd twyll
Kyurancgeu gymhwyll am pwyll ym pyd
Kyuyrgnawd ym keudawd deuawd heuyd
Kyfredec a chwec chwerw hir ennyd
Kyfreid oet ym pleid oet ym plegyd uod
Kyfragod dyuod tu uy gweryd
Yn llwrw llwyth eluyt douyt an dyd
Yn llawr lliwed kawt anglawt anglyd
Yn llwyr yt yd gwyt hyd yg gweryd llawr
Yn llwrw vn kyfawr yt yn kyuyd
O areu angheu aereu ergryd
O oeruet poenwet pawb y uywyd
O arwar daear down y gyd dytbrawd
O arwein pechawt lleitawd lleduryd
Ny rygar trugar tra syberwyd
Ny ry daw anaw oe anwylyd
Ny rygotwyf rwyf rym gweryd o dygyn
Nyd rwyt wy gynnygyn gyndiebryd
Ny rygollwyf duw o dewret byd
Ny ry golles nef ny uo ynuyd
Enuydrwyt awyt ewyc lafur twnn
Anvedyr y carwn pwnn pennyadur
Heb synnyeid yn reid rwyt achlyssur
A heb wybod bod byd mor ampur
Ry bu erthyst yn rybu arthur gynt
Rybu amgyfrawd gwynt gwan tra messur
Rybu ull kessar keissyassei flur
Y gan vt prydein prid y hesgur
Rybu vran ab llyr llu rwym adur mad
Yg kamp yg kywlad yg cad yg cur
Rybu ercwlff mawr rwysc dyrawr dvr
Ryuyc angertawl gretfawl greitur
Rybu gamwete vc madawc modur faw
Rybut uu itaw dylaw dolur
Bu alexander byd lywadur
Hyd sygnoet neuoet ny bu segur
Pan ny wyl pobloet pawb yn tostur pla
Pob tra yn diua ac yn difur
Pob naf oe niuer pob ner pob nur
Pob nenn ym pressen yn am pryssur
Gwrthod rwyf hollaul holl ysgrythur ueith
Gwrthwyneb a weith yw y wneuthur
Gwrth awyt dragwyt dra gwylyadur
Gwarchedit eluyt dy byt disbur
Gwertheuin vrenhin vreisc bennyadur byd
Gwrthlated om bryd pyd pechadur
Gorthywys nefoet ny uet eglur
Gwrthyf ny bo trist crist creadur
Creaduryeu nef nawt dialaeth seint
Kyrreiuyeint gymeint gymedrolaeth
Caret ym ynni nyd mi ae maeth
Caru a mynnu vym mabolaeth
Caraf y olaf dri drwy drudanaeth ked
Canred omgwared yr awch gwrdaaeth
Can ryt duw douyt dawn ehelaeth
Can ran rad geleu dewr frwythav fraeth
Can klyw can kennhyw kymhwyllwryaeth
Kein llywyawdyr creawdyr credwn ry wnaeth
Kant kadwent pressent presswylyaeth an hydyr
Canys breu mal gwydyr hydyr hudolyaeth
Yr teir person byd bid ych aruaeth
Yr tri yn yawnwir yawn wrogaeth
Yr vn duw vn dyn na uid hydraeth brad
Yr mab rad yr tad tec hynafyaeth
Can duc pymwan Crist pym oes o gaeth
O yg o gyuyg gymodogaeth
O angor tewdor tud alaeth gymhwyll
O dwyll o dywyll dywyssogaeth
Yndyndid ym pryd ym bru ban aeth
Yn dolvr yg cur yg corffolaeth
Kynytwys mawr wr mawr vreuolaeth
Gnif—yn kynnif y brif briodoryaeth
Kynytwn vinheu heb sswysseu saeth
Kan an duw ury ureenhinyaeth
Breenhinhet benn ban yth aned hael
Bro oet ysgauel ys gofuned
Breenhin pob fin pob faw dyghed
Braw cwydam ygyd yg cryd agred
Yn vffern gethern gaeth drefred erwan
Yn affan poethuann peithyawc drwyted
Yn daffar taeruar tan amgyffred
Yn arfuruyt lle ny llwyt kerted
Yny yt aeth cain can y weithred cam
Yg gyweithas nam nym bo vyned
Gwtam pob anwar daear dyred
Gotef grwn ysgwn anysgoged
Gotefwn gwylwn gwalaed arnan
Gwyth gyman yn llann yn llwyr gywed
A mi am awyt yn geheued
Yn afrifaw duw yn efrifed

Archaf danc kyn tranc trwy eiryoled meir
Hyd nam gwnel kellweir coll aghyffred
Kyn dylaw gychwyn tytyn tytwed
Kan dalu y duw y dylyed
Kan lleng egylyon kein lliwed obeith
Kyn lleith rac kyfeith kyweithaed
Kaffwyf o yoli crist keli ked
Kaffael yn adef nau nef noted

Amen.

ENGLYNION

A Gant Prydyt y Moch i Lywelyn Mab Iorwerth.

Cyfarchaf i Dduw oi ddawn hunaidd
Hunaw ym gogawn
Arwr arwrwas cas crawn
Eryr mawrwyr merfyniawn
Merfyniawn lleisiawn lles arwar cerddau
Cyhyrddws am un car
Pendragon berion bar
Pum wregys dewrfrys daiar
Dy orwyf hael rwyf hwyl reuedd prydain
Hil pryd fawr teyrnedd
Llew torf llyw terfyn Gwynedd
Llywarch Llywelyn ai medd
Meddfaeth dialaeth diwyl hydd ab cad
Cadr ddragon gyfundab
Gwr fab Madawg gwrddfeirch arab
Gwrhyd pyrr byrr y bu fab
Mabolaeth fy rhwyf yw rhywoli cad
Cedwyr tud Feli
Ar bob terwyn torf am ri
Ac ar bob terfyn torri
Mab ddysg yw i'm llyw llu rif ser i'w
Oe galchdoed nifer [gylch
Tarf cynnygn can yd weler
Torri heb noddi heb ner
Mamynogi draig drud yw ei gymmwyll
I gymmell y wendud
Lleith breisgwyr llith brain a chud
Lladd Ryfu a channu golud
Mebyd rwyf gwrhyd rhwydd fu ei gynnif
Ny[1] gynnygn bu tramgwydd
Pen dragon draig yn ddengmlwydd
Pobl dwr neud gwr yn eu gwydd
Gwrhyd ri Addaf gwrhyd ferth bieu
Buddugawl fab Iorferth
Draig Brydain ei bryd ai nerth
Ai ddyall guall gannerth
Cynnorthwy dragon draig hirlwys filwr
Ath filwyr na phowys
Car cyrdd cerdda pob diffwys
Cant cynnygn yn ddygn ddwys
Dessyf llu elyf llew teyrnas wyd
Ny odyn neb dy gas
Bar llychwr gwr yn oed gwas
Beirdd byd yth gyd ry gafas
Cefaist Lywelyn olywiaw gwendorf
Gwynn deyrn Aberffraw
Cadarn gad drwsiad dreisiaw
Ced byd yth lewyd oth law
Llwyddid yt gymry llywarch

[1] *Neu*, Yw.

CANUAU DAVYDD BENVRAS.

AWDL

A Gant Dafydd Benfras i Lewelyn fab Iorwerth.

Gwr a wnaeth llewych o'r gorllewin
Haul a lloer addoer addef iessin
Am gwnel radd uchel rwyf cyfychwin
Cyflawn awen awydd fyrddin
I ganu moliant mal Aneirin gynt
Dydd y cant Ododin
I foli gwyndawd gwyndyd werin
Gwynedd bendefig ffynnedig ffin
Gwanas deyrnas deg cywrenhin
Gwreidd teyrneidd taer ym mrwydrin
Gwrawl ei fflamdo am fro freiddin
Er pan oreu Duw dyn gyssefin
Ni wnaeth ei gystal traws arial trin
Gorug Llywelyn orllin—teyrnedd
Ar y brenhinedd braw a gorddin
Pan fu'n ymbrofi a brenhin Lloegr
Yn llygru swydd erbin
Oedd breisg weisg ei fyddin
Oedd brwysg rwysg rhac y godorin
Oedd balch gwalch golchiad ei lain
Oedd beilch gweilch gweled ei werin
Oedd clywed cleddyfau finfin
Oedd clybod clwyf ym mhob elin
Oedd briw rhiw yn nhrabludd oi drin
Oedd braw saw saeson clawdd y Cnwckin
Oedd bwlch llafn yn llaw gynnefin
Oedd gwaedlyd pennau gwedy gwaedlin
Rhyw—yn rhedeg am ddeulin
Llywelyn ein llyw cyffredin
Llywiawdr berth hyd borth ysgewin
Ny ryfu gystal Gwstennin ac ef

I gyfeir pob gorllin
Mi i'm byw be byddwn dewin
Ym marddair mawrddawn gyssefin
Adrawdd ei ddaed aerdrin ni allwn
Ni allai Dalicssin
Cyn adaw y byd gyd gyfrin
Gan hoedl hir ar dir daierin
Cyn dyfynfedd ysgyrnwedd ysgrin
Yn daer dyfnlas ar lessin
Gwr a wnaeth or dwfr y gwin
Gan fodd Duw a diwedd gwirin
Nog a wnaethbwyd treis anwyd trin
Ym mhresent ym mhryssur orllin
Ni warthaer hael am werthefin nos
A nawdd saint boed cyfrin

TERFYN.

I LYWELYN.

HANBYCH well o Dduw eddewy
Eddewid ddilid a ddeley
Hanbwyf o honawd am wawd wedy
Hanbwyll dygymmwyll a gymery
Llyw Prydain prydydd ath ddeffry
Llywelyn llwyddid yt hynny
Mawr ith orug Duw dad Arglwydd fry
Myfyr yw mae mwyfwy fyddy
Dy faint herwydd braint ti a brofy
Dy fantawl nid hawl nid hawdd hynny
Dy far ys anwar y gossody
Dy uer a gwyner fal y gweny
Dy fudd ni oludd er a wely
Dy fedd ath refedd a ddoeth renny
Difuddiawg farchawg feirch ystry
Dy faddeu nid teu teg y rhoddi
Dy feddiant nid chwant a chwennychy
Dy feddwl nid cwl canys cely
Dy fod falch y rod ry feddyly
Dy fod herwydd clod mal y clywy
Dy fyddedd cyhoedd ti ai cely[1]
Dy fryd wrth dy fryd frenhin Cymry
Erwan yw ynni o mynny
Aerwalch balch balchu fyngwely
Arwar udd Kessar a'm ceissy am bwyth
Ys da beth ym ceffy
Traul caeroedd ciriega ymy
Trefad fy hendad ai hundy
Trais arnaf fy naf ni edy
Tros y gerdd a gannwyf cytty
Y mawr udd rhwyddfawr om rhoddy
Nid mwy no deg erw os a ddygy
Cymer a fynnych Cymry bendefig
Arbennig wledig i wladychy
Difanw son saeson sef a gery
Difwyniant fyddaf o'm difenwy

[1] *Neu*, coely

Na dilyssa fi y felly fy naf
Nid ef yt lessaf o'm dilyssy
A ganwyf dy geiniaid ai cny
A genais a genir wedy
Aerddryd tud or tu pan geffy
Erddrwg ys teilwg os tely
Ystyria wrthyf wrth om colly
Ystawd fy nullwawd nam hennilly
Ystyriws dews dawn ytty er gaint
Ystyr saint dy fraint frenhin Cymry
Can gwnaf dy foliant fal y heddy
O gwnai iawn om dawn nim diawy
O wythlonder ner nerth a gedwy
O eithaf pob caer taer y torry
Neu ry orwyd hael ydd hwyly
Ni ryorug Duw dyn fal tydy
A ddaroganer a gymmery
O bob darogan dawn a geffy
A ddarogenais a gynnyddy
A ddaroganwyf a gynhely
Wyt ddaroganawr gan a wely

TERFYN.

AWDL I DDUW AC I LYWELYN FAB IORWERTH.

DAFYDD BENFRAS AI CANT.

MAB Duw dylyaf dy bwyllaw
Mawr gwerthfawr gwerthyf gwrandaw
Mor iawn yw ydawn am daw ygennyd
Mwynair o'm plegyd heb plyg arnaw
Mur modur llywiawdur rhag llaw ymae
I'm meddwl dy geisiaw
Mor ddiriaid i ddyn eiddunaw oi gnawd
Er dygnawd bechawd na'i rybychaw
Mor deg y gelly di gall arwyddaw
Merwerydd echwydd ac ucherddaw
Mawrfryd gan ddyn byd er bod iddaw
Dda—na mawrair draha nid rhaid wrthaw
Mab Duw ai dyrydd yn eiddaw
A mab Duw ai dwg y ganthaw
A mab Duw ddyddbrawd a ddaw iw brofi
Beth fo ei ynni am ei anaw
Ni bydd a mab Duw diamadaw
Afo mynws byd yn ei bydiaw
Mab Duw dewiseis dewissaw a wnaf
Ef dewisaf naf nawdd y ganthaw
Diddestl oedd eu lle llu wrth sylliaw
Dydd y cymmerth Crist grog yn eiddaw
Yngwaelawd uffern affleu fraw einioes
Ydd oedd bedeiroes yn ymdaraw
A llu o bryfed yn eu briwaw
A llid llid boethfan dân yn eu deifiaw
A llys afraid gwrys na gwryfiaw oi plaid
A lliaws enaid yn direidiaw
A llwyr dywyllwg wrth odrigaw

A lleng gythreuliaid yn ei threiliaw
A llawer bwysti heb ystyriaw ced
A llawer sched trwydded trwyddaw
A lluoedd pobloedd pawb yn athaw
A llewod a rhod yn eu rhwydaw
A lle ydd oedd druan drwy adaw Cain
I werin wirin ei warandaw
Pan ddyfu y mab rhad oedd raid wrthaw
Er porth yn dannorth a dawn arnaw
I Uffern bydwern heb adaw ychwaith
Yn un boregwaith i'w hanrheithiaw
Achos pumoes byd ybu iddaw
Uchelwr mirain bêr drain drwyddaw
Ucheldad fab rhad rhac rhwydaw ei hawl
Gwae ni fo deddfawl y dydd a ddaw
Mihangel pan dêl i dalu drostaw
Yn erbyn cythraul cythrudd syniaw
Ac ymliw ac ef am ryluniaw gau
Ac angen dieu dyfod iddaw
Pam na char mab dyn Duw ai geisiaw
Pam na chynnyc ef nef yn eiddaw
O dda ni wyrtha wrthaw ny aned
Y gwr gogoned gweled gwyliaw
Gwr ni gaffad namyn dim arnaw
Gwr ni cheffir ffordd i ffo rhagddaw
Gwedi y gwr uchod uchaf llaw diau
Ar eil gwr goreu meu ymadaw
Llywelyn urddyn urddas iddaw
Llew gwaywdwn ysgwn ysgwyd gydiaw[1]
Gnawd fod cyfranc rhwydd rhagddaw pan brofed
Ai glywed ar lled hyd yn llydaw
Gnawd fod ongar gwyr wedy gwyraw[2]
A chledd gwawr Gwynedd a gwaed arnaw
Gnawd uthr fod rhuthr yrhyngthaw ai
Esgar—a gnawd fod gwyar o'r ymdaraw
Gnawd yw o'i elyn hylithr wylaw
A gnawd fod tafawd diwyd iddaw
Gnawd ysgafael hael yn hwyliaw oi du
Rhac ei llu i Loegr andaw
Gnawd Ffrangc rhag ffwyrdrangc a ffo
Arnaw—a pheleidr rheieidr wedi rhudaw
Gnawd Sais nis cwynais yn cwynaw oi ben
A gnawd o dduch Tren trin ymwriaw
Gnawd cleddyf gilyd yn ymgiliaw
Cuall ac arall yn ymguraw
Ac ar llwyth oswydd gnawd lleithiaw
Cigfrain—a chaer dew firain yn difuriaw
Gnawd gwayw ae arwydd gwedy gwyraw
A gwr yn gorfod a chlod iddaw
Gnawd seithgad o eingl yn syrthiaw ergyr
Ac eryr rhyswyr heb eu rhusiaw
Gnawd fod ysgwyd frwyd friwdoll arnaw
Ac unbyn dengyn dengwlad iddaw
A digawn o ddawn i eiddunaw rhen
A dygen llawen yn eu llywiaw
Llywelyn neud llew cywaethlaw
Llyw anaw llawenydd dreuliaw

[1] Geidiaw.—Ll. C. [2] Gwywaw.—Ll. C.

Ystyriawl ei hawl i hwyliaw yngryd
Ys digrif i'r bod y danaw
Ystyriws dews y dawn iddaw
Ystyried tad llwyrged rhagllaw
Dyn yn fyw ni fedd i dreisiaw Duw fry
Am frenhin Aberffraw

MARWNAD I LYWELYN FAB IORWERTH.

Dafydd Benfras ai Cant.

Meu foli Crist celi culwydd
Mawr foliant didrawd didramgwydd
Maith i'm gwnaeth alaeth ac arwydd
Arnaf—mi rydynnaf dan ei aflwydd
Mor draws fu Iesu am aes digwydd
Mor dreisiwr hagen am ren rhadlwydd
Mor drist yw ein byw bod glaflwydd derfyn
Ar rudd Llywelyn llaw gyfanrwydd
Mawrbeir cynniweir cynnif hylwydd
Mawr benn Cymru wenn ai chymmhenrhwydd
Mawr barch gogyfarch gogyfrwydd or hyd
Mae ysbyd y byd yn enbydrwydd
Cam y gorug Duw o dybygrwydd
Cyn bu drwch na bu drwchanmlwydd
Cymyrres angeu an ingrwydd attaw
A dygynt o'i law liawsogrwydd
Llywelyn haelddyn hwylddawn awydd
Llywiawdr gwynfydig gwledig gwladlwydd
Lladdawdd Duw arnam am ddwyn lleurwydd frwyd
Llawn rywydd ysgwyd ar ei ysgwydd
Llywelyn aer llyw taer am y teirswydd
Llwyddai a llithrai o'i helaethrwydd
Lleigiad fryd yn rhyd yn rhodwydd ongyr
Och awyr am wyr diwaradwydd
Och fawr a fwrir o ddirfyngrwydd
Och faith heb ychwaith o'i obeithrwydd
Och am naf am nêr diwydrwydd
Och am nêr muner mynogrwydd
Och ddygyn a ddognes goleurwydd
Och de am ddewrddrud ehangrwydd
Och nos o arhos yr arwydd
Och ddydd a ddoddyw o'i dramgwydd
Och Ddofydd ddifa gwreiddrwydd
Och Dduw o ddyfod i'n arglwydd
Wedi achadw cad fragad friwgwydd
Wedi echwng teg heb attregrwydd
Wedi addaf teg ar gartrefrwydd
Wedi tynnu Lloegr iw llawn archwydd
Wedi na wnaeth Duw diddanrwydd ym
Wyd—ni gaffei llew gryd greidiaw awyd
Gwedi llawer gwr a gorwydd iddaw
A ddeuynt attaw wrth ei awydd
Ni ri cedwesti cad wastadrwydd

Ni raid a warawd wyr yn hywydd
Rhydd fydd a ganwyf i'm rhwyf boed rhwydd
Rhan o deg addef nef yn ebrwydd
Ebrwyddws dews dawn ym plegyd gwr Gorehang ei wrhyd
Ebrwyddynt ebrwyddweilch o'i gyd
Ebrwyddwalch ceiufalch cymryd
Braw yw ynn deon diofryd ein llyw
Braidd yw yn ein byw ynghynnen byd
Wedi brys haelder muner menwyd
Mwyniant llu tra fu yn ei fywyd
Mai yw am doddyw yn anhyfryd wyf
Am fyned fy rhwyf yn rhwym gweryd
Golo hael galar yw y dedfryd
Goludd ei achludd gwayw rhudd yn rhyd
Goleu y dug Duw ein diebryd fry
Am freenhen Cymry cymrwyn ergyd
Gwir yw marw gwr garw am gaer eluglyd
Goreu oedd ynn ein marw i gyd
Gorofn y sy arnaf hyd nam gweryd dyn
Wedi Llywelyn llywiawdr gwyndyd
Gwarafun ni wnaf yn nydd creulyd
Gwrawl oedd ei hawl wrth ei hwylfryd
Gwaredid keli celfyddyd oleu
I wrth ei afflew poenau penyd
Cenais wawd ufydd-dawd yn ei fywyd
I'm arglwydd gwladlwydd gwladoedd oglyd
Canaf im arglwydd cof enbyd ys man
Rym gorug angeu dristyd
Am dreisddwyn terwyn tyrfa espyd
Am drosedd gwynedd a'i harfeddyd
Am drawsgar gwanar gwenwynfryd Prydain
Am drawswyr Owain drais syberwyd
Am drueni mawr dwyn gwawr gwyndyd
Ymdro rhiallu fu o'i febyd
Am drengi fy rhi rhwy ledfryd am bydd
Ni edych Dofydd ef y gennyd
Am drais Duw nid oes dinn gyhyd
Am drais dyn dinam gedernyd
Am dreiaw anaw anwylyd llawer
Am dramawr bryder ac ni weryd
Am drwm feddwl cost eurbost aer byd
Am drin wychydd rydd ruddlafn creulyd
Am dylwyth hydwyth yr hyd y buant
Amgylch gwawr dygant yn deg hyfryd
Ei deulu a delynt yngryd
Delweu aur ar cyfeuryd
Ei wyrda oedd dda oedd ddiwid pob un
Oedd anhawdd iddun ei ddiofryd
Ei weision o'i wasanaeth gyd
Ei feirdd byddyn heirdd byddyn harddglyd
Ei fyrddoedd cyhoedd cawsynt edgyllaeth
Am ei freuolaeth hiraeth hyd
I'm rhei y harchaf arch o'm plegyd
I'm rhiau gorau gwr i'm ennyd
I'm rhwyf y rodded rhan fawr o'r byd
Ef rhoddai i Dduw ei ddihewyd
Ys rhoddo fy rhen rhan yspryd addef
Ei ran o wlad nef iddaw hefyd

TERFYN.

MARWNAD RUFFUDD FAB LLYWELYN.

DAFYDD BENFRAS A'I CANT.

GWAE ni hael mor wael mor woleu
Weled yn nesad ein eisiau
Gwelsam ni gynt ai wynt yn oreu
Gweilch Cymru yn cymryd arfeu
Yn Lloeger yn llosgi ei thyrau
Ai gwelai eiliai yn oleu
Ai gweles gwelynt ryfeddau
Gwelsam ni wawr maelawr megys ynteu
Mygr fadawc wayw roddawc ruddgreu
Gwelsam ni faelgwn fawr fur cadeu
Cadr fab Rhys yn rhos ai ffagleu
Gwelsam ni Owein prain prudd ei ddoniau
Doniawg fab Gruffudd beirfudd bareu
Gwelsam ni fab Hywel yn rhyfelau
Cynan y gelwid cwyn a'n goddau
Gwelsam Rys falchgryg ryfyg reithleu
Yn rhuthr aruthr ar y dehau
Gwelsam Rys fychan darian daerglau
Ym mhyrth Caerfyrddin ai fyddinau
Gwelsam wyr dinam yn ddiamheu
Gwael yw nad ynt fyw neud ynt feddeu
Gwaent hwy ar a wnaeth eu pennaethau
Am Ruffudd gwewrudd gwae finnau
Am riff ner lluch hyder llachau
Am rym llym y lleinn fy nagrau
Am nwyf y darwyf ai neud areu
Amlwg yw custudd ar fy ngruddiau
Aml i'm gwnaeth hiraeth hir anadleu
Am leith gwr dewr dur ei lafnau
Am lew glew o'm glud feddyliau
Am lyw glyw glod hyd Fynnau
Bu gelyn dychryn o'r dechrau
Byth yn lladd Llundain ai thyrau
Bu erwan yr awr y cigleu
Bu oer ym aros y chwedlau
Na bum farw o fawr bryderau
Ac yn farw fy arglwydd diheu
Na dyn oni'm dug anghofiau
Am Ruffudd ni'm dyhudd nau dau
Gwael yw colli hael o hil eneu
Gwag yw byd bod yn ei faddeu
Gwirfab Duw gan dug ben rhiau
Gwae fi i'm poeni rhac pum edau
Ucher rhac pryder pryd i'm goddeu
Achaws gwalch mawrfalch mur cynnedfau
Uchel y dodaf am naf nid mau
Wych ragor och rhagod ti angau

Cyn y gwedd ini oedd goreu
Gwedi gwawr Cymru cymryd croesau
Cymmerwn iolwn o iawl seiniau
A syniwn ar beth o'r pregethau
Am ei ddwyn terwyn torf amrhyffleu
Ymddifaid y'm rai genau nid gau
Rhy draws fuam gynt hynt hir ddiau
Rhy drist i'n gwnaeth Crist creaduriau
Gwr a wnaeth yn llawn llenwi cibau
O'r dwfr deierin yn win gwineu
A wnel gorphowys rhag pwys poenau
I Ruffudd rwyddfudd yn ei raddau
Gwr an pryn prynhawn ddifiau
Gwir iddal o ddylaw affleu
Gorug dduw gwener rhwydd-der rhadau
Goddef pum harcholl o archollau
Gwedi llarydad Duw deg cyfreithiau
Llofrudd fab Gruffudd draul budd dreigiau
Llwrw y gwn gwenwawd bryddestau
Llary rwyf a ganwyf a'm geneu
Llew buwyf Llywelyn biau
Llyw Gwynedd diwedd a dechreu
Dechreuws dews hyd na'm dyhudd dim
Damwyniaw ym gythrudd
Dychryn mawr bod llawr ar llofrudd
Llyw meidrawl llew greddfawl Gruffudd
Mab meithyn Llywelyn llafnrudd
Mawr gwriawr gorwyr Maredudd
Traws gyngaws gyngor diachludd
Trais gymmell tri nawwell no Nud
Gwna arnaf hiraeth hir gystudd
Gwaith Saeson llid ruddion lledrudd
Gweryd ni'm ergyd ai mawrgudd
Gwae gwelsym cer mawrfryn morudd
Gwr oedd wr oedd orfawr ei fudd
Gwyr oedd wyr oedd orddyfn ganthudd
Gwyth oedd lwyth oi laith ni atgudd
Gwaith oedd saith ymy y oludd
Gwawr oedd fawr ei far yn ddyfn brudd
Gwas oedd gas ei geisiaw dan gudd
Gwalch oedd falch ei falchlafn uch grudd
Gweilch oedd feilch am ei falch ddeurudd
Gwn o ddwyn terrwyn torf angludd
Gwan anrheg anrhaith heb rybudd
Gwanar gar trimudfar trymrudd
Gwenwyn gwyn gennyf nid ymgudd
Gwyn eurdir ardwy dadanhudd
Gwr eurdwr ardwyad trabludd
Gwawr gwyndyd gwander ei orchudd
Gwyn Gwynedd gwae ni am Ruffudd
Gruffudd aur digudd ef dygnaf i gwyn
O genedl plant Addaf
Griff ner o'm pryder y prydaf
Prif farwnad ir mab tad teccaf
Greddf Echdor gwawr eurdorf gwraf
Graid synniaid synniais ei alaf
Grymus can gweled ei dy gwelaf
Gradd berchen ei barch am danaf
Hiraith y sy i'm dwyn am a gwynaf
Hir yd goffeir a goffaaf
Mor lle ym alar am a garaf
Mor llwyr y lladdawdd Llundain arnaf
Mor llwyr car am a garaf
Cyd a dragon byd o byddaf
Trugar hael pa hwyl a ddygaf
Am ddwyn draig dragor nas gwelaf
Drwg fab Duw y daethost attaf
Crist a wyr yn llwrw a ganaf
Na wn am fy rhwyf cwddwyf cuddaf
O mynnwch chwerddwch mi ni chwarddaf
Can mynnwn fy marw ni mawr wdaf
Cud ymguddioch chwi oll mi ni allaf
Ymguddiaw dan llaw ban fo lleiaf
Cyd ymguddio pawb beth a gelaf
Am farwnad Ruffudd nid ymguddiaf
Nid a eill cadarn yn cadw eithaf
A all gwan truan trist a allaf
O orchrawn deigr llawn a ollyngaf
O orchudd Gruffudd ail Nudd fy naf
O erchyll golled gall marw fyddaf
Ai Orchymmyn ef ar nef a wnaf. TERFYN.

DAFYDD BENFRAS AI CANT.

Ys gorwyn ewyn rhyn yn rhedeg
Ys gwrdd yn Ionawr mawr morgroeg
Ys gwae fi am iaith gwawdd faith gofeg
Yr goddau chweddlau imi a fai chweg
Ni wybum erioed medru Saesneg
Pan geisiais i eful o ennilleg
Cam oedd neud ydoedd yn wyndodeg
An rhoddwy fab Duw dawn arwaneg
Yn dwyn oc ei plith yn olithreg
Fy Chwaer glaer glodrydd ni'm bydd bywyd
Pan aeth mau hiraeth herwydd trymfryd
I glaer gaer Gybi fro rhi rhoddglyd
Llun difreg prifdeg yn ôl pryd gwennwawr
Llawer llef a gawr uch llawr lleuryd
Llawer och ym och aml ddihewyd
Llawer deigr uch grann ger glann glafryd
Llawer arraedd gwaedd nid gwyd ei chwynaw
A llafar wylaw llif oreilyd
Ni'm dawr o hoen gwawr yn hun gweryd
Is glasgor mynor manon ei phryd
Cwyn yw can deryw ni'm deiryd gortho
Canlliw aur gwenfro can ni bo byd
Porthwyd fy nyn llwyd mewn llawr anglyd
Porth iddi fo Mair ddiwair ddiwyd
Poen dof pefr eurgof ergyd galar chwerw
Rhoi yn rhwym irdderw lliw berw basryd
Pallawdd i'm ddisgwyl am hwyl hyfryd
Pwyll nid mau oi dwyn gwyn gymhlegyd
Pall arael ydoedd cyn pell wryd gro
Dan ruddglo maendo meindwrf cerddglyd
Gwedi lloer Gymry lliw eiry gymryd
Bod bun yn hun hir gwir na'm gweryd
Rhyfel diargel a ergyd ym yw
Rhyfedd gan a'm clyw fy myw fy myd
Er dy goron ddrain gain gedernyd
Ath ddolur fab Mair uch crair creulyd
Erbyn gymmen wenn wynfyd enrhydedd
I'r wledd a'r fuchedd ddiafiechyd
Neud afiechyd bryd a bryderir
Neud wyf achul hoen poen am perchir
Neud afar galar ni rygelir
Neud ofer hyder am hoedl drahir
Ni'm doeth llewenydd eithr dydd dyhir
Am fun deg ei llun lliw nif gorthir
Neud trwm farw rhiain gain a gwynir
Neud trom anrhaith faith fyth nas gwelir
Teg oedd cyn diwedd daearfedd dir
Y tal dan aur mal am ael meinir
Lluniaidd a gweddaidd gwiwddyn llawhir
Oedd hoen blaen gwelwgaen gweilging saphir
Diwair oedd a doeth deddf goeth gywir
Hael o fewn urael yn euraw gwir
Trefnawdd hon arnawdd cawdd nyw cuddir

Troi'r iyrchell ymhell a gymhwyllir
Trafynidr tost gwingost gwengaer bapir
Trefnad oedd irad a ddidorir
Truan yw gweled trwydded trahir
Trefnadau angau angen ys dir
Lle bu cyn pallu pwyll a hoffir
Sirig a syndal mal y molir
Lle bu fflwch degwch deigr a wylir
A phorphor a rhudd neud grudd grodir
Rhyfedd yw o'm byw mewn byd enwir
Rhyfel dygn ar gam pam ym poenir
Ar ôl dirwyol ym dirwyir
A ddirfawr gerais gwenwyndrais gwir
Gwae ddig boenedig a benydir
Gwae angall fal dall a rydwyllir
Gwenhwyfar wylwar a elwir
I drugaredd Duw draw a gerir
A minnau hyd tra fwyf clwyf a'm clywir
Yn rhyfaddaw hon ni ryfeddir
Hithau hoen gwendon lon don am dir
Ei gloywdwf euraid a glodforir

Uchenaid fan
Gelain deir-ran
Galon dorri
Am wenhwyfar
Gwn drais galar
Gan draws guli
Am deg ei gwedd a haul wynedd a haelioni
Am ddiweirdeb am loerwyneb aml rieni
Bardd hardd hirddysg eurglyd addysg ar glod iddi
Bum i'w chanmawl fy nedwydd hawl f'enaid oedd hi
Gwae ef ym myd o fewn penyd a fai'n poeni
Yn ôl bun deg hoen morwaneg henw mawr weini
Mygr win-defeirn miloedd a feirn mal ydd wyf fi
Oedd grudd gwrel cain a thawel cyn n'oi thewi
Oedd ddrem deccaf cannaid adaf cyn noi dodi
Ym mhell ddyfn fedd i dreiaw gwedd o dra gweiddi
Nid oedd bwyllfas i ddihunwas ddoe ei henwi
Nid oedd anwiw fath em eiliw fyth ei moli
Nid oedd ryfedd a chlud fawredd ei chlod-fori
Och o'r gyfrange gweled oerdrange gwiliaw derdri
Och o'r golled am ail Luned em oleuni
Och o'r trymfryd a llwyr dristyd fod llawr drosti
Gwnaethost ath was fawr alanas Fair oleuni
Gwisgo riein is glaswe fain ys gloeswae fi
Gorchudd hoen blaen gorlliw gwelwgaen garllaw gweilgi
Gwaneg loywder gwynfrig aber gwenfro Gybi
Gwae a roddes ac ai colles bryd eiry celli
Arnai gariad o dro girad mau dra gewri
Mawr Dduw dwyfawl Mair ith eiriawl a'r merthyri
Er dy gystudd ath hir gythrudd ath ddur gethri
Arail bryd nyf aur eir-gleddyf ior arglwyddi
Dwg hon ith wlad ettonn oth rad wyt un a thri

TERFYN MARWNAD GWENHWYFAR.

GRUFFUDD AP MAREDUDD I FERCH.

O L. E. D.

Mau ddogn gur Arthur o orthir Prydain
I'r dyn prifdeg llawhir
Arwydd ei chlôd a eurir
Eiry hoen am ferch Arwy hir
Eiliaf o'm iaith gwaith gwenglod
I liw Geirw o loyw gariad
Oleune dyfr neu Luned
Elynes gwedd ail Enid
Rhoddais gariad gwad gwydn ym doeth hirglwyf
Ar ddyn hwyr glaer bwyll ddoeth
Olew boen alaw beunoeth
Ail fflur a dyf cur-dwf coeth
Cerais ddrem gwalch falch fanwyl
Myn saerym sant a Seirioel
Ynghaer deg Angharad ail
Liw eiry caen law eurawg hael
Rhyfeddawd ceudawd cadarn yw llifiant
I'm nwyfiant glwyfiant glyw
Gloywddrem riain arglwyddryw
Glud hud hun am fun ym fyw
O gariad eigr deg eirian
A chariad glwysferch Urien
Echwynawdd bardd ar harddlun
Uchenaid Uthr a Chynon
Hylithr nwyfiant i'w hawlwr
Haul y geilw hael ei gwyl war
O Bowys gyfoeth bowyr
A Gwynedd ni ogenir
Nid oes liw heddiw haeddaist gampau dyfr
Difai bwyll ddefodau
Cymryd a'r tawelbryd tau
Cymawd eigr came degau
Eigr eurfoes einioes anwyd diheurwydd
Dihareb a draethwyd
Na roddir ferch llawir lwyd
Gwlad i fud gloywdwf ydwyd

Megeist boen i'm hoen henw merch a'm dihun
Ieirll anhun eiry llannerch
Mau drennydd medru annerch
Madws oedd bum mud o serch
Lliw geirw rhyd o bryd a wnaeth brâd i'm gne
Gnawd serchawg ymlyniad
Lladd gŵr ydyw lleddf gariad
Lloer y glôd haul llawr ei gwlad
Ni chwsg drem hoen gem gyfwlch
Am wawr gain tŵr main mynfylch
Ni chaf hun am fun em falch
Ni chair y fun oi chaer folch
Trawsdaer serchawl fryd Trystan
Ar Esyllt-wedd a roeswn
Priawd olwg pryd Elen
Luddawg ferch loyw eiddun
Magawdd i'm hwyrnawdd hirnwyf dy gariad
Teg orhoen tonn am rwyf
Megaist ym boen hoen hunglwyf
Megais gwayw dan ais gwydn wyf
Hael ddidaer wenglaer haul winglawr Môn
Hoywliw manod Ionawr
Hun am lludd dewrnudd[1] dyrawr
Hoen ton ogledd wynedd wawr

TERFYN.

G. M. D. I FERCH.

O L. E. D.

Molaf gain riain o ryw arglwyddi
Arglwyddes fy hoedl yw
Mawr hirglod mil ai herglyw
Mau hoen a nwyf tra fwyf fyw
Ith foli fraisg waisg wandwf
A thywyn haul ni thawaf
Tra fo hoen ewyn llyn llif
Fy enaid yn fyw ynof
Ni wnaf cyd bwyf nwyf nawtal
Tewi a chlud dyn tawel
Ni maddau bryd na meddwl
Ganmawl gwawr wyth ugein mil
Molaf ferch falch ddoeth goeth gain
Tra fwynt i gyd traul bryd brwyn
Yr enaid uchenaid chwaen
I'r corph oer mewn cur a phoen
Aelaw anhun hun hir yw i'w gwanfardd
Aros gwenfun lawhir
O logawd serch serch feinir
Ail eigr dwf o Loegr dir
Teg om pwyll ofeg im pall afael hun
Oedd wenfun hoywlun hael
A gerais dan frig urael

Neu, dewruudd, *neu*, dourudd.

Ac aur mal uwch ei gwrmael
Gwelais a gerais yn rhagori pryd
O fewn prifdeg sentri
A phall syndal a phali
A phwyll oedd ei hirdwyll hi
Gwelais symud sud sidan ac awmael
Ac urael ac arian
Ac asur drwg a gusan
Ac aur mal am hoen geirw man
Gorhewg am dwg deg orfeddfa Gaw
Gywirferch ni phalla
Ail y cethin ni flina
Cyflym i'r llun grym llawn gra
Bryn Caw brwyn-hunaw brenhinaidd froydd
Ail rhuddfreon duthflaidd
Bryd aurwryd arwraidd
Bron dorf farch tref Llywarch traidd
Cyrcher bun wanllun wenllaw anrhydedd
Un rhediad carn aflaw
Brysg wyl er hoen braisg alaw
Brwysg rwysg rydain bryn cain Caw
Ceirch orddyfn archlyfn cyrch erchlas dossawg
Deisyf neidiaw fferlas
Car farwain carw main myngfras
Caer feinir glaer fynor glas
Mau drymglwyf am Wenhwyfar
Morwyn loyw mirain leufer
Mawrair am erddrym oror
Mwrog ddyledog loywdir
Wyr Iarddur wr gwayw-ddur gwych
Am gwnaeth gaeth gwyn frwyn fronllech
Ac wyr Ithel uchel ach
Gam o Degaingl gam degwch

Yna canlyn yn y Ll. C. Awdl i Dduw—ir pedwar angelystor—i Dduw. Awdl gyffes G. M. D. ueu Iolo Goch—a Dychanau G. M. D.

TERFYN.

ENGLYNION Y SUL.

Gruffudd ap Maredudd ai Cant.
O L. E. D.

Duw sul eurllyw byw bywiaid arwyrain
Oriain[1] gain gannaid
Uthr wedd[2] anrhydedd i'n rhaid
Yth aned benrhaith enaid

Duw sul rhad iaith fad ith fedyddiwyd
Mawliaith ior mal ith eurwyd
Mab y wyry fair o air wyd
Nef a daear broffwyd

[1] O riain.—Ll. P. P. [2] *Neu*, Uthrawedd.

Deu sul eur grair Mair mawredd y
Y daethost lyw Nasredd [doethion
Gwerthefin ddar trugaredd
Gwyrth fawr ior buddfawr o'r bedd

Disalw ner duwsul i nef
Deg eiddun y dug Addaf
O drais gwyn o draws gynnif
O dramgwydd Uffern drymgof

Duw sul un eiddun addef y creawdd
Creawdr rhad a thangnef
Ynglain[1] hydr ynglyn hoywdref
Ynglân[2] air engylion nef

Duw sul deg anrheg unrhin o gariad
Y gorug nef ddewin
Dwywawl wawl waisg fraisg frenin
Difurn waith y dwfr yn win

Duw sul arglwydd rhwydd rhoddiad dug
O deg fesur cariad [Voesen
O leas[3] raid o lwys rediad
A'i lu o'r Aifft o'i lwyr rad

Daeth manna Alpha eilffawd rhen o nef
Yn rhaid nifer Moesen
Duw sul duw gwir gorawen
Saint braint bryniawdr llywiawdr llen

Or pumtorth hawddborth heiddbal
O'r[4] ddeubysg ior oedd dibwl
Ryborthes meus deus duwsul
Rhadau heb ammau bummil

Duwsul goeth y doeth[5] daith wir adeilad
Gwedi dilyw dyhir
Fudd rhad gan gawad gywir
Fodd rheg falch noe deg i dir

Sar[6] nef a daear diagr briawd[7] ddawn
Dor eigiawn ffynawn ffawd
Dwys olwg ri tri trindawd
Duwsul y bydd brwydr ddyddbrawd

GRUFFUDD AP MAREDUDD AP DAFYDD.

I'R GROG O GAER. O L. E. D.

CARAF benrhaith cor arianwaith carai rinwedd
Crair gair a gad y drwy gariad y drugaredd
Crog calfaria faerdy gratia fawrdeg rysedd

[1] Ynglann.—Ll. P. P.
[2] Ylân.—Ll. P. P.
[3] O laes.—Ll. P. P.
[4] Ar.—Ll. P. P.
[5] Goeth doeth.—Ll. P. P.
[6] Dar.—Ll. P. P.
[7] Brawd.—Ll. P. P.

Creded unben hael forwyn wen hawl firain wedd
Cred bendefig lys wyrennig lwys wawr annedd
Cannaid wyrthiau canon radau cain anrhydedd
Cadair ffair ffydd cedawl ufydd ced alafedd
Cyflawn ddawn ddar i rwym galar ar ymgeledd
Coelfain Elen eurai Foesen ar ei fysedd
Celennig rad cadarn wenwlad cedyrn winwledd
Corf ardderchawg caer deg eurawg cor digaredd
Coron euraid cariad nwyaid ciried neuedd
Ceinllun teccaf brenin hynaf y brenhinedd
Coed berfeddnod cain ei fawrglod cun nef eurgledd
Cael ym grym grair rhad oi borthair rheidiau berthedd
Culwydd ener a dyng nifer oi dangnefedd
Colofn llu cred a ran wared or enwiredd
Coel engylion o lin fanon o lân fonedd
Dylan natur fawrdeg eglur fordwy gogledd
Delis arwain o ddwfr dwyrain i ddeifr diredd
Dyddug mordon ar ei ddwyfron arwy dyfredd
Dyfrdwy waedd greg arial gwaneg ar ael Gwynedd
Delw werthforaf a glodforaf a glud fawredd
Dadl ysprydawl or geiriau mawl i'r gwr an medd
Dor cor ceinmyg Duw yw'n rhyfyg dewin rheufedd
Dar eneidiau dilyd frodiau diledfrydedd
Dawn tlawd anoeth daear wiwgoeth diorwagedd
Dinam loywder diwair ener Duw'r wirion edd
Da yw ei borth a diamorth a diommedd
Delw fyw f'arglwydd eurlliw arwydd ior llaweredd
Dysg ffysg ffynniant a gwir foliant y gorfoledd
Deddf leddf loywddoeth euraid gyfoeth arod gyfedd
Doeth Gaerlleon deg anrhegion digynrygedd
Didrai foliant Duw da farant dioferedd
Didrist Grist groes organ hoedl-loes eur gynhadledd
Delw firein ryw er prynu'r byw or pren ar Dug morwaneg deg o du gauaf [bedd
Llys llawr lleon gawr llun gwawr gwympaf
Difai Ion erfai arfaf ei ganmawl
Delw fyw fab dwyfawl Duw nefawl naf
Diwarth drysor cor por perffeithiaf
Diwyd grair i Fair fawredd hoffaf
Dewin cain Iessin cyn isaf fedrawd

A Nudd ddiwyrnawd ei nawdd arnaf
Doeth dros frig tonniar car cadarnaf
Detholwalch balch byw llyw llawenaf
Dogn fedydd grefydd digrifaf dra nwy
Drwy fordwy Dyfrdwy deifrdir eithaf
Dwywawl hawl haelwawr a fawr folaf
Defawd wawd wiwder ffer ffurfeiddiaf
Dofydd lun ei hun henw goruchaf nen
Fab Mair wen ar bren brenhineiddiaf
Didwyll bwyll bellwawd ffawd ffyddlonaf
Dadiain cain cynnydd dydd diwaethaf
Didawl faith ei daith doethaf bendefig
Wyrennig feddig fudd iach a chlaf
Doddyw nod eurglod Ior gwlad bellaf
Lloegr llwyr i'n gweryd fyd fodrydaf
Duw Iesu arglwydd dewisaf gynagr
Dihagr eirw llinagr ar llun gwympaf
I ddelw unmab Mair ydd addolaf
O ddilys araith gwaith gwerthforaf
I ddal ynof cof cyfiawnaf dremyn
I ddylyn tyddyn llwyth plant Addaf
Eryr engyldorf hoywlorf haelaf
Ior didwyll o nef euraid adaf
Arddelw Moesen hen hynaf ei gynnydd
Urddas llin Dafydd gwydd gweddeiddiaf
Anfones canlles caen llanw breisgaf
Anrheg Lloegr fawrdeg fordwy gloywaf
Anrhaith a gobaith gwbl ffrwythlonaf Ior
Ys briw dylan mor ysprydolaf
Enwi ei farddlef Ion nef a wnaf
Enwant llythr deccant llathrediccaf
Enwawg ardderchawg archaf ei nodded
Rhodded trwy giried tri a garaf
Arwr arwydd mab Mair o air araf
Arwrawl cedawl cadair deccaf
Eryrod eurglod arglwydd pennaf yw
A llyw marw a byw rhyw rhadlonaf
Arwyrain croes Crist a oreuraf
Ac oror cor Caer glaer egluraf
Elen ai cafas alaf ysprydawl
Trydydd dydd deddfawl awr hawl or haf
Doeth delw fyw fy llyw llyryon prif obaith
Praff adeilad iaith proffwydolion
Dawn a phlaid gweiniaid uch gwynion foroedd
A ffriwdeg[1] lysoedd ffrydau gleision
Darogan dylan deil geirw gwelwon mor
I fyddinfawr gor fu ei ddanfon
Dug o gaeth alaeth faeth alon ofid
I bobl eu rhyddid beibl a rhoddion
Dehau rybudd mad diharebion mawl
A naf arwrawl nef eryron
Dor cor coeth cyfoeth dar cofion arllwybr
Gwawr yngoleu wybr gwir engylion
Gwerthfawr eurllorf torf tirion ei bleidiau
Da i eneiddiau dianudon
Gwared a roddai gwirion goludawg
A gwawr dyledawg ir gwir dlodion

[1]Phrifdeg.—Ll. C.

Cruplaid didwyllaid deillion cynhwynawl
Budd awr ammodawl byddair mudion
Clefyd anianawl cleifion difrawbwyll
Neu anfedydd bwyll o ynfydion
Gwyr berffeithiaw draw dragon gogoned
O euraw gwared i rai gwirion
Gwareddawg fynawg fanon brenhinbryd
Gwaisg urddas y byd ai gosgorddion
Gwynfyd oi febyd i feibion Addaf
Ai ddifai alaf i ddwyfolion
Gwymp arwyrain cain Canon berfeddnod
Ac awr araith glod y gorwyrion
Llyna anrheg dda ddeon ei gwyrthiau
O fyw allorau efyll aeron
O ryfawr goelfain ger afon Dyfrdwy
O lawen obrwy o lynn Ebron
O luchynt helynt holion dwyreinfor
Ac o lynn Tabor lan attebion
O awr geudawd ffrwyth o ergydion mad
I ddwyn addurn rhad i ddyniaddon
Llithraw'r waneg deg dogn arwyddion ffydd
Llywydd merwerydd llin mair wirion
Llathraid blaid enaid Ion y gogoniant
A deheu foliant diofalon
Llwybr berffeiddrwydd rhwydd rhoddion goludawg
Llydwawg gwareddawg llydw gweryddon
Llun llawnrad cariad ceyrydd côr dangnef
Ar fôr lluoedd nef o Gaerlleon
Dug mor cor cywir delw fyw llyw Llawhir
A nenn ni phlygir nawn na phlygain
I lys lwys farddlef i Leon wendref
Llun amerawdr nêf gan llanw mirain
Eryr pum weli traws hael tros heli
Eur fawredd geli ar fwrdd gwylain
Anrheg brifdeg brŷd i roi budd ir bŷd
I Fair y deiryd o fôr dwyrain
Credadun un yw creir Mair marw a byw
Croesdeg eurawg lyw Crist a garain
Ceidw rad ysgrythur cadarn bennadur
Creadur modur creawdr madiain
Cor iôr aurdrefnad cywraint wneuthuriad
Mawr uchel fab rad Mair ai choelfain
Cof gwaneg deg dist cofion diathrist
Cyfarawdd a Christ mewn cyfwyrain
Llathr grôg o fanaig llythr arawd ffawd ffaig
Lluryg arian ddraig lliw'r goron ddrain
Llyw byw buddygawl llawhir ysprydawl
Llawen arwrawl lleir arwyrain ‖hyfryd
Llwyddiant nerth berth byd llw gwir hir
Yn trosi iechyd rhac traws ochein
Lloer cor ior arab llwyr gyfarch parch pab
Llun ei oreu mab llawn aur a main
Doethineb Elen a'm gwnaeth gorawen
A hirwaith Moesen fu ei arwain
Dwywawl wawl wahawdd Dafydd a'i hurddawdd

Duw a'i goreurawdd deg arwyrain
Delw ysprydolaf dogn rad tad teccaf
Da wiail Addaf diwael oeddain
Dor cor por pefrlwys a doeth goeth gynnwys
O lys Baradwys i lwys Brydain
Rywnaeth saer glaer glod delw loyw hoyw hynod
Er didwyll orfod o ior dadiein
Rhadlawn ddawn a ddaeth ri tri trichyfoeth
I loywgaer gaer goeth o fro Loegr gain
Rhywogaeth cedrws rhwydd swydd Sipressws
O geingiau pinws ar ei gyngain
Rhinweddawl fawl fudd ni faeth gaeth gythrudd
Rhoed Duw oi deurudd rhad dadwyrain
Bonedd medd moliant bydd ysydd o sant
A naws gogoniant nis goganain
Balch ddelw elw eiliad a naf nef wenwlad
A ner oedd wirdad naw radd wardein
Braisg diwair grair grym braint y saint ni'm sym
Bid ei arddelw ym byd ai hurddain
Amen.
Doeth delw ner Aber wybr uchelfaer nef
Naf gwerthfawr mireinglaer
Dwfr dir cor eglur wir caer
Dyfrdwy or mordwy mawrdaer
Mor a ddysg mab Enair a ddug
Mawredd daith gwaith gwynfydig
Olygawd grair loywged grôg
O Loegr dir oleugaer deg
Llyna gain goelfain fu gael yn Lloegr
Llawged grair ar Israel
Llanw ai dug oi deg afael
Llun Crist ei hun Croes Duw hael
Llanw llwybr glud llwybr dud y dug
Llun llyw pumoes ar groes grog
Mawr chwedl llawen gan wenyg
Marchog bronn mordonn mawrdeg
Doeth delw wenn ar brenn breiniawl nef
Yn ei gwbl ddioddef [ac wybr
Ni ddoeth rheg o deg dangnef
Duw byw gaer ei debyg ef
Daeth croes o wial Moesen
A delw ar frig mor dylan
Ner o Dduw nawradd ddewin
Naf ger llaw nef Gaerlleon
Creawdr llun eiddun Addaf lyw o nef
Ni wyl neb ei gyfryw
Crair Caer mawrglaer am erglyw
Croes deg dan eurddelw Crist yw
Teg fu dro to tonn welwgaen
A thu i fro gaer ith ddwyn
Torr grair gwerthfawr fy mawrboen
Terra Calfaria firain
Lles hynod llin clod llun claer llyw nefawl
Llawn afael llwybrwaith saer
Llethr Dyfrdwy mordwy mawrdaer
Llithrawdd mor llathrgrair cor Caer

Yma canlyn yn Llyfr Mr. Walter, i Fair i Dduw, ac ir tri doethion. Cerddi o waith yr un G. M. D.

AWDYL.

O L. P. P.

Kyn b6yf g6as grudlaf gredyf anvon b6llvra6
O bellvro Gaerllion
Da6n obeith kyvyeith covyon
Dyn g6yl y6 van6yl o Vôn
G6ae bieu madeu medu govyon dogyngud
Meu dygynga6d ovalon
G6angein[1] riein rud ffion
G6edus hael Veinus haul von
Tec dygaf ar haf ar hoe6 vanon d6f
Y dyvu ym govyon
Ta6l ha6l hyl6yth ovalon
Teith hydor meith hoe6dir mon
Gweleis pan gerdeis gord6fyr avon rin
G6yl riein dianvon
Gwir diseml a gwar dison
G6a6r hirdyd ma6r harded mon
Ryd hydneit ym reit by ron vy nigya6
Car h6ylya6 cur hoelyon
Ran oval lann rin avon
R6yl y mae meinwyl a mon
Mygyr6enyc a blyc am oblygyon mein
Meu ymaen vynkovyon
Myrd yn wyrd o Iwerdon
Mor a'u g6lych mewn[2] amgylch mon
Gwiw a 6eith g6a6tieith g6yt vanon riein
Y rieu a doethyon
Gwir voli g6yr ovalon
G6ar drem walch g6a6r v6ynwalch von

AWDYL I AWD.

O L. P. P.

Synhuyrus Deus Duw goruchaf
Sywedyd Dofyd divei haelnaf
Sef 6yf yt vy r6yf r6yd araf geinyat
Sef 6yt ucheldat mat modrydaf
Synh6yrya da donyeneu attaf
S6yd ditla6t o wa6t a weinydaf
Syrcha6d gly6 vy lly6 r6ng Taf a Thawy
Serchir yach Kon6y val y kanaf

[1] *Neu*, gwengein. [2] *Neu*, maur.

Saethvarch kein dravnidyr dinydyr danaf
Seri eglurvryn kyn kynhayaf
Sy6 dymma6r r6yva6r yr haf arbennic
Torredic eidic elwic alaf
Am verch Ruffudd ud addysc Mordaf
Fab Ior6erth kannerth kynn6rf gorsaf
Neut ad6yf o gl6yf yn glaf huyr dianc
Neut adoet gyvranc or tranc trymmaf
Poen rya6t deva6t ot a adevaf
Pan vu berigyl wann am gann gynaf
Peunyd p6yll berthyd pell borthaf yt hon
Penyt bronn dilonn delw y nychaf[1]
Hybarch dyno vro vreint talheithnaf
Hyboen y6 vy hoen ny hunaf o bleit
Hebogeid lygeid eureid araf
Heb vy chwaer wenglaer mor 6yf wanglaf
Hebu gre nyt lle nyt ll6r6 arnaf
Hyb6yll glot did6yll dodaf ar esyt
Heb wyt y loer bryt a l6yr brytaf
Hir y keinmygir kerd wir waessaf
Her6yd da6n diga6n val y dygaf
Hwyrda6 oe heilya6 hwylaf ar veidvyrd
Y vyrd dros gainwyrd a drawsganaf
Hoen eglurvan kann kyn eiry gaeaf
Hi a wnaeth keli ac ny6 kelaf
Hylwyd wa6t deva6t yn diveiaf bun
Hoy6lun hael eidun o lun adaf
Wythgant annerch da6nserch dyn
Uthyr vrys vro Henrys vrenhin
A aeth dros ved 6ed 6ahan
A Thawy ar lywy lun
Llywya6d ll6yd ranga6d llud rin
Llathyrvun geingann vann valchlun
Trossof cof pob cyvry6 dyn eithyr aut
Aeth am gwa6t am gwên
Pereis ffysc glutdysc glotdull
Perigyl hun yr bun o bell
Peris g6en yghyvyrgoll
Para6t y a6t geinwa6t gall
Ot ergyt bryt bratvoll
Y bob riein vein vyndull
Ran a6t om gwa6t a vyd gall
Ne ryn eir6 no ran arall
Ym dyd ef a vyd oveddа6t traserch
Treisic y6 vy nivra6t
Ym dic katwetic keuda6t
A mi kyvoedi kof a6t
Ry h6yr ym ll6yr kael ll6r6 ffa6t om serch
Os archaf yn bria6t
Rya6d y bum eil rya6t
R6 hir ym oedir am a6t
Ys breinva6r liw g6a6r ale g6a6t hirdric
A h6yr dry om keuda6t
Ys breid ym vy6 gly6 gl6yvna6t
Ys bra6 pell ada6 pall a6t
Llyna Lys nyt a diwyrna6t om bryt
Am bryder vyn divra6t
Lle lloer wiwne ll6yr wae6na6t

[1]*Ban ar goll yma.*—Iolo Mor.

Llifg6yn llas ad6yn llys a6t
Kigleu kynn divieu deva6t gyntevin
Kant avar vyvyrda6t
Kyrd etneint gl6ysneint glasna6t
Kerdgar kat adar koet a6t
Y kof ys ynof ys anyna6t y try
Tragywyd om keuda6t
Anghenwyd her6yd hir6a6t
Angeu ym edeu am a6t
Dan gyngor ragor rac vyn divra6t ym
Am nas kaf yn bria6t
D6yn h6yl dyn g6yl goleuwa6t
Dyn vric y goetwic ac a6t
Erchi merch vy ri rodna6t ys gwneuthum
Ys g6naeth gwyt tros vola6t
Ar6yd nat ratl6yd rytla6t
Eres ymoedes am a6t
Trav6yf ry hirgl6yf rya6t y wrthi
Hoet beri hut bara6t
Nym dywan didanded yvna6t[1]
Nam da6 kyvada6 kof a6t
Llawer Annerch verch Leilya6t brat acle
Dro Deilaw ae loga6t
O Wlat veith glutweith glotwa6t
Vorgant a redant ar a6r.

AWDYL.

O L. P. P.

Bryt ar olut byt o byd ma6rdodaf
Bryssyaf lle y g6elaf brys llu g6eilyd
Breint nef hun adref vat[2] ryd y keit
Breinya6l ha6l henbleit ganneit gynnyd
Gwyved breisc adurn divurn neut uvyd arber
Brenhines haelder gloywder gwledyd
Br6ysc vydaf od af y dyd ym gwelo
Bro yu amyl yno am lawenyd
Bydaf a llunyaf oe llonyd valchdut
Parau ala6 olut or sut y syd
Per dattiein koelvein kelvyd lavarwa6t
Para6t berth dava6t gan borth Dovyd
Prif deg6ch dil6ch eiry dolyd kynn glaw
Pra6 n6yf gyryf ana6 nyt gorvynyd
Pria6t oleuwa6t eilewyd hyvryt
Pryt gein ar deuvyt gynnar Davyd
G6awr gerdgar h6yrwar her6yd adnabot
Gorvot ar hoywglot g6iw i reglyd
Gorhoffder lla6er med llywyd kerdeu
Geiryeu amyl vwryeu[3] ymleveryd
Gwir gymm6yll y ph6yll y ffyd ae champeu
Goreu ffuryf brudyeu gan ffyryf brydyd
Gwaret y6 r6ydet y ryd oe g6ytriu
Gwin orlla6 iessin yr lluossyd
Ragores kares keryd ny haedei
Rei ae ryvolei lla6r huvelyd

[1]*Neu,* Didan dedyfnawt, *neu* diddan deddfnawd?
[2]*Neu,* rat. [3]*Neu,* vuryeu.

Rac breint merch wyndeint llen dyd 6yb-
odeu
Or mor bu goleu ma6r bwygilyd
Rodyat Angharat ynghaeryd g6yngalch
Rieda6c dremwalch wylvalch elvyd
Riein loy6 virein leveryd g6astat
Rat hyluys blannyat heul ysblennyd

Mae peth ar goll o'r awdl uchod: nid oes enw ai cant wrth yr awdlau, o'r un yn dechreu.—Kyn bwf gwas grudlas gredyf anvon hyd yma—ond y mae achos i veddwl mai G. M. D. a'i cant: os natef, rhyw fardd o Forganwg; tebygid.—IOLO MORGANWG.

I FAIR.

O L. P. P.

MEU ymoral6
O b6yll disal6
O bell d6ysa6l
A meir geirgoeth
Eiryan wiwdoeth
Eur rin6eda6l
Goreu y6 Meir
Glandat bortheir
Gleindyt bertha6l
O berffeithr6yd
Ar bob ar6yd
Awr bybyra6l
Seren y6 hi
Not goleuni
Nyt gelyna6l
Lloer egylyon
A g6erydon
Eic wareda6l
Mam tagneved
A thrugared
Yeith ragora6l
Temyl yr mab rat
Neuad garyat
Na6d ac eirya6l
Hyna6s vor6yn
Hynot adv6yn
O hen6 dedva6l
Hoyvvam Iessu
Ha6d y charu
Hed6ch eirya6l
Hil gweilch Gröec
Hoy6l6ys brifdec
H6yl ysbryda6l
Heul y d6yrein
Honn oed riein
Hoen d6yrea6l
Gabriel Geuda6t
Ac eur dava6t
Ac eir d6yva6l
A vu gennyat
Ymell dodyat
Ym6yll dida6l
Pan gat mab meir
Henu o vardeir
Hynaf urda6l
O deilyngda6t
G6ir vor6ynda6t
G6ryf vireinda6l
Goreu ave
Doeth ar6yre
Deith oreura6l
Gweith g6ynvydic
D6yn o ffurnic
Dan uffern a6l
Adaf ae blant
Oe div6ynyant
O d6y vaena6l
Dayar a nef
Kyn peen odef
Kun penyda6l
Aeth gwawr y glot
Ar brenn hynot
Ior brenhina6l
Yr llawenyd
Rat a bedyd
Reidyeu byda6l
Yeithyd ffyd ffyrd
Wyth ugeinmyrd
Aeth ae ganma6l
Am y greivyeint
Diodeveint
Du6 adeva6l
Kyrcha6d Crist naf
Tros veich Adaf
Treis vucheda6l
Pumoes o ffwrn
Y bau gymwrn
Ny bu gama6l
Isgynna6d la6r
Llathyr niver6a6r
Llethyr nef eurwa6l
Ar deheu'r tat
Un tri meidryat
Yon tra medra6l
Brenin didla6t
Ar bob kiwda6t
Eurbab keda6l
Bit ef nef na6d
Byt a bryna6d
Bu Du6 breinya6l
Da vu yr Annerch
Y Anna verch
O ynni va6l
Ar les pobyl gret
Yr ll6yrwaret
Or lloer wyrya6l
Gorffowys rat
Deon garyat
Dienguryа6l
Ym mru'r weryd

Gar llewenyd
Gorllewina6l
Ior seint breint breisc
Yn Du6 va6rweisc
Yon divar6a6l
Yn vab ffr6ythla6n
Yn vy6 diga6n
Yn vuduga6l
Yn Ysbryt bud
Deheu rybud
Diharebya6l
Yn un a thri
Tric y 6edi
Tragy6yda6l
Yn vrenhin wybyr
Hael doeth ewybyr
H6yl deithïa6l
Yn vra6t ffawt ffyd
G6iryon ufud
G6erin neva6l

II.

Merch mam Meir o di6eir6aet
Ch6aer yth dat o rat eiryoet
Eva 6yr y ave wyt
Regina a roes eneit

Mammaeth bron vaeth brenhin vu
Mor wybyr hir nef tir terra
Meir an geil6 Mor6yn Geli
Meu amovyn mam ave

Tist ar6yrein y gleindyt
Ti veir vu'r diweir waret
Tec o'th gaer glaer y6 dy glot
Temyl y Grist teu aml6c rat

Rat mat Meir geir ragori
An d6c on dygyn an ymdro
Gras oessoed ar groes Iessu
Ar Annerch tec wyr Anna

Meir vam y Argl6yd y Mor
A Naf a that nef a thir
Ym kad6 rac r6ym brad6 bryder
Oe brat tr6y garyat trugar
Tec rec rat t6f mat mam g6ir broff6yt nef
G6ell no neb yth varn6yt
Temyl yth vab maeth yth wnaethp6yt
A neuad ys vy na6d 6yt

III.

Ar l6yr waret
Grist yth anet
Naf nef drefret
Na6s gogonet
Nys goganein
Ar dysc ar da
Y l6yth terra
Rac murn ma6rbla
O ben Eva
Y boenovein
Ar volyant greir
Ar vilyoed greir
Ar va6l i veir
Ar va6r na6deir
Ar varn adiein
Ar berffeithvryt
Hoy6vreich hyvryt
Ar deheu byt
Ar Du6 deiryt
Ar dad6yrein
Ar da6n k6plaf
De6in doethaf
Pan gyrcheist naf
Lluoed Adaf
Lle yd oedein
Ar drevyn ord6y
Ar dres dram6y
Oerleith arl6y
Yggloes dir6y
Ygglas dyrein
Ar groes irwyd
Ar gadeir ffyd
Ar gedyrn groc6yd
Ar get gelvyd
Ergyt goelvein
Argynhyrcha6l
Radeu d6ya6l
Ar goeth gama6l
Ar gof eura6l
Ar gyv6yrein
Ar da6l ma6l mat
Ar demyl garyat
Ar deil6ng rat
Ar dut y kat
Eur dadoc kein
Ar glot gyhoed
Ergly6'r pobloed
Argl6yd ym oed
Ar glaer diroed
Ar gla6r d6yrein
Ar gatholic
Dyd nadolic
Eir ma6rhydic
Aur wynvydic
Ir wen vadye
Ar b6yll leindyt
Ar bevyr ysbryt
Ar borth yr byt
Ar les blegyt
Ar l6ys blygein
Ar dangneved
Rat anryded
Ar drugared
Ar wir va6red
Ar wyry virein

IV.

Archaf Gul6yd
Di6arad6yd

Dy 6i6 radeu
Ac i Veir dec
Hael o Röec
Hil o rïeu
Ach6byl a ll6yr
Ynnof synwyr
O nef seinheu
Ac eggylyon
A g6erydon
A g6i6radeu
Yt v'Argl6yd dat
Yr dy garyat
Eurdec eiryeu
Roi na6d yth 6as
Rac bra6t ogas
Rac brat a geu
Rac barn kedyrn
A baich edyrn
O bechodeu
Rac kebydyaeth
Rac tra6s arvaeth
Rac treis arveu
Rac kynghorvyn
A vyd elyn
I vedylyeu
Rac kreulonder
Yn y dener
Anudoneu
Rac murn a th6yll
A dogyn gymmwyll
A dygyn gammeu
Rac g6ae6 dan vronn
Rac g6yth galon
Rac g6eith g6yleu
Rac d6fyn lesged
A digassed
A dic eisseu
Rac treis arll6ybyr
Och amyl e6ybyr
A chamlyeu
Rac tralla6t byt
Rac traphenyt
Rac triphoeneu
Rac tan uffern
Ae dryc gethern
Ae dr6c hitheu
Ae chassoveint
Ae goveilyeint
Ae geveleu
Ae chaeth6en6yn
Ae choec6an6yn
Ae chicweinyeu
Ae chynydyon
Ae ch6n duon
Ae ch6yn dieu
Ae phyrth hëyrn
Ae thanllyt gyrn
Ae thin ll6yt geu
Ae tharth ae ll6ch
Ae thiryonn6ch
Ae tharynneu
Ae rhost brynnic
Ae restr ffyrnic
Ae r6ystr ffyrneu
Ae breveryat
Ae bront baryat
Ae brwnt beiryeu
Ae kot[1] genllysc
Ae hin dervysc
Ae hoer dyrveu
Ae g6ythlonder
Ae g6anniver
Ae g6anaveu
Ae dygyn gymm6rn
Ae duoerff6rn
Ae daearffeu
Ior degradwlat
Ya6n a brynyat
Ion y breinyau
Yno kyrcheist
Ar a gereist
O rei goreu
O'th heneivyaeth
Enydigaeth
Eneit eigyeu
O'th vod yth ved
O'th enryded
Aeth yn reidyeu
O'th vaeth a'th va6l
O'th del6 d6ya6l
O'th ddal divieu
O'th vynedyat
Eur dy dyhat
Ar dy deheu
Pevyr Vihagel
Kun gl6ys aghel
Kyn gloes agheu
Pen kymhenda6t
Y6r penn didla6t
Pan vo dadleu
Por kor karyat
Per y vredyat
Pur y vrodyeu
Par ef nef naf
A diwarthaf
Y6 d6 6yrtheu
Y d6yn v'yspryt
Rac hoedyl deugryt
Rac hidyl dagreu
Yth 6lat rat rec
Yth windei tec
Yth wyndut teu
I'th le aml6c
Yth l6ys ol6c
Yth lys oleu
Amen.

[1] *Neu*, hir.

V.

Baltassar gynnar gennat duc anreo
O dec ia6nry6 garyat
O ar6yd ia6n gyvla6nrat
O eur ta6d i eir y tât

Digystud anrec am dec yst6yll rat
Duc yr hydyr eur gann6yll
Iessus vab koeth doeth did6yll
Iaspart or Myrr nyt byrr b6yll

Gwnaeth Melchior eurior ar6yd govec vod
Uniaónrod yn anrec
Y Ioseb dat rat redec
Y Iessus d6yn tus da6n tec

Baltazar durbar de6rbor a wnaethant
Oe ma6lsant a Melsyor
En6a6c Iaspart eurwar Ior
Anvon anrhegyon rhagor

Doeth o'r d6yrein kein ceiff bob a6r eurglot
Y Argl6yd Nef a lla6r
Ar6yd y vot yn glotva6r
Eur myrr a thus wedus wa6r

Y tri a roes yt tr6y rat
Teir anrec Veir yr kreir kret
Seren heb la6 lys Erot
A rodes gyvar6ydyt[1]

I DDUW.

O L. P. P.

Argluyd Du6 ergly6 eurglaer vannyeu
Argl6yd llan6 a threi rei on reidyeu
Argl6yd lluchynt gwynt a gwylt ffrydyeu mor
Mawr dy rat a'th wyrtheu
Argl6yd eglurder ser a sygneu
Argl6yd g6yllt a g6ar daear diheu
Argl6yd Gwendref nef naf dervyneu wybyr
Obeith rat vedylyeu
Argl6yd mor a thir gwir gwaredeu
Argl6yd nos a dyd kynnyd kanneu
Arglwyd tervyn dyn donyeu goruchaf
Goruchel nodväeu
Tydi a anet get gret greiryeu
O Veir wir eureir va6r wyry oreu
Tydi a ved vry vreinyeu yspryda6l
Ysprydoed gwedyeu
Ti a da6 dyd bra6t ditla6t datleu
Yr barnu trillu trall6yr bynkeu
Ti vab Meir wyt kreir kreaduryeu Du6
Heb di6ed heb dechreu
Tydi Reen llawen llen a llyvreu
A dygyn werthwyt gynt dr6y dogyn wyrtheu
Yr dec y byt tec bu teu ar ugein
O datyein a dotyeu
Tydi Argl6yd r6yd rinwedeu bob a6r
A rodet dan lla6r va6r v6ryadeu
Tydi Du6 g6edy g6a6deu cof ydy6
Kyvodeist y'th radeu
Am hyn wawr pob lla6r lloryf eneidyeu
Wrth veibyon dynyon dragon dreigyeu
Dilitya Argl6yd dy aeloteu ym
Amyl rätla6n vedyanneu
O gwnaeth am eurlly6 byw bechodeu
A cherydus dr6c a charedeu
Breisc dewin brenhin breinya6l senyeu
Nat dy var arnam am gam gwympeu
Yr dy gythrud loes yr dy gethreu
Yr dy goron drein 6r da goreu
Oeda vi vy ri rinyeu tystolyaeth
Rac tost dolur agheu

Lloryf brenhina6l
Doeth de6ina6l
Gorlle6ina6l
Garlly6 unyon
Lly6yd ranneu
Hyt vedyanneu
Llew hydyr canneu
Lly6yodor keinyon
Llym lavurya
Nam dolurya
Na thosturya
Ieith d6ys diryon
Lle digared
Gyvlavared
Yn rugared
Yn ri gwiryon
Lle didöstryd
Llys lluossyd
Lle dangossyd
Lladin gysson
Lle rieda6c
Digamweda6c
Lle gwareda6c
Llu Gwerydon
Lle cyvanned
Llu Rhianed
G6a6r varanned

[1] *Nid yw enw* G. ab M. ab Davydd *wrth yr awdyl uchod yn bumran i* Vair. *ond nis gallav lai na chredu,* mai eve ai cant. *Ac onid wyv yn camsynied, y mae ei enw wrthi yn Adysgrif y* Dr. Davies *o Vallwyd; etto* y mae efe dan y gair *Gwyryf* yn ei eirlyfr yn *rhoddi yr Awdyl hon i* G. ap yr Ynad Coch; *ac yr wyv yn rhyveddu yn vawr iddo* VE *wneuthur hyny, ac eve yn deall* rheolau, *ac yn drallwyr debygol,* hanes *y gynghanedd y sydd ar yr awdyl; sev ei bod o'r rhyw ni welwyd erioed yn y Gymraeg cyn yng-hylch y vlwyddyn* 1330, *neu ychydig, a hyny yn ych-ydig iawn, yn ebrwyddach.*—IOLO MORGANWG.

Gwyry voryunyon
Lle nevolaf
A dedvolaf
Duw a volaf
Diovalon[1]
Lle canmolut
Lla6r ma6r olut
Eang olut
I engylyon
Llit a chasseu
Ym pop plasseu
Y vaflassau[2]
Eva vlyssyon
Lliaws gurya6
Llym dolurya6
Llu divurya6
Lladva wiryon
Llawr wa6r warant
Lluoed barant
Llethyr 6a6t garant
Llithyrwaet gwiryon

Cor eurdor urdas diwyllic
Car kyvar kyv6lch barnedic
Coryf gwendoryf Gwyndyt arbennic
Kaer eurglaer Argl6yd bonhedic
Krea6dyr Amera6dyr mor g6enic a thir
A thervyn wybyr llithric
Kyn mynet ir maenved hirdric
Kyn gwelu gwaela6t prynyedic
Kyn gwelet gwales nychyedic
Kaff6yf Crist vy r6yf vy ryvic
O'th wlat ac o'th wled ny diffic
Kyn pallu pump synwyr p6yllic
Kyn pwll d6fyn pall divalch etmic
Kyn provi o'r pryvet ffyrnic
Pechodeu tremygeu tremic
Kyriedus Argl6yd b6yf karedic vry
Yn y vro dewissic
Yr dy groes ar loes livyedic
Ar kethreu bu kythruddiedic
Ar g6ayw ar gwyar llithredic
Ar[3] galon glaervron eglurvric
Ar bedla6r wyt g6awr gwyrennic
A'th eni aeth yno lle y tric
O'th anet ny bu deith unic
A'th deith Argl6yd r6yd rod brovyedic
A nef damunedic [ner
Ar wara6t o ffa6t ffynedic
Ar warant Eva blant blennic
Ar waret y werin boenedic
Ar wyry eur wiryon llithryedic
Ar weryt yr byt bendigedic rat
A roet du6 nadolic
Kyn gwnaethost nyt kost kystudyedic
Vi Geli yn golovynedic
Eur dec rec ragor deudyblic

[1] *Awdl foethus*, ar y ban yma a bai ydyw.—I. M.
[2] *Neu*, va flasseu. [3] *Neu*, O'r.

Ard6y r6y r6ysc canma6lyedic
Ardal mal molyant sein Syric
Ar dy del6 ardel6 urdedic
Keli Naf pobloed yn kelennic dec
Duc vi wlat ni diffic
Molaf ar6yraf ar eiryeu pria6t
Ma6r dat y mab rat mat amodeu
Molaf hefyt bryt brotyeu diatneir
Un mab Meir diweir o'r geir goreu
Molaf yn ffraethaf yr ffr6ytheu'r hollvy5
Y glan yspryt pryt pria6t wyrtheu
Mor un Du6 a dyn donyeu credadun
Un a thri dëun a thri dieu
Mor undat un rat reityeu purffa6t
Mor un vra6t un gna6t in g6neit ninneu
Ma6r grea6dyr brynya6dyr ar brenneu
gloewgroes
Pumhoes o bum loes o lys angeu
Myvi vy ri tri tr6y nertheu vy naf
A tynghet bennaf bob anaveu
O awyr diwyr a deheu dayar
Ac uffern varwar bar berw bylleu
Ae chas ae chwmpas ae champeu meddaut
A phecha6t y cna6t cnut anaeleu
Ae brat ae retyat ar r6ydeu duon
Ae hir eissyngyon ae harsangeu
Kyt na allont ym am vyn kammeu wed[1]
Neb ry6 argy6ed dyed dieu
Tr6y gyffes tr6y les tr6y leissyeu hed6ch
Tr6y ediveir6ch rac ll6ch llycheu
Tr6y'r tat ar mab rat yn reityeu hyvryt
Tr6y'r glan yspryt pryt pria6t wyrtheu
Tr6y di6eir loy6 Veir alaveu eglur
A vu em antur y vam ynteu
Tr6y eggylyon llonn llunyeu eur na6ta6d
Ny syrthya6d yr cla6d yr claf dyeu
Tr6y ebystyl r6y r6yd bregetheu llon
Tr6y'r archeggylyon diryon dyreu
Tr6y'r proff6ydi ri riedeu dysgeit
Tr6y y henavyeit bleit y blodeu
Tr6y y pet6ar g6ar gwiroteu ragor
Angelystor cor kaer y sygneu
Tr6y Ieuan galan goleu y gyvl6r
Vedydy6r y g6r an gwyr ninneu
Tr6y ar6yd gloesswyd tr6y egl6ysseu'r
ffyd
Tr6y vedyd kynnyd kyn no bedeu
Tr6y ffyd tr6y las6yd tr6y leisseu rin6ed
Tr6y wed ffeir anned efferenneu
Tr6y hinda va6rda vyrdeu diletrith
Tr6y wenith tr6y wlith rith aureithyeu
Tr6y wyn tr6y wenyn tr6y wineu win-
Tr6y baradóys l6ys leis organeu [b6ys
Tr6y vreint y loy6vreint ae lyvreu kyva
A 6na y bara yn bur gorffeu
A una y bara yn bur gorffei
Tr6y gret tr6y giryet tr6y geiryeu Lladin
A wna'r gwaet o'r gwin rin yn rieu

[1] *Neu*, kam meu wed.

Tr6y dy varn gadarn a'th gadeu dydbra6t
Tr6y dy bria6t ffa6t na6t eneityeu
Tr6y vy r6yf y b6yf heb evynneu dia6l
Tr6y eirya6l y sa6l a seil gynneu
Cartrefaf trevnaf travneu goleuni
Tr6y voli vy ri tra v6yf inneu

Nid oes hael Iesu ny bu ny byd
Digus[1] dudlew yw dy gystedlyd
Neirthyat g6i6 retyat g6aredyd pumoes
O drymloes eurgroes irgreu ar6yd
Agen dervyn y dyn y dyd[2]
A gward vyd galar 6rth y gilyd
Agenn dy vr6yn g6yn yn y gynnyd balch
Mal hoedel huda6c walch y ehedyd
Ergly6 vi vy ner uch ser yssyd
Eurglo ni cœlo med seilym Davyd
Argledyat trevnat travyn bröyd G6ynvyt
Am try o gywyt ym tragywyd
Yn kreir wyt vab meir morach gynnyd
An llawen awdur a'n llunyedyd
Yn nen an perchen parch llonyd para6t
An deau deva6t an Du6 dovyd
Yn ner reit hyder an rat ded6yd
Yon gwira6l ewybyr an gwir ly6yd
Yn tat unya6n rat an riyd didrist
Eurloy6 Iessu Grist ar luossyd
Nat na th6yll na brat ar dy brydyd
Nat vrec uyt wiwdec ar dy wewdyd
Nat anghallder ner yn dyd ym kreifyeint
Na digya6 y seint yn dec yssyd
Ayssyoes nyt oes na nos na didos dyd
Alpha hebot clot clo llu oedyd
Un a thri a ri a rybud a rat
A that digronnyat dy gerennyd

GRUFF. AP MERED. AP DAVYD AE CANT.

GRUFFUD FAB MAREDUD AE CANT I VEIR VORUYN.

O L. P. P.

I.

LLUNYEID Veir gyweir digywyt riein
Y naf o dd6yrein nef a deiryt
Llawen oet eryoet rat vebyt ovec
O b6yll gyhydrec o brifdec bryt
Llunyet ma6r a get meir y gyt ar seint
Lle6enyd grivieint borthvreint berthvryt
Ll6ydyant eur vedyant yn ll6r6 arvedyd
Yn lla6r Barad6ys rhac p6ys penyt [gl6ys
Llaryeid Veir o'r geir heb gyt y ganet
Y mab gogonet get gedernyt
Lludya6d dervyn dyn y da myglyt hir
Llewenyd pob tir gwir y gweryt

[1] *Neu*, digas. [2] *Gair cyrch yn eissieu.*

Llwr6 rec oes bri o'e ysprvt radla6n drem
Lla6r wa6r va6r Vethlem lliw gem gymryt
Lliw ll6ybyr g6anec dec am dyt llewenyd
Lloer lla6r ll6yr gynnyd llu bedyd byt

II.

Meir ma6r dristyt byt bryt a bryderaf
Meir ma6r da 6yrtheu oleu alaf
Meir a mam a chwaer glaer egluraf
Wyt i Grist didrist didranc waesaf
Mireindec ovec uvyd c6plaf
Mor6ynda6t ffa6t ffyd dyd dedvolaf
Meir dr6y haulder ner nerthoed hyttraf
Ath radeu ditheu doeth yth varnaf
Meir vat ervei ——————— af
Meir neut tew va6leir tir a volaf
Meir hoen haul hirdyd hevelyd haf
Meir nym gat heyrwat hir6ayw tostaf
Dan vron liviedic me6n dic dycnaf
Meir o ved6l rat Meir uvydaf
Meir o vedyant nef os mar6 vydaf
Meir windei gadeir wendec adaf
Meir dyro bortheir barth ac attaf
Meir gein kyn yd6yf o gl6yf yn glaf
Meir loer wendref nef nerth a geissyaf
Meir o'r Israel hael heul oruchaf
Ma6red vyrd voned a Meir ad6ynaf
Meir werthva6r glotvaur Meir wawr
Meir a lonyda6d Meir lin Adaf [gwympaf
Myna6c uvuda6l mam neva6l naf
Manon d6f gwiryon g6aret arnaf

GRUFF. AP MARED. AP DAVYDD AE CANT.

I DDUW.

O L. P. P.

ARGLUYD r6yd an ryd tangneved
Eurglo bro breinyawl gymmroded
Ergly6 vi wyt ri pob rhin6ed
Argledyr Pedyr peidyaf am masswe
Arglyt vyr vodur teyrned
Arglein[1] kein rac keithyaled
O cheveist orchyvic amved
A chur o lavur eilawed
Yn prynu o'r pren a'r dyvynved
Na vyd na ved6l vyggomed
Na vit lit gan ly6 brenhined
Na vadeu vedyant gorhoffded
Dy brit6erth arnaf Naf Nazared
O chereis becha6t a chared
A cheryd a charat wraged
A threissaw gweinyeit a thryssed
A thrysor athreissic salwed
A bylchu vyggeir a balched
Heb olchi balch ved6l symled

[1] *Neu*, Ar glein.

O gamlu ac amyl digassed
Ac ymlan6 o gymlith[1] ryved
Ac amlaf gaml6ybyr divroded
Ac ymlwgwr o gaml6r6 gwaged
Am aml6c gamlas cnwired
Ac ymlit morgymmla6d chwerwed
Kyn g6isca6 mewn g6asca6t maenved
Kyn g6isc risc r6ysc gaen dytwed
Kyn g6as wher6 irder6 oer dyed
Kyn gloessyon kyn glassu'r danned
Kyn glassar diwedar diwed
Kyn gweithla6r kyn g6ythla6n gynted
Kyn g6ythleith seith drutveith draetved
G6ir lawhir ly6 mor a thired
G6a6r daear dehau a gogled
G6ediaf g6iw diagyr verthed
Ymot ymatyein drugared
Yth winlla6r yth winllat orsed
Yth winllan yth wenllys anned
Teith wledic y medic an med
I'th wenwlat argl6yd yth winwled

GRUFF. AP MARED. AP DAFYDD AE CANT.

I DDUW.

O L. P. P.

ARDUYREAF naf a ner egylyon
Clot Ion gwerydon gwareda6c ffer
Ar6yrein matyein medr ia6nder keuda6t
Ard6yrea6r wa6t ffa6t ffydlonder
Eura6c a myna6c muner deggradwlat
Argl6yd r6yd rodyat gwirdat gwarder
Ef an g6naeth o gaeth gerth vlinder weinyd
Yn ryd bu uvyd dr6y ffyd ffyryfder
Ef a roes ar groes grysseu gollet brec
Y waet y redec bu chwec chwerwder
Ef a divan6 llan6 llinagyr dyvynder ffraeth
Ei a wnaeth uch traeth trei ac aber
Ef a wnaeth arvaeth pob arver diveth
A phob ry6 unpeth treth lle traether
Dyn dil6fyr o d6fyr d6vyn loe6der glan
A than un anyan pan ennyner
A ry6 a6yr ll6yr ll6r6 ad6ynder ffyd
A oruc Dovyd ac nyt over
A Du6 y6 vy lly6 lle mae doethder mawr
A dayarlla6r g6a6r g6a6t a dirper
Adar gwyllt a gwar gwir doethder vrodyeu
Wybyr eigya6n ffrydyeu sygneu a sêr
Yn lle y bu yn medu bud hoewder achles
Ac yn y lle y colles y lles lla6er
Ystyryet d6ysgret nat oes gryvder
Na nerth dida6l berth dadyl a borther
Nat oes hebda6 pra6 lle prover
Diwed na dechreu parableu per

[1] *Neu*, gymlit.

Nat oes rat na mat Metrum amser ffa6t
Dieithyr ri tri Trinda6t uthyr wa6t wiwder
Gwae a gretto bro breuolder vuched
Gwae a wnel trossed yn lle y treissyer
G6ae ef Argl6yd r6yd yn lle roder nac
G6ae ef dyn gor6ac a vac valchder
Un6ed ha6l dida6l huda6l vyrder dervyn
Yn hoedel dyn tremyn tr6m orober
Ac adeilat brat bryt sal6der dryd6
A deil o d6r bed6 nyt arbeder
Neu hyd a6r ech6yd yn ochor creicver levyn[1]
Neu leissyat ae gwyn mewn trwyn tryver
Rac hirdilyt prit pra6 uvullder bryt
Ri y byt am dyt dysc a challder
R6y gaff6yf vy r6yc r6ysc didrymder hed
Kyn bed seith droetved a g6ed gwander
Ragor r6ym kyngor keingheu bader Grist
Regeu di athrist trist lle tyster
Ryd ym g6nel Dovyd rac diver dramc6yd
R6yd Argl6yd hyl6yd ha6l gyvr6ydder
Reen lleen llathyr dref nef naf d6yolder ch6ec
Rex DS. na6sdec a Deus noster

AWDL FOLIANT I ESCOB BANGOR.

AC I YMLIW AC EF AM ESCEULUSSO BEIRDD A MAWRHAU CERDDORION.

ARGLWYDD Crist culwydd calon gyflawnrad
Argleidriad neirthiad nerth engylion
Erglyw fi fy llyw penn llywodron cred
Eurgrair gogoned gwared gwirion
Erwan fu gennyf Arfon fu seithuc
Athrist in goruc Athro Canon
Ban wisgawdd urddawdd arddwelwon dannau
Dwrdd clustiau cerddau cerdd ymryson
A gadael gafael gofion diannoeth
Y gwyr digrifddoeth yn rhynoethion
Rhyfedd gennyf gan arwyddion plaid
Yn Rhen rhy danbaid aniweidion
Lle rhoed ar ddifrawd barddwawd Beirddion
Tra fu Llywarch parch perchennogion elw
A Chynddelw arddelw urddeledogion
Gwilym Ryfel ryfig anfon urddas
A Dafydd Benfras ym mawrblas Mon
Ni wnai Arglwydd rhwydd rhoddion ddigronniad
Neb rhyw gonglad brad ar brydyddion
Tra fu'r prifeirdd heirdd hardd weision cuddawn
Cyflawn o driddawn ymadroddion

[1] Twyllodl yn y Gair Cyrch: llwyn?

Nid ef a berchid berchyllson debic
Grwth Helic terric torr goluddion
Wrth glywed tecced ton englynion
O waith prif Deifriaith y prydyddion
A garw oedd glybod eigion telynau
O gau gwisc fleiddiau tannau tynnion
Pan aeth Maelgwn Hir o dir mab Don duedd
O wledd Gwalch Gorsed i Gaer Seion
A dwyn gydac ef gofion dan orchest
Oedd o gerdd arwest ar gerddorion
A pheri uddunt ffyrfeiddion lawer
I bawb or nifer nofio'r afon
Pan ddaethant i dir terfyn mor ar drei
Dimei nis talei'r telynorion
Tyst yw Duw ar hyn tystion ai gwybydd
Herwydd hardd gynnydd gynneddf doethion
Cystal i prydai'r Prydyddion a chynt
Er a nofiesynt helynt haelion
Gan rwyf Bangor gor goron urddedic
Pendefig gwledic gwlad y Brython
Gwiscoedd a gafodd gosgorddion diffrwyth
Gosgryn dylwyth llwyth llethedigion
Tudur Wiawn lon lun eidion myngus
Reidus ys digus i ostegion
Am wybod saesneg seisnic don drygwas
Gwisc a gafas las laes odrëon
Cafas costog cas nid cysson damwein
Yscymun filain cog brain breision
Yn dwyllawr cornawr Ceirnion drwg araith
Yn dryllio breithiaith dillad brithion
Gwehelyth nis car gwehilion cerddau
Tabyrddau swyddau iangwyr saeson
Truan oedd gweled gwaelddynion
Rhoi dillaid iddyn ns bai'n dyllion
Pan na wyddiad pennrhad Cennad Canon
Mal nad cerdd Dutcyn sain erfyn son
Ydd ai nod anglod englynion digudd
Gwr prudd o for Udd i for Iwerddon

IERWERTH BELI AI CANT.

CANUAU G. AB D. AB TUDYR.

G. D. T. I FERCH.

O L. E. D.

Aur a main coelfain cael y cae melyn
Dau efyn dwy afael
Arwyddion mad i adael
O rodd dawn hoyw fodd dyn hael
Rhodd hael rheg afael rygafas am wawd
Ei dafawd y difas
Unllythr llath waith cyweithas
Un lliw ac aur gwiw gae'r gŵas
Y gŵas ai cafas cofain rhodd argais
Rhudd eurgae teg riain
Gwaethaf na wyr arwyrain
Gwaith eirian maith aur a main
Budd difeth mwynbleth manblaid main sidan
Mewn arian maen euraid
Bun ai rhoes rhan einioes rhaid
Bu yn cylchynu cylch enaid
Gwae rhag ofn Duw dyn o'r fann y bo
A geisio gwregysan
Gwaneg deg gofeg reg ran
Gwead gosodiad sidan
Nid meu reg adnau rhac adneir dilys
Roi gwregys gwreig ddiwair
Doe ym doeth cyfoeth cywair
Da o fewn gra a fu yn grair

G. D. T. I FYNON CEDIG.

O L. E. D.

Dug gwledig Cedig o du coedydd Rhos
Nid nawd rhus ar ddedwydd
O rwym garw o'r ymgerydd
O'r anoddun Rhun yn rhydd
Doeth Rhun hir i dir dewrair a bell drig
Gan Gedig gain gadair
Lle y gwnaeth Rhun gyfun gyfair
Aberth o fawr werth i Fair
Trwy nerth gair mab Mair eiddun cadoedd
Gwnaeth Cedig credadun
Amlwg fodd o'r annoddun
Ymddangos i Ros o Run
Run goeth fal y doeth o daith geintach gyrch
O garchar ddieiriach
O ras bwyll i Rôs bellach
Y delwyf o nwyf yn iach
Yn iach eryr gwyr gwawr bendefig rhin
Y doeth Rhun fonheddig
I Rôs nid er dangos dig
O rwym cadr o rym Cedig
I'm naf a garaf a fedr gwyraw glaif
Ac a saif heb syrthiaw
Aer gledd radd eurgledd ruddaw
Arglwydd boed rhwydd y byd draw

GRUFFUDD AP DD. AP TUDUR I HOWEL AM FWA.

O L. E. D.

Erfid newid nwyf arfer cler a'm clwyf
Erfyniaid i'm rhwyf ydd wyf ei dda
A rhwyddwawd erfyn ar oed un flwyddyn
A warawd toppyn felyn fwla
Arwyddion rhoddi a wna haelioni
Caledi cronni crynu a wna
Eraill a roddai arwydd rhwydd fydd rhai
Ped fai ai dyrrai mor i derra
Eryr gwyr gwarant arwyrain moliant
Arddunant ffyniant ytt y ffynna
Edrydd gweinydd gwawd adneu cerdd dafawd
Arawd o'm meithwawd ytt ni metha
Er mwyn mirein son morwynawl ddynion
A sôn llatheion ai llettya
Er mwyn llif ddwyn llaith gwawr geinllawr gynllaith
Gwawd obeith gweniaith a'm gweinydda
Er lliw lluch Ianawr er nef llef a llawr
Er mwyn gwawr Faelawr na'm gofala
Er cof dof dyfrwys bun loywlun liw lwys
Canwyll Bowys lwys a'm dilyssa
Fy rhwyf a'm rheufedd o roi'r gair gommedd
Rhianedd Gwynedd a'th ogana
Celi a droses wrthyd fy neges
Culwydd ath roddes lles nyw llaesa
Colofn Prystattun coelfeiniau Awrtun
Catgun cain eiddun ail Cunedda
Calan ddydd dan ddel celennig ddigel
Howel aer drafel ni wyr drofa
Cydwedd buelin cadwedig Ladin
Cyfrin car iessin mewn côr Assa
Ciried nawdd ged Nudd car prudd far preidd fudd
Can nid eirch Gruffudd na'th rudd na'th ra
Cadair air eurbost cadarn lawfarn lost
Cadr ffrost da fuost eithr dy fwa
Cynnal gywirdeb ac enw ac wyneb
Er neb rhyw atteb na'm rhy oetta
Dos genad teithfad tuthfa poen dethol
Poni ddoethosti etwa
Duw a rydd i ddedwydd dda
Dïau mi bïau'r bwa

G. D. T. I FERCH.

O L. E. D.

Gwyl fun a dry hun drwy hud cur ortho
Car wrthyf ddywedud
Nid diboen na'm attebud
Nid hawdd ymadrawdd a mûd
Mûd a balch hil gwalch gweilch nwyf ith welaf
Oth farnaf iaith fawrnwyf
Mônoedd henw men ydd henwyf
Minnau llacs gofau llesg wyf
Gwanllesg wyf hud rwyf hoed drwg am un-
O du maengaer amlwg [gair
Gwannach a digiach i'm dwg
Gwenllys hil gwan-llaes olwg
Dy olwg treiswg trosof wyf alltud
A a filldir hebof
Dyn a rydd gefyn ar gof
Dywed air diwyd erof
Dywed air cywair yn ôl cawad nwyf
Can gorwyf cwyn girad
Ai er gwerth cannerth cennad
Ai o'th fodd enw rhodd yn rhad
Ym ni chad yn rhad rhaid atteb eilwyd
Eiliw gwendon moreb
Nac er gwerth nac er nerth neb
Y gan hon etton atteb
Atteb dihareb hir orchwyl enaid
A ddywaid hawl-blaid hwyl
Ys addef feingan anwyl
A deu brâd goleu bryd gwyl
Ni'm bydd dydd llonydd a llun llary gwan-llaes
Ar llawr gwen llys Eittun
A minnau hydr yn anhun
Mau nwyf cur rwyf uch caer Run
Cymmered haeled hoyw-lun o'm dolur
Am dalu pwyth fy hun
Ar blaid glas glwys lawr Eittun
Ar blaid ei henaid ei hun
Ni'm gwnaeth gwayw alaeth gwiw eilun hyd hyn
Onid hon yw Eittun
Na chof na chawn arofun
Na chawdd uthr anawdd eithr un
Gwyddwn na haeddwn haddun hygerais
Hoyw gares yn Eittun
Gwyddai agwyddor anhun
Gweddaidd elynaidd wyl lun
Wythnos ymannos o'm anhun gyffro
Aeth etto wyth Eittun
Wyth atteb a aeth attun
Aethant dan gudd heb fudd fun
Aml drwy hiraeth ydd aethan
Ammod rwydd awydd awen
O'm genau eiriau eirian
Erddylad attad Eittun
Yt oedd cam llwrw cytgam llif
Nad anfonud hud hoyw-dwf
O Eittun gennad attaf
Hyd tra gaid enaid ynof
Dïau y cymmer nêr nêf
Y ddau enaid ddianaf
Enaid yw hirwen gennyf
Ar enaid a wyr ynof

Hoffder fydd doethder deithdud a ddvsger
I ddysgawdr ddywedyd
Ar goreu geirioel fynud
Y gein pwyll hydwyll a hud
Trwy hud bwyll astud a bell ystyr gwenn
Tu a'i gwan a'i hepgyr
Tro mwyfwy traha myfyr
Trech o dwyll no gwirbwyll gwyr
Gwyr nwyf gwir gannwyf gwawr gannwyll llethrid
A'm llithrawdd i'm gorphwyll
Deith wyl-boen dyn dethol-bwyll
Doethion mal deillion a dwyll
Twyll a symud pwyll pell ddefnydd meddwl
Mal dyn meddw diawdrydd
Hoen gwaedd grêg gwaneg gweunydd
Hun am neb un ym ni bydd
Cyntaf fu Addaf o ddyn
A morwyn wyl am aeron
A dau gymmar trydar trin
Y gelwid gofid gyfun
Un fu Addaf am afal
Ac Efa cyd bai goful
A roes oi merched fedel
I'w meibion doethion dethol
Yn ôl Addaf naf nwyf radd
Cyn cyfraith Pâb mai drabludd
Y gorug pawb ei garedd
A'i gares yn ddigerydd
Digerydd fydd rhydd rhwydd gael
Da y gwnaeth mai dai o'r dail
Deu-oed dan goed y dan goel
I minnau mi a'm anwyl
Gwylia bwyll hir-dwyll hwyr dwf
Golwg cyd modd dîoddef
Ac ynnill dysg ac ynnif
Ac antur bedd yn gyntaf

EDD.

G. D. T. ETTO I FERCH.

O L. E. D.

Nid lle ym geisiaw llasur brwyngur braw
Rhof a phryd alaw fal grwd wylais
Lluniaw tangnefedd llifran gwahan gwedd
Braint cyflafaredd cyflafuriais
Llidiawg fu genti llidiant rwyddiant ri
Beiddiaw ei henwi pan y henwais
Llithged breinged brwyn llaes firain forwyn
Llyma fy mawr gwyn nid am eurgais
Rhag lliw tonn ertrai mae fy llaw arnai
Rhai ai rhyfeddai na's rhwyfeddais
Llifiaw fy ngruddiau am lladd heb arfau
Minnau ei maddau ni's meddyliais
Yn y llun cyntaf o ddechrau gaeaf
Pan fydd anaraf tonn safaf sais
Yr unfed flwyddyn o oed a therfyn
Iawnder yw gofyn hynn a honnais
Ar ddēg rwymdeg rin trwy lid a gorddir
O oed y brenin breiniawg Cemmais
Yn llygrant i'm grann yn lle y gelwir llann
Yn llogawd fodfan hoedran hydrais
Yngheindref Aber angau draul lawer
Lle bu nêr nifer naf y gollais
Ynghymmwd pennaf Arllechwedd uchaf
Y dyn a garaf nis digerais
Yn seryddiaeth don yn Sir Gaernarfon
Lle bu ron dragon dreigiau Emreis
O mynnwn fy nghlwyf gan liw tonn wrth rwyf
Rwyf nid esgorwyf can dwys gerais
Er deugein swllt nôd o ysterlingod
Fynn anaes amyd[1] ai sommais
Ys gwyr fy nifa ys gwan ym adwna
Os gwenn ai gwada gwydn ydd holais
Mae ym fraw glywed gwybod a gweled
Carwed Ednyfed Ednowein Sais
Gwenn a hoyw yw hon gyfliw ertrai tonn
Pan fydd eglur fronn a llonn ei llais
A'i gwahodd yn faith i'r llys dyfrys daith
Cam ac anghyfraith gwaith gwythlawn drais
Fy nghwyn fu gynnau dy ladd heb arfau
A llafnau geiriau gwyrion llednais
Am llw be ith lleddid o gair llesmair llid
Yn fyw na'th welid edlid adlais
A byw ith welaf i bawb ytystaf
A brawd a archaf ac a erchais
Na ddilynwch dlawd ni ddilynwy wawd
Ar ec eur dafawd lliw eiry difais
Dedlis bed[2] yn haf didlawd ith welaf
Dadleu ni allaf ac ni ellais
A diallu wyf a deallwr clwyf
A diellfyd fwyf[3] can diellais
Dealled doethon dyfod dialon
O gwnaeth Pendragon drwg i Wrlais
Nid eilhaws dignaws dygnais ddawn dadlau
Ar ddyn didlawd cwrtais
No myned hwyrged hirgais
I Werddon o Fôn o fais

[1] *Neu*, mi. [2] *Neu*, bod. [3] *Neu*, nwyf.

The poems of Madog Dwygraig, which have been here omitted, illustrate in an extreme form the bardic vocabulary of satire and abuse, which was the counterpart of their vocabulary of eulogy. The two phases of this verse gave them great social influence in Wales, and after the loss of Welsh independence poetry tended to acquire side by side with an interest in nature (as in Dafydd ab Gwilym) a marked social character, and the zones where it flourished had generally each a social centre.

PRYDYDD BREUAN AI CANT I FAREDUDD.

O L. E. D.

Ardwyaf profas prifwawd nis cyll
Eurged rhaith yfed nid rhwyth efyll
Aerddrud aeth esgud wrth esgyll ongyr
Eryr rhodd bybyr mewn rhwydd bebyll
Gwr gwrawl fydd ef pan fo'n sefyll
Gwr gwawd llwydd gyllid gwaedliw gyllill
Gwr a ddaw oi law lafn estyll awch grai
O'i wanas difai win ystefyll
Nid gair anghyfan difan defyll
Nid gwr cyfagos gair cyfegyll
Nid gwerthfudd pwystudd pistyll gwin andawl
Nid gwarthfar f'antawl gwerthfawr fentyll
Glew llew llad merfyn is bryn bryd cyll
Gloyw deyrn cedyrn cadoedd a hyll
Glaif trabludd cystudd cestyll rhos helcud
Gludrwyddbair tradrud ruddbar tri-dryll
Un gynnyd beunydd gwinwydd gwyn wyll
Un profiad angad Eingl wyr a dyll
Un ddeddfau arfau o erfyll prydain
Yn rhyfedd Mechain a Rhys mechyll
Maredudd cydfudd cydfod a syll
Mawr adail cynnail cynnydd fferyll
Marannedd bonedd bennial ffyll gystlwn
Mur gwaywdwnn ysgwn ysgwyd wëyll
Rhag pob drwg amlwg amlaen drythyll
Rhwyg aerflawdd llwgrgawdd Lloegr-gad ddistyll
I noddi fy rhi rhwyf gwersyll pennaf
I'm naf a archaf er ei erchyll
Llawr ynys Derllys nid arlludd i'r byd
Bod yno ddadannudd
Llaw egored Faredudd
Llary ffysg un addysg a nûdd
Nûdd unfryd yngryd yngraid rhyfel trais
Traws ddeddfau mab Echel
Niferllwydd rhwydd rhôdd nis cel
Naf cerdd uchel cardd ochel
Ni ochel rhyfel rhwyf argae moliant
Bwrdd warrant beirdd warae
Torfoedd barch nid clod warchae
Tyrrwyn llyw mwyn y lle mae
Lle mae cadair gair gwrawr maeth ardwy
Maith eurdeml pob cerddawr
Anant mwyn arddunant mawr
Fewn ynys Derllys derllawr

LLAWR YNYS DERLLYS &c.

I TOMAS AP HOPCYN.

Y Proth ai Cant. O L. E. D.

Hoywlyw ryw ras rysedd edlym
Edlau cyflym coflyhr hylwydd
Coeth doeth Domas dymyr erddrym
Urddrad grym llym llaw Duw ai llwydd
Cyflwr gwr gwych gwledd medd mynych
Gwin hoyw edrych gwynn ehudrwydd
Cannawdd cennych arnaw llaw llych
Noddiau tlau clych eurwych arwydd
Arwyddion ion iawn ener diball
Dwbl cwbl cuall cyhoedd bensel
Abl digabl dawn doniawg ddeall
Deongl arall eryr digel
Yw ar bobloedd ac ar luoedd
A niferoeddd wiwnwyf uriel
Ior cenedloedd a golu doedd
Iawnrad torfoedd unrad derfel
Derfel sel sant saint ogyfarch
Gafael mawrbarch alarch eiliw
Gwawl mawl moliant mal dihafarch
Hoywfodd ar farch wedd llywarch wiw
Hil madfil mawr Hopcyn wyn wawr
Hael wrth gerddawr ffraeth ffaglawr ffriw
Wyr beirdd eurawr dros briaflawr
Yssig aesawr frwydr gatgawr friw
Briwgad rad rwysg rysgyr mordaf
Mawrdeg adaf ydyw Thomas
Beirddfyd bryd brwysg braisg rodd alaf
Eilun Addaf addysg melwas
Gorwyr geirwir Einiawn dawn dir
Mawr a gerrir mur gywiwras
Clau y clywir clod hynod hir
Cludnawd wawd wir cenir nid cas
Nid cas fas fodd fudd arddunant
Ddaniel rymiant rwymiad cyfraith
Nudd ffydd rydd rodd rwydd ogoniant
I gynnal cant cyntedd llys faith
Erglyw Arglwydd nef tref trawsglwydd
Ymyr madrwydd am wr mydriaith
Ehud syud swydd euraid arwydd
A hael hylwydd paun rhwydd pennrhaith
Penrhaith gwaith gwrdd gwyrdd ei roddion
Bwyddaf calon celi a'i nawdd
Penllad fad fydd feirdd whoddion
Hoywdda ddynion ddoniawg ansawdd
Lliw-lafn trafn traws lluoedd lliaws
Llyfr hoff unnaws llwyn y ffynnawdd
Bo hoywdro haws bellnot glod glaws
Lle ni bydd anaws llynn byddinawdd
Byddin drin draul drylwyn cadau

Cedyrn bleiddiau blodeu yn ryw
Dyn hy dan haul hylwydd gerddau
Gyrddaf gampau gwympaf gwr yw
Molawd ffawd ffydd mewn rhwyl mae'n rhydd
Mawl a'i cynnydd mal y cennyw
Irloes foes fydd ion awenydd
Hirawdl mal hydd helydd hoywlyw

DAFYDD Y COED I HOPCYN AP THOMAS.

O L. E. D.

ARGLWYDDIAIDD traidd tr6ydded g6yr Cymru
B6rdd cymr6ysg g6in yfed
Y6 Hopcyn hoy6 loy6 la6ged
Mab Thomas crair urddas crêd
Cred a 6yr yn ll6yr ym'hob llun o'r dawn
Aur dinag lorf cyfun
G6r yng'Hymru hy hoy6gun
Gof na6d aur ac ef nad un
Nid un lle6 modd gle6 medd glas a hepcyr
A Hopcyn fab Thomas
Da6n eur ddull nid un urddas
Nid un rym ac nid un ras
Grâf y6 mab Thomas me6n tymmyr ei dda6n
Ys o ddyn yng6hyr
A'i harf ym mr6ydr a'i heryr
A'i hen6 a'i pharch ai h6n pyrr
H6n pyrr g6yr g6hyr g6ay6 blaenaf ynghad
Ynghy6i6d6rn de6raf
Lyr nerth loy6 oreu naf
Lary g6rol a l6yr garaf
Ll6yr garaf naf na6 can-punt
Lle6 cyrchiad ar Eingl gadbont
Llyw Gwhyr gwell no gwyr Gwent
Lla6n orfl6ch ffl6ch ffloy6 aur brint
Llathr ben cun y dymuniant
A llath bla6dd holl l6yth Bleddynt
Ll6yth Bleddyn 6inllyn 6ynlly6 iôn eill-gad
Ynnill gerdd Hopcyn y6
Llyr harddrym ail llyry heirdd-ry6
Llary Gymro hir y bo by6
Nid by6 lly6 beilehry6 bylch-rondi-hepcor
Mal da Hopcyn ddragon
Ef y6 ystor cerddorion
O for Morgan6g hyd Fôn
Ef y6'r naf m6yaf a fag mäon byd
Bid a6dyr y Brython
Eurfeistr myna6g sercha6g son
Ior dethol ar y doethion
An6yd Nudd pryd Udd prydyddion a faeth
Ar faith heiliau trymion
Un adlam a Thalamon
Eneid-ly6 teg difreg dôn
Ar a6duriaid blaid blodau cofion mydr
Meidra6l Gymry gysson
O farn byd ia6n leindyd ion
Fur g6ay6rudd ef y6'r goron
Coron y6 Hopcyn cy6i6 ŵryd Cai
Ca6 fâb Erbin unbryd
Rheol g6indai rh6yl G6yndyd
Rhyla6n barch ar haelion byd
Byd doethder arfer eurfad ma6r e6ybr
Mi a ro6n fy llygad
Ma6l aur en6 mal yr ynad
Os dy6aid un is Du6 dad
Is du6 dad yn rhad ion rh6y aml-gylchlyn
I'6 galchlys ger Ta6y
O 6in ac aur en6 Gar6y
Ni roes neb fael 6yneb f6y
M6y a rydd cynnydd cynneddf g6a6r tr6yadl
No'r tri-hael i gerdda6r
Walch trahydr clud-fydr clodfa6r
Way6 ennyn aer yn un a6r
Yn un a6r hyfa6r ddihafarch hoy6bost
Deheubarth ben cyfarch
Ynad lle6ych por g6ych parch
Nid lla66ag un na6d Lly6arch
Na6d Lly6arch cludbarch clodbell cledd na6ddgâd
Coeth geiniad caith gymmell
Nen cedyrn anian Cadell
Naf balch ni 6nn 6alch ei 6ell
G6ell ymmhell dîell deyrn lla6ch-bobl r6ydd
Hyd yn nrhef Gonstinobl
Ail Elffin 6ay6 lli6 synobl
Y6 na neb am 6in a nobl
Ei noblau yn fau fy6 ddifri facc6y
Ai f6g c6rn a'i sendri
Ai gariad oreu g6i6ri
O'i ras mawr a roes imi
Mi a glodforaf feistr llys m6yeilch hael
G6nai helmau yn fri6deilch
Dros barch rhagora6l g6a6l g6eilch
Harddfur a'i wisgoedd heirddfeilch
Ei heirddfeilch 6isgoedd harddfoes y6'r g6aladr
G6el6yf idda6 hiroes
Ffyrf ia6n y6 me6n ffurf einioes
A phob da ai ra a roes
Rhoes ym ly6 hylym le6 helma6g ruthrdar6
Llary rygar6 llurya6g
Ei fedd a'i 6in ffyll drin ffa6g
Ai f6nai Hopcyn fyna6g
Myna6g Hopcyn lynn loy6glos
Mur heil-dd6bl ced-g6bl cad-gis
M6nai la6 mae yn ei lys
Eur ddar y Lucidarius

A'r greal ar yniales
A grym pob cyfraith a'i grâs
Y gras a gafas y g6r
A chlod teilyng-brif Ifor
G6yndodig fonheddig fur
G6inau did6yll feistr p6yll pêr
G6i6 ail G6alchmai ap G6yar
A g6ay6 a tharian G6yr
G6yr 6arant ffyniant ffin
Y gerdd tra f6yf fy6 y g6nn
G6a6r ma6r mad bedeircad ben
G6aladr cadr coeth y doethion
G6alch a gar argl6ydd a g6ann
G6yrdd a hepcyr g6rdd Hopcyn
G6rdd Hopcyn loy6-6ynn le6aidd lary gleindyd
G6r arfa6g yngryd 'n y byd n6y baidd
Fab Thomas falchras fylchraidd ynghamma6n
Fab Einia6n fyrddla6n drin greula6n draidd
T6r tir Ta6y rh6y rhiaidd rhugl ddidarf
Taer y6 aï ddurarf tyrau ddi6raidd
Tarian i'r hollwyr mewn anturiaidd grwydr
Wrth aros ym mr6ydr 6r Arthuraidd
Ceing hiraer orfod cynghoraidd nen gŵyr
Cy6iriaid eryr mygr car6raidd
Ca6r aesa6r g6a6r ma6r mireinaidd beilchry6
Car6 h6yrfar6 hir fy6 eurlli6 iarllaidd
Helmfellt lorf g6ay6ddellt g6rddaidd an6yd Ga6
Ha6l caerau ddiria6 hael cerdd6raidd
H6yl deil6ng brisgfl6ng breisgflaidd yn aergr6ybr
Hyl6ybr Uthr e6ybr ac athröaidd
G6ir 6yneb Cymry g6erinaidd fyrddau
A g6a6r y dëau a g6rdäaidd
Da lyfr y gyfraith dilyfraidd ynghad
A d6yfil ynad difileiniaidd
Di6edd6 olud ma6r di6yddelaidd ia6n
Da wedd aelaw ddawn dieiddilaidd
Doniawg calon hael dienciliaidd blaid
Digrinarf yn rhaid digrynŵraidd
Di6y6 aesa6r hydr 6r de6isaidd d6rdd
D6ys oesen6 ag6rdd disaesnigaidd
Difreg Hopcyn dêg didaiogaidd dwr
Da 6i6 uchel6r diachulaidd
A dlyeda6g ia6n a di6ladaidd ly6
A dy6ynnig y6 a de6iniaidd
Bri6 aerau a'i ron breyraidd ei radd
Byrdd-6in eu neuadd barddoniaidd
Bronn hynaif beilch-lin brenhinaidd erfai
Buan dd6ygamp Cai boneddigaidd
Por ior g6ineuddor G6yneddaidd eglur
Pur fur praff a6dur fer6 proff6ydaidd
Par br6ydr daer mael ael mil6riaidd 6aladr
Paun difygwl cadr pendefigaidd
Prvd berth certh taernerth teyrnaidd digabl
P6yntus6alch doethbabl parabl peraidd
Parottaf lle6naf lluniaidd helm ddurgaen
Peryf ragorflaen g6a6lch6aen g6alchaidd
En6a6g naf ffyrfaf ffurfaidd ll6yth Bleddyn
Yn ei lys 6inllyn ef ni fynn faidd
Eurgadr fu'ng6aladr engylaidd difrad6
Ion m6yn eiddun cad6 enmyneddaidd
Eryra6l Hopcyn ar6raidd diofn
Ior gloy6ddu eofn argl6yddiaidd
Argl6yddiaidd traidd &c.

DAFYDD Y COED I RUFFUDD AP LLEWELYN AP IEUAN O UCH-AERON.

O L. E. D.

CEREDIGIAWN walch balch bylchron
Cryfdrafn clodgar rhwysg barwn
Yw llathr Ruffudd law Nudd lan
Llew olwg fab Llywelyn
Llawch-lu eryr llewych lin
Llwyddiant holl wyrion Llowdden
Wyrion Llowdden ben beunydd y dyry
Yn dirion ail Mechydd
Aur i'r gler ger merwerydd
A medd gwledd gloyw fy hoyw hŷdd
Teyrnaidd lluniaidd llonydd a gloyw-deg
Yw Gwledig Mefenydd
Trech no'i gas fawr ei ras fydd
Trychdrin diawdwin dedwydd
Dedwydd dieiddil dilaes
Dynion gynnydd dawn gynnwys
Dewr cain gwell no thrugein sais
Diwg yw fydd deg ei foes
Ei foes yw rhoi 'bawb ei fudd
Ei feirdd cânt ei win a'i fedd
Ei fawl yng Hymry a fydd
Ei fyd a gaiff wrth ei fodd
Modd pablaf medd y bobloedd
Mil a'i gwyr mawl a gyrraedd
Mur iawn rym mewn mireinrwydd
Mynawg llaw eurawg llaryaidd
Llaryeiddfab arab eirian llaw olud
Llywelyn ap Ieuan
Llurygawg calonnawg glan
Llew trawsdeg unllid Trystan
Llid Trystan dewrder ner nerth
Yw Gruffudd Nudd naf di-swrth
Dihyball myn Duw hoywborth
Deheubarth feddbarth fuddbarch gyfoeth beirdd
Byrddau brwysglawn beunoeth
Dioer yw Gruffudd lyw loywgoeth
Drafn diddig di Seisnig doeth
Doeth ail Uthr gwayw-ruthr yn gywrain iawnfarch

O anfodd Eingl Llundain
I'r morfa coeth wrda cain
Eryrawl walch arwyrain
Arwyrain mirain morudd un urddas
Wŷn arddwrn plymlwyd-ludd
Eurgarw clodbell naw'ell Nudd
Aergyrf oreuffyrf Ruffudd
Gruffudd Nudd uddair grym llym llafn disglair
Gwynngrair hael myn Mair am y gwingrawn
Gyrfa mawrdda maith gyrrbrwydr dewrgrwydr daith
Gwyr distryw Einglgaith garw diestrawn
Gwawl hawl mawl mil-cant gwych llych llawch anant
Gwarant glud ffynniant eurglod ffynnawn
Hardd ffrwst wst wayw aestalch hydrdaer ar gaer galch
Hyn Llywelyn walch iôr coethfalch iawn
O werin lin lwys glod byw gwlad Bowys
Hael ynad gleifddwys o hil Einiawn
Emyr ail hail heirdd aml-ba da digeirdd
Emyn Cirig beirdd yw myn Carawn
A chel ferth nerth naid uch Aeron ron raid
Un cymmurth Lloegr-blaid yw iôn cammawn
Elw sal ail Selyf arf mael darf mawldyf
Eryraidd aergryf a rydd eur grawn
Ei fardd ryhardd ryw wyf tra fythwyf fyw
Fy llyw cymmen yw nid cam a wnawn
Arfaeth maeth maith ner aerfaidd rhaidd rhuddfer
Aur oleuged clêr ar ael eigiawn
Draig trin lynwin law dragon calon Caw
Drylliwr caer aelaw dreill-aer creulawn
Bugail cad mad mawr baedd gwnedd gwedd gwawr
Bryd uthr cadruthr cawr byrdd-lawr beirdd-lawn [sedd
Breyr gwyr myr medd brenhin gwin gwên
Bryd byd hyd hydrgledd mawredd Meiriawn
Balch gwalch gweilch loywnen barchus glod berchen
Budd ffrwyth llwyth Llawdden doeth ben y dawn
Braisg waisg wysg brwydr-dwrdd brys emys ymwrdd
Bwrdd ciried agwrdd Ceredigiawn
Ceredigiawn walch &c.

DAFYDD Y COED ETTO.

O L. E. D.

Cystuddfull bawddull baddwm y pechod
Yw'r mab bychan iad-lwm
Cest gawl garl fol tombarlwm
Gystegawr clawr amner clwm
Caeth arial-sur dwrch cythreul swm soegfa
Ci hir-bla cehyr-blwm
Collais o'i werngoffr offrwm
Cylla diawl mewn cenawl cwm
Calonfaen cyff graen caiff grwm ni hyrthgwymp
Mal hurthgen Siacc fâb Twm
Corph pydew trum Iddew trwm
Ci ŵyr cedi yw'r cidwm

Lle ni's gwneath o faeth fethiant ryff erioed
O rodiaw gwledydd hyff
Harddged oesgred heb ysgryff
Heirdd brydyddion prifion pryff
Llyma wneuthur pur pefr ysglyff ryged

O ragor geiriau cryff
Englyn o farn gwyr anghlyff
O ddau gwys nad gau ei gyff

Cafas Cadwgawn llawn llef
Llawer nos dig annigrif
Wrth din ci wrth dan calaf
Yn tynnu drwy wrysg o brysg bryf

Ffo a wna'r Bedo oer badell ddrewson
Ffed gweision ffad gyssellt
Ffugiol ei waith fal ffagl o wellt
Ffiloreg ffleiryn
Ffosydd fydd fawddyn
Ffod anglod englyn bawyn Buellt

DAFYDD Y COED AI CANT.

I Ieuan Llwyd ap Ieuan ap Gruffudd Foel o Ogerddan. O L. E. D.

Ieuan Llwyd eirian llew dewredd
Yng'winllys o'i emys ni ommedd
Brŷd uthr ddrud em golud amgeledd
Baedd brwydrchwant falch fwyniant feilch fonedd
Braisg hir-laif bron hynaif brenhinedd
Rhull Garwy rhaid gofwy rhâd gyfedd
Rhwyll Arthur rhwydd lwysfudd rhodd lâs-fedd
Hail fyrddged hawl gwared hwyl gwiredd
Hardd gariad Cai oesgad Caw osgedd
Hil Einiawn glud uniawn glêd annedd
Fab Gwallter ni fylcher ei falchedd
Croyw Rydderch Pâb geirferch pob gorsedd
Cryf Selyf gwiw hoyw-dyf gyhydedd

Crair geirgall dda ddyall ddi-ddyedd
Credigiawn ail Meiriawn elw mawredd
Enw clodfawr un aesawr ynysedd
Dilaesdof da lwysgof dilesgedd
Drud ddurnawd mael ddignawd mawl ddognedd
Drafn aml-blaid mawr-enaid marannedd
Draws gyngrair anghabl-air ynghwbledd
Dur friw fron annhirion yn nhaeredd
Dull Bedwyr deg eryr digaredd
Dwf Rolant enw mwyniant anmynedd
Dewr gynnwrf câd ymyl-wrdd ced amledd
Diruthr darf mur durarf mawr diredd
Udd gampau iôn rhadau anrhydedd
Anwyd clyr anghysur ynghasedd
Gwawr faelewr gwir filwr gorfoledd
Glan eryr eur-clerwyr wr claerwedd
Glynn Aeron da ddragon diddrygedd
Gwyr Rydderch enaid-serch anwydsedd
Ein heuraw a'n hurddaw enw harddedd
A'n dysgu nid ysgyg o'i drosedd
A'n puraw a'n breisgaw i'n brwysgedd
Aig eur-barch ac arbed pob salwedd
O'i giried ac euraw trychan-wledd
Ac eiriach rygaru dim serthedd
O'i gyrbwyll ac erbyn clêr wynedd
Ac arail y geiriau cymrodedd
Ac aros mal Geraint yngwnedd
A gorfod ac aerfin fflam ddurgledd

DAFYDD Y COED I RAYADR GWY.

O L. E. D.

Rhaeadr oergri cadr a'r crwcedau bach
Bychain geiniawg werthau
Rhugl ffugl ffagl magl mwygl refrau
Rheglwern i gwm Uffern gau
Cau gosostig dig dygn gyrbwyll asgen
Du gynnen diganwyll
Caeth Raeadr ddiwaladr-bwyll
Clafres bres taeoges twyll
Twyll dwng rwng duslwng diflas lle ceusoeg
Lle ceisiwyd fy llëas
Trist chwedl blin doed i'r dinas
Tanfflam drwy Raeadr Gwy gas
Cas yw anghadr Raiadran
Casaf unhwch trwch lwch lun
Cas drachus-ffrom sawr tom tin
Cas cas cas cas cas cas cwn
Cas digarw i'm cystegiyn
Cwys dewgur i'r costogion

ENGLYN I DD. Y COED.

O L. E. D.

Dafydd y coed hoed hydr sant
Dyn wyt cerddlawn radlawn rent
Ffo'r bore o'r brithle brwnt
Ffi 'Lanymddyfri ddu front

ENGLYNION YN Y MABINOGION.

O L. E. D.

Clywais aran a lefai ym mhwll
Ym mhell oddiwrth dai
Ar na wrandawer tawai
Ys id yn y boly hwn blawd
Ceiniaid cynnifiaid disgynnaid yn nhrin
Rhag cadwyr cad barawd

Pan aeth Bendigeidran ap Llyr i Iwerddon i ddial sarhaed ei chwaer Branwen yr heddychodd a'r Gwyddelod a rhan o'r heddwch oedd iddynt wneuthur iddaw dy y gannai ynddo can nas gannasai mewn ty erioed. A'r ty a a deilwyd ar gant colofn ac ystryw a wnaeth y Gwyddyl dodi gwanas o bob parth i bob colofn a dodi boly croen ar bob gwanas a gwr arfog ynto. Yna y daeth Efnysien brawd unfam i Fendigeidran i edrych y ty o flaen ei frawd a'i lu a gofyn i'r Gwyddyl beth oedd yn y boly. Blawd eb hwythau. Yna y gwasgai Efnysion a'i law ben pob un o'r gwŷr trwy'r boly nes eu lladd ac yna y canai yr Englyn uchod.

TRAHAIARN BRYDYDD MAWR AI CANT.

I Hywel o Landdingad yn Ystrad Tywi 1350. O L. E. D.

Diofryd dor gryd grym arwyriaith
Dewr Howel ddigel ddygn o dreiswaith
Draig balchlyw canllyw cunllaith Gelynion
Dragon gan gofion gwn gwyn gyfiaith
Gweled ar giwed eur argywaith
Gwedi gwalch rhoddiad gad gedymdaith
Gwaed reieidr beleidr heb olaith yngryd
Gwae fy mryd ym myd fy mod noswaith
Llettawd greddf bythawd gruddfan hyd beith
Llastr gwyn gwenwyn dirrwyn dyrraith
Llafar llu daffar lle diffaith heb ri
Llawr Tywi tewi llwrw nad hywaith
Llinon ysgyrion llew aes gwyriaith
Llefain ac ubain am ddwyn gobaith
Llugyrn braisg deyrn brwysg daith morgymlawdd
Llwybr sawdd Lloegr-dorf gawdd llwgr dwrf goddaith

Lleon ddewrder ffer ffwyr annorraith
Llam drin breenhin Brynaich angraith[1]
Llwyth Tewdwr tresiwr trisaith brenhiniaith
Llary llawffraeth bennaeth feirddfaeth fwrddfaith
Llid anian dylan tarian teiriaith
Llaw rudd-lein ysgain ar wain eur waith
Llew prudd ced ddiludd cad ddylaith Caeaw
Llawr llwyrfraw lludwaw llid llyr llediaith
Pwyll Cai pyll Myddfai par pall meddfaith
Pyrth pybl-fag ddinag ddawn ganhymdaith
Por gryd lles esbyd llys oesbaith nad byw
Par glyw digabl ryw deheu gwbl raith
Parhawd molawd mil ossymdaith
Paun gwyr mawr eryr o'm aur araith
Prudd budd udd diludd oedd dalaith trydar
Par galon esgar gelyn oesgaith
Bid iddaw anaw ynad cyfraith
Baradwys tadwys tud pob gwyniaith
Parawd rodd unrhodd anrhaith ni dderfydd
Cerennydd perydd purffydd perffaith
Duw ddewin brenhin breiniawl neirthiad
Doethfab Mair a bair oi bur gennad
Dawn hysbys dyfrys difrad gerennydd
Ei brif awenydd herwydd hirwad
Gan wyrion haelion hwyl ddigranniad
Arf creulwan cammawn Einiawn ynad
Ardal aur bennal erbyniad anant
Ardeml blant moliant miloedd borthiad
Ni wadaf barnaf can wyf beirniad
Na waisg ar glod braisg brwysg ddychaniad
Ac ymhlith ynrhith anrheithiad ni'm ceir
Heb grair dilesgair[2] ac offeiriad
Cywyr wyf haeddwyf heddwch arad
Cyffredinrodd bodd byddin gyrchiad
O bwyll mur didwyll mawr dad didramgwydd
Arglwydd culwydd rhwydd rhwyf goleuad
Anfonaf traethaf treth o gariad
Eur chwedl i'm cenedl canon brydiad
Awen yn llawen rhac lliwiad celwydd
Nis bwyf goll gynnydd gan gall gennad
Eisiau synhwyrau mydr eiriau mad
Oedd imi golli gwesti gwastad
Peiriau ffrwyth wleddau ffraeth wlad pêr heilgyrn
Pyr lafnau erddyrn pyst cedyrn câd
Gwae biau maddau medd a gwinllad
Gwerinoedd llysoedd llês pob eirchiad
Gwahoddion rhwyddion a roddiad dreigiau
Gwiw gawadau tau Tywi ystrad
Da gyfoeth peunoeth poen ymbwyad
A golleis i drais drosedd ffysgiad
A gallu ceinllu canllaw had Merfyn
Ac ysgeir-loyw lynn ac ysgarlad
Gwir folir yn hir gywir gawad

[1]*Neu*, annraith. [2]*Neu*, dilestalr,

Gweich hirfryn terfyn torf gymmynad
Gwaed werin o lin lleiddiad am eryr
Gwyr bleiniad ongyr o blwyf Dingad

TERFYN.

TRAHAEARN BRYDYDD MAWR A'I CANT.

I GADWGAWN[1] A'I DDAW AC Y LLOSGES EI DY Y CALAN NESAF WEDI EI DDYCHANU NOS NADOLIG AC Y LLAS EI DAW. O L. E. D.

TRALLAWN Gadwgawn gyd ogan a'i ferch
A'i farch ddaw grabidan
Angall a nifer mall man
Ar gronwledd fuchedd fechan
A gwilio fawdro ef oedd fwdran llynn
Llan Gynawg fab Brychan
Mudfa oedd dda dduw Calan
Lle y bai llanw ei dai o dan
Ulldach ewingrach ei wan a rhudd-gledd
Oedd rwydd glod gyflafan
Alltud secreulyd succan
Ail breiniad albrwn gwlad gwlan
A chynnheig-nest gest gwst ogan celfi
A'i rhagci'n ei rhoccian
Gwys arnai nid bai bychan
Gweision a chleifion achlan
Ar offeiriad brad braint llawchwethan brwnt
Maint[2] cadfarch lefhrchan[3]
Nid gweddaidd blaidd bloedd cigfran
Nid iaith o geiniaith a gan

ENGLYNION

A GANT GORONWY GYRRIOG. I WENHWYFAR FERCH MADAWG GWRAIG HOWEL AP TUDUR. O L. E. D.

RHOED llen gudd uwch grudd greddf drais
Rhiain barabl groyw loyw lwys
Rhyfyr ir byd hyd ei hoes
Rhwym caen llenn faen yn Llan-faes
Llanfaes fann uch marian môr
A gudd Gwen hoywfudd hwyfar
Lletty saint a braint brodyr
Llawr-gudd-fun llwyr-gawdd hun hir
Hir yw ynof cof cyffro
Herwydd trais Dofydd trosti
Hawdd ym urddawdd a mawr-dda
Hael hoendeg liw haul hundy
Dy hir hun-dy gwedi gwedd

[1]*Neu*, Cadwgan Ficar. [2]*Neu*, maint.
[3]*Neu*, lewhrchan.

A phryd a guddiwyd a phridd
Dygn gofion rianon rodd
Digofaint bun deg ufydd
Ei llu fydddawd ceudawd cof
I hardd Wenhwyfar araf
Bun deg o bwyll didwyll dwf
A'i haelder a dal ner nef
Rhen nef rhan ofid ddygngoll
Ei hun bun byd ni's ynnill
Rhoed llawr ar lloer hardded hyll
Ni rodded llawr ar wawr well
Gwell fu bwyll ganwyll gwenwyn
Gwenhwyfar haul daear hoen
Gorchudd gwawr yw llenn fawr faen
Garw chwedl iw chenedl ei chwyn
Mawr o gwyn dwyn dinag rodd
Merch Fadawg rieddawg radd
Gro heddiw maenwiw a'i medd
A gra a wisgawdd ei grudd
Rhoed lenn gudd &c.

SEFNYN A'I CANT I ANGHARAD.

O L. E. D.

Bryd olud byd o bydd mawr dodaf
Brysiaf lle ygwelaf brys llu gweilydd
Braint nef hun adref hoyw fad rydd y caid
Breiniawl hawl henblaid gannaid gynnydd
Braisg addurn difurn neud ufydd arber
Brenhines haelder gloywder gwledydd
Brwysg fyddaf od af y dydd i'm gwelo
Bro aml yw yno ym lawenydd
Prydiaf a lluniaf o'i llonydd-falchdud
Paraw aelaw olud or sud y sydd
Perddadsain coelfain celfydd lafarwawd
Parawd berth dafawd gan borth Dofydd
Prif degwch dilwch eiry dolydd cynglaw
Praw nwyf gyrf anaw nid gorfynydd
Priawd oleu wawd eilewydd hyfryd
Pryd gem ar ddeufyd gynnar Ddafydd
Gwawr gerddgar hwyrwar herwydd addnabod
Gorfod ar hoywglod gwiw ei rheglydd
Gorhoffder llawer medd llywydd cerddau
Geiriau aml fwriau ymleferydd
Gwir gymmwyll ei phwyll ai ffydd
Gorau ffurf brodiau gan ffyrf brydydd
Gwared yw rwydded y rhydd o'i gwydrin
Gwin o'r llaw iessin i'r lliossydd
Rhagores cares cerydd ni haeddai
Rhai a'i rhyfolai llawr hufelydd
Rhag braint merch wynddaint wenddydd wybodau
O'r môr bu golau mawr bwygilydd
Rhoddiad Angharad yngneirydd gwyngalch
Rhieddawg dremwalch wyl falch elfydd
Rhiain loyw firain leferydd gwastad
Rhad hylwys blaniad haul ysblennydd

DIWEDD.

SEFNYN AI CANT I LYWELYN.

O L. E. D.

Crist celi poed mi o'm meithfaint synwyr
Ai synniwy cyn henaint
Crist creawdr llywiawdr llwrw saint
Cred crefydd celfydd cywraint
Nid cywraint i neb cywryssedd a'm rhwyf
Yn rhyfyg gwythlonedd
Tud glyw tir Mynyw neus medd
Twr torfoedd terfyn Gwynedd
Gwynedd yn rhyfedd yn rhyswriaeth glyw
A glywant men ydd aeth
Mal torf nyw terfysg alaeth
Mal tonn trais trodlonn tros traeth
Traethaf canmolaf canmil gwyr ysgwn
Hawdd esgyn eu heryr
Calchdoed saith rifed sŷr
Cylch fy rhwyf yn ei rechdyr
Rhechdyr croes Oswallt crysiasant am ddraig
Aml ddragon pedryddant
Gwyr gortho bro bryn a phant
Gwir Cymry cymmellasant
Pebylliwys rhywr rhywodig lluoedd
Llywelyn waith undig[1]
Ym mro Lloegrwys diffwys dig
Ym mryn gwyth yn Amwythig
Amwythig wledig wlad anhydr ei braint
Am Udd braisg ni chyhydr
Uch uch y dydd herwydd hydr
Yssig ddydd oswydd oeswydr
Godrais a laddawdd o lu trychiad Lloegr
Llywelyn ar honnaid
A'i bobloedd cyhoedd cydnaid
A'i byll a'i bebyll ni baid
Pebyll Llywelyn lle cad a weled
Yn oleu arthawad
Yn lludwaw llidwm yn rhad
Yn llu gorfeddu gorwlad
Pebylliwys fy llyw yn llu hyfryd praff
Ar pryffwn o Wynedd
Gorthöai drai draws a hyd
Gorthir y gelwir gerwryd
Pebylliwys fy rhwyf yn rhwyd gwrdd gynnygn
Gwyr gynnif ym mhlymnwyd
Yngwendud glud yd glywyd
Yngwenwen befr bell o Glwyd

Pebylliwys teyrn tew arnad ei henw
Ef henyw o gan-câd
Llyw Gwynedd gwynfydig wlad
Llwyth lleudir ystwyth ystrad
Yn ystrad Meurig anystywell lu
Oddi am lyw bro hiriell

[*Diwedd yr Awdyl, mewn hen lyfyr, y sydd yn canlyn megys y darn olaf o Awdyl gan* GYNDDELW, *yn dechreu*—"Ym maes brynn Actun."]

Ni safai rhag dim rhwych pell
Nac aer na chaer na chastell
Pedwar castell poeth paith ryfig ystwyth
Oddi am ystrad Meurig
Clwyf uswydd nid plydd neud plyg
Clod gyhoedd caeroedd cerryg
Cerrynt a ddugam ni ddygerdd eraill
Ar allt mor a'i ogerdd
Pebyllfa pair cyfa cerdd
Pennal dir engir angerdd
Engiriawl rubeth am rybydd angerdd
Ar gerdd gerdd Geirionnydd
Dybuant dybyddawd fydd
Dywalwern drywern drefydd
Tremynws rhyswr rhosedd ddiabred
Am ddiebryd Gwynedd
Lloegr gychwyn a'i mynn a'i mêdd
Llywelyn llyw teyrnedd
Teyrndud Leisiawn ac Alaswy dir
I deyrn Deganwy
Cam i'r Cymro ni hoffwy
Cynnif Cadwallawn nid mwy
Pebylliwys fy llyw yn Llyssyn drefad
Am drefred Wenwynwyn
Clawr Powys peues Unbyn
Canmil canmoles Duw hyn
Pebyll Llywelyn pawb etwa a'i gwyl
Fal y gwelsawchwi yma
Ynghaer yngharreg Hofa
Ynghaerfyrddin fyrddoedd bla
Pla oedd ar gyhoedd ar gytgam cynnygn
Eu cynnif ry wnaetham
Arthur gynt ffwyr luchynt fflam
A'i ceisiai fal y cawsam
Cawsam ar Bowys beues goeth gestyll
Eu gostwng oedd anoeth
Tri tryfan cyfan cyfoeth
Pedwar enwawg peithiawg poeth
Peth o'i ddylyed gan ddylyu braint
Bro Feli ai meddu
Cafas cyn lleas canllu
Ceisied pen tudwed pob tu
Tuedd a thiredd a thi neud hafal
Neud hyfawl dy westi
Ehang yw ytt rydid ri
Ehofn a golofn geli
Crist celi &c.

SEFNYN ETTO. MARWNAD IORWERTH GYRRIAWG.

O L. E. D.

MYGR-DDUW hardd mae bardd balchffawd cyfannedd
Mewn bedd modd buchedd maddau ei bechawd
Moes râs molt pariad parawd ddigrifiaith
Maith mawrddwyn gwindaith Myrddin geudawd
Maccwy mau fordwy myfyrdawd garwfloedd
Mad oedd mau wisgoedd mwrai wasgawd
Medd cyhoedd miloedd molawd Aneurin
Maer gwin mur gwerin Mair a'i gwarawd
Dysgais gur dwysgur nid ysgawd terfysg
Dysg dyrrwyf addysg diryfeddawd
Dygnaf Duw eurnaf diwarnawd dygnddu
Fu ddoe gan dri llu ddogn o drallawd
Dwyn eurwas difas defawd diweccry
I dy dirwely daear waelawd
Diaingc tros fawrgaingc fargawd grudd prydydd
Deigr rhydd diefrydd dau auafrawd
Gwiw fydd ger broydd i briawd deigr gost
Garw ffrost gan gwaedd-dost gwynaw gweddwdawd
Gwneynt draw gwarandaw gwr undawd feddgyrn
Gar chwyrn ger tefyrn goreu tafawd
Gwae nifer glewder gloywddefawd pobloedd
Draws fywyd oesoedd dros fedyssawd
Cafas cwbl urddas rhag cabl orddawd hawdd
Cawdd cain ymadrawdd cyn no medrawd
Cyfiawn cathl fawrddawn farddawd diletpai
Cof rhai ced ddifai cadw addefawd
Ceingau coeth ddadleu caith ddidlawd ddarmerth
Cyngerth cwyn Iorwerth canon eurwawd
Cuddiawd llawr cwymp mawr am arawd gwyrain
Cor saint corff haeddfraint cywyr ffyddfrawd

Brawd ffydd pob prydydd pab priodawr gwawd
Gwydn yn fyw bedeirawr
Bod ar Iorwerth gerth gerddawr
Byddar gudd bedd lliwrudd llawr
Llawr du oer yw llai'r dëall
Lletty Iorwerth ddawnferth ddull
A garwbwys cwynfain geirwbell
Ac irbwynt derw ac oerbwll
Pwll a gudd ei rudd o rif pencerddiaid
Gwlad gannaid glod gynnif
Pawb a'i gwyl llyd dyn fyl llif
Pelled deigr pyllaid digrif
Digrifwch diau grefydd
Dwy grefft bardd urddedig-rodd

Doded yn gaeth doe dan gudd
Dogn trafael dig nid rhyfedd
Nid rhyfedd trosedd traserch trais galar
Tros golofn cerdd brydferth
A marw ein bardd mawr enw berth
Ym arwain deigr am Iorŵerth
Eurawdd Iorwerth geinferth gân
Erllynedd gwir gyfedd gwin
Arawd têg o orau tôn
O rodd Duw a eurawdd dŷn
Dyn doethbwyll didwyll dodais floedd gyngerth
Dwyn Iorwerth lwysferth lais
Araf i dref oer fu drais
I waelawd llawr a welais
Gwelais am fardd hardd hylithr
Gwedi darllain gwawd eurlythr
Baradwyswaith berw disathr
Bridd a derw breuddwyd aruthr
Aruthr alaeth ruthr o lithraw prophwydi[1]
Meddyliwyd modd wyliaw
Dinidr dagrau am danaw
Defni glud deufwy no glaw
Glaw bryd wylaw brad alar
Gloywon ddagrau a glywir
Nychwyd anafwyd nifer
Na chawn ragorddawn gerddor
Da gerddwr hawlwr haelion a guddiwyd
Gwyddiad ffyrf amryson
Dafodiawg beirdd difudion
Didlawd traws fwynwawd tros Fôn
Gwae ger Môn o feirddion fyrdd
Gwisgaw o gorph gwisgi gerdd
Gwead diffest gwawd hyffordd
Gwasg llawr gwaisg gerddawr gwisg hardd

TERFYN.

IORWERTH AP Y KYRRIAWG I FERCH.

O L. E. D.

Mi a baraf i ddyn araf
Or a garaf ryw ogerydd
Am foniwaw wyf fron friwaw
A'm diliwaw ym duw lywydd
Mae dy warant mawr dy farant
Mewynfeilch garant maenfylch geurydd
I lyfasu fy lliw lasu
A'm lliasu em lliosydd
Gwant fi'n druan gwayw nwyf buan
Gwynder huan gwindai rhydd
Gwen addwynaf gwyd ddirwynaf
Gwedd gain gwynaf gwedd gwawn gweunydd
Gwn na'm cery gwan y'm pery

[1] *Neu*, proffwyd.

Gwas a'th ery gwys ith ddyrydd
Gwawd foliannus gwaith lwyddianus
Gwae dygianus gwiw dy gynnydd
Heais eiriau haul cadeiriau
Hafal creiriau hyfawl croywrydd
Hyn a wneddyw yt y deddyw
Gair yt eddyw gorwyt hoywddydd
Yt feidduned wyt ddamuned
Eilwedd luned wylweddw lonydd
Uthr ddoluriais oth serch curiais
A llafuriais fy lleferydd[1]
Llywiaf awen llwybr per awen
Efa lawen yw feilewydd
Lleddf eaglynion llyw rhos gwynion
Lloer morynion llawr Meirionydd
Gwawr ddydd Meirionydd mawr anawdd
I'm nwyf gwyn bryd nyf cyn dattawdd
Gwyd a gofal am talawdd
Gwawn lliw och heddiw o'i chawdd

ENGLYNION

A Gant Llywarch y Nam. i Lywelyn fab Madawg mab Mareddudd. O L. E. D.

Neud mau melynddwn
Orchfain cyngrwn
Ceirw cyd bai ef ni roddwn
Bodd bryd ar ei hyd yw hwn
Fal y cefais y ceisiwn
Goddeu budd gwyddiad fy lles
Gwyddant negyf gant neges
Ni aill gwaedd awel goddiwes
Llyfn gwn Llywelyn ai rhoddes
Or dyfyddi syth ar faith dremyn hwyr
Lwyr Loegr gymmyn
Annerch er Du ac er dŷn
Y gan Lywarch Lywelyn

I HOPCYN THOMAS.

Iorwerth Llwyd ap y Gargam ai Cant. O L. E. D.

Hawdd fyd im por parawd foliant
Filwr dyfiant difeth frwydrgledd
Hylwydd Hopcyn hylwybr ganlyn
Heirdd a'i gofyn hirdda gyfedd
Hael fab Thomas teml gwynedd seirdd
Fyrddau digeirdd degan o wedd
Hyder Rolant heirddgler fabsant
Hael ogoniant hoywlew gwnedd
Hil i Einiawn ener Cymry
Cymro trahy trwyadl fonedd
Hyawdl doethfin hofion Myrddin

[1] *Neu*, llyferydd.

Heiliai rawnwin hael o rinwedd
Hopcyn glaerwyn glerwyr frenin
Freiniau Elffin wylffawdd gloywedd
Hoedl hir iddaw hwylddawr fâb Caw
Hydr yn llywiaw llin teyrnedd
Heafi fawl filwr aerau
Yr ein rheidiau ar anrhydedd
Hwyl Peredur hebawg gleis ddur
Hoywdeg eglur hyd y gogledd
Hopcyn arglwydd eurglod warant
Wiwri anant wawr rhianedd
Hydr arglwyddlyw hir y bo byw
Hael o wiwryw hyloyw wiredd
Llewpart y gwyr gwyarliw lafn
Liaws hoyw drafn hydrum osgedd
Llafn ymmrwydrgad llyr undrwsiad
Llywiwr gwenwlad llawhir gwinwledd
Llorf deheubarth hybarch freyr
Freiniau bedwyr byd orfoledd
Lluniaf glod gwalch llyw llys gaergalch
Llew dewr hoywfalch lle diryfedd
Lleyg yw pawb pybyrlew gwyn
Gwir wrth Hopcyn hepcyr ganwedd
Llwyr wybodau llen a llyfrau
Llawr y deheu ai llwyr duedd
Llidiawg wrth frwydr friwdorf aergad
Eurgarw gwenrad gwynrwydd elifedd
Llorf cleddyf hir lleon falchedd
Llathr y cynnail cannyn beunydd
Bennaeth dedwydd didwyll wyledd
Lliaws barlmant llonydd anant
Llyr ddigoniant llwyr ddigonedd
Dyly foliant filwr unfraint
Iawn fryd Geraint gwrawl ryssedd
Dihagr drwsiad doctor cerddfad
Deheu fwriad dioferedd
Dydd da iddaw addas gariad
Wawr ei hoyw-wlad wiwri hywledd
Darian gwyr degan clerwyr
Doethder eryr ar gymrodedd
Dysgawdd lyfrau loywfraint dowuus
Lucidarws lwys ei daerwedd
Cor holl Gymry diwael haelhy
Da yw ymy a diomedd
Dygaf ei glod gloywdwr hyder
Hoywder ener hyd ar wynedd
Dyly amlwawd dewin dafawd
Dewr da hyffawd dewr dihoffed
Difefl bennaeth bumoedd roddi
Rwysg mab Beli baladr dewredd
Dor tariandalch digrif dremwalch
Dewr a haelfalch dyry heilfedd
Duw a'i rhoddo rhwydd hyawdlfryd
Hoedl ac iechyd gwychaf orsedd
Da y hadwaen deyrn chwyrn chwaen
Drech enw ymlaen drychan mlynedd

TERFYN.

MEURUG AP IORWERTH AI CANT I HOPCYN AP THOMAS.

O L. E. D.

DIGABL wr y dwg ei blaid
Dor dursaf dewr diarswyd
Difai rad da fu erioed
Diornwalch o deyrnwaed
Teyrn hil cedyrn cydwiw faedd gwawr brwydr
Briwdon wayw ar aesawr
Teml beirdd byd bryd briodawr
Tad y gerddwriaeth fad fawr
Mawr Hopcyn aer-gryn eurgrair pwyllig teml
Fab Tomas wyndodig
Braint gwyr yw llyw llyssig
Baredur ddysg mewn brwydr ddig
Eryr uchelwyr diochelwig hael
Hylathr farn gadwedig
Breiniawl hawl hoywlys diddig
Braisg fyfyrdawd fragawd frig
Dragywydd y bydd barnedig mawl sail
Mal Selyf wynfydig
Ei drwydded bendigedig
A'i dra myfyrdawd a drig
Myfyrdawd ceudawd cerdd blethedig
Mawrfawl swllt didawl cyssylltedig
Modur maith awdur nid methedig
Mal gwasgarfudd Nudd nyw roi'n oddig
Mur gwayw-ddur gwiwddoeth coeth catholig fryd
A —— mawrwell no dyn byd hyd ym Merwig
Synwyr a orug alwyssennig
Sef ydyw naid syw yn safedig
Syth wrth syth trasyth ac arf treisig
Serth lorf doeth loywdorf detholedig
Selyf un-nawd wawd Wyndodig brofiant
Sant swydd a alwant y sydd elwig
Hopcyn iôr gwinllyn gwenllys foesig
Hopcyn wynn wanar trawsdar treisdig
Hopcyn ail Merfyn mawrfar pwyllig
Hopcyn harddwyn hyd deufryd Dyfrig
Hopcyn yn dylyn Nadolig beunoeth
Hopcyn eirgoeth doeth wrth ymdeithig
Hylym arf yngryd fal hwyl amig
Hoyw olud addef hwylau diddig
Heliwr aer friwdwr arferedig
Hael o wir anian hawl wyrennig
Heilwin da wydrin diodrig cadarn
A heiliau masarn wr helm ysig
A gair yn ei lys ym delw Gwrig
A gwraidd ydyw ac urddedig
Y gler a a nifer nefol leithig
A glân a difan yw'r peudefig
A gloywdeg synwyr dirgeledig iawn
A gwinfwrdd yn llawn i bellenig
I Arthur loyw deml wrth aur wledig

A'i lwysgall awen lys Gelliwig
Ein Udd o fwy fudd a fu feddig
I dlodion ddynion a ddywynnig
I Feda a Chadw gynnefodig iôn
Am ei attebion y mae tebig
Caeth awdur mesur moeseu Ffrengig
Caith ostyngiad mad yn rhwymedig
Cystal ac Eidal yw neud cedig
Costiad ddyfodiad addefedig
Cymmaint yw ei fraint fro ni ddiffig nawdd
Ar mwyaf yn hawdd o fonheddig
Clau aergarw trafel cler gartrefig
Clywed ein awdur clod enwedig
Cedlym cleulafn grym greddf ffynnedig
Clwyf rhôn a'r dynion a'r diennig
Calander masw ener a miwsig beirddion
Coron y doethion tra dwythedig
Cymro ydyw ef cymmeredig
Cyfraith erbyniaith wr arbennig
Camber rymuster o rwym ystig
Calon ein brudion yn buredig
Cwyn a mil adar canmoledig hail
Cai ail a gynnail ac a gynnig
Cwrseriaid euraid eirf bedestrig
A chadoedd emys nyd ychydig
Cyfoethawg lludwawg nid colledig
Cadr-lyw yw uniawn dawn diunig
Cerddau mwy radau mawredig a fedd
Cwbl awdur mawredd nid cabledig
Digabl wr &c.

MARWNAD GRONWY DDU AP TUDUR AP HEILYN.

O L. E. D.

Da lafurfa dawn ni dychia dyn o'i deched
Nac oi gynnydd nac oi grefydd nac oi gryfed
Nac oi fawredd nac oi fonedd nac o'i fwyned
Nac oi gadair oi gydarnair ei gaderned
Ac nad arfaidd neb ei ddiwraidd rhag ei ddewred
Cyd cawn ddynion ymadroddion ymadrwydded
Henym o dwyll daear orffwyll dioer arffed
Hen a ofal prudd y dial pridd ein dued
Ponid rhyfedd rhag dialedd ein dielwed
Nad ystyriwn oni faglwn o haid[1] fygled
Nad oes o ddyn daear dyddyn duoer dudded
Ond tywarchen dymig bruddlem domog briddled
O weddiaw a modd wylaw pawb meddylied
Ydaw angau dan gau beddau dyn gwybydded

[1]*Neu*, hain.

O du'r elor i dir mynor mad yr myned
Och nad ystyr y dialwyr eu dielwed
Doe'n cyhuddaw heddiw'n treisiaw hawdd i'n trosed
Heddiw'n ddidraink heddiw'n ieuainge heddiw'n neued
Heddiw'n feilchion a doe gysson ni dangosed
Ac afory pridd yw'n gwely prudd yw'n gweled
Duw dwywawl naf dig a ganaf Duw gogoned
Rhag diawl elyn Duw an herbyn Duw an harbed
Duw gwir arglwydd diau gulwydd diogeled
Doniawg fab Mair dawn yw ei grair i ddwyn ei gred
Dug Pharaon y dyniadon y dan noded
Dug nefawl ddraig gair gofanaig gwr gofuned
Holl bobl yr Aipht o fawr angraifft o ferangred
Felly Duw ren da offeren ni ddiffered
O ball heiniau o daw angau i'n dianged
Un Duw doniawg tri trugarawg i'n trugared
Trugaredd fab Mair ytt roi gwared coeth
Rhag caeth bobl geithiwed
I'n rhoes ar loes groes greuled
Ar grog er dwyn pobl or gred
Credaf y dodaf ein dwyn cyddyn[1] prudd
I'n pridd wely ———— Dyn
Mor wir y daw dir derfyn
Mor ddielw dy myn delw dyn

GRONW DDU AI CANT.

GORONWY DDU I FERCH.

O L. E. D.

Goror maendór góir benydiór góael fy 'nghyflór
Góae ryfelór góyr ofalu
Góaón 6edd neud tau góynbryd Tegau góan a'th faddau
Góenn a golau góon ei gelu
Góen laes chóerthin góeheniaódr góin góeilging eurin
Góaór loyó iessin góyr leassu
Arien decced eirian drefred aróydd codded
Aur dy giried er dy garu
Góaón bóyll enid góen drybelid góyr faór edlid
A dogn lóyth llid góyr dygnllaith llu
Na óna feinóar ne beró tonniar góenóen hóyfar
Nid góyd oth far neud góaód ath fu
Berigl a ddel baraód ryfel budd ni'm ymgel
Bórdd iaón uchel bardd i nychu

[1]*Neu*, tyddyn.

ENGLYNION AC ODLEU

A Gant mab Clochyddyn i Wenhwyfar ec' Madawg gwraig Howel ap Tudur ap Gruffudd. O L. E. D.

Hunudd mar6gudd neud ma6r gur
Enid unrh6yf Wenh6yfar
Anrhaith eil6aith a el6ir
Yn droednoeth 6yngoeth 6ingor
G6asg6yd côr o fynor faen
G6asgarai 6yrdd cyrdd ai c6yn
G6asga6d g6a6d g6indraul haul hoen
G6isg ryoer uch g6aisg riain
Rhieiu gain gynneddf ddeddf ddoeth
Rhyhoy6 falchloy6 o feilchl6yth
Rh6ol en6ir o hiraeth
Rhoi mein6ar me6n rh6ym maen6aith
G6aith anhyfryd bryd a bronn
G6ythla6n dymp am d6f g6ymp g6ynn
Gradd fein faes greddfa6l laes Lann
Grudd g6a6r a gro lla6r ei llenn
Llen a gudd d6yrudd d6yre
Llun haelaf ger llan6 heli
Llega6d gyfunda6d faendy
Lle ceid6 saint ei braint a'i bro
De6id ger bro tonn gro grêg
Dan lla6r ael dyn llary ol6g
Dinam o aur oedd dinag
Deune haul dyno helyg
Ael bro helig tremmig tr6m
Adeu o nad-lais drais drom
Hyloy6 dra6s hoy6li6 drem
Haul a garai draul ger drum
Lloer drym llary dremyn gwalcheido
Llawr wisg ai cudd neud llwyodd
Llun balch hael llin beilch hylwydd
Lliw ———————— oedd
Oedd g6a6r ger lla6r llary fechyll
Oedd g6ael ei d6yn g6yn gynnull
Oedd g6angain lleddf ddeddf ddiell
Oedd g6ingar 6enn oedd g6enn gall
Call o'i phyll ei ph6yll oedd ddoe
Cyn colled ddaered ddir6y
Can6yll gaen hoend6yll hundai
Can aeth neud anrhaith g6eith g6ae
G6ae fi ddodi ddadl anfodd
G6aisg l6ysfun me6n g6isg lasfedd
G6a6r fa6r fireinddysg ffysg ffydd
G6yd am ergyd oi maurgudd
Hunudd mawrgudd &c.

Lliaws ofalon i Fôn a fydd
Lleufer haul ucher hyloy6 ech6ydd
Llafuriau poenau peunydd o ddarfod
Lli6 g6i6 g6ymp o gyfnod mânôd mynydd
Llafar mor h6yr6ar o'i mar6 her6ydd
Lla6er deigr is grann oedran edrydd
Lly6 nefa6l d6yfa6l dofydd oi dygiad
Lle yw ynn arnad girad gerydd
Llathr-6edd g6enn 6a6r fa6r fore hafddydd
Llithraw merch Fadawg ddeifnia6g ddefnydd
Llaw roddfrys o'i lŷs lliosydd edlid
Llym ddygn ofid prid pob prydydd
Lly6y gymmenb6yll ddid6yll dded6ydd
Lla6en ei g6yngen g6ingar ufydd
Ll6r6 eisi6ed cêd i'm cydfydd galar
Ll6yr dd6yn G6enh6yfar llun g6ar g6a6drydd
Llefais llafuriais fy lleferydd
Llafurus groy6 mal g6aith G6enddydd
Ll6yr hiraeth arfaeth ni orfydd cerdda6r
Am 6a6r drem 6yl6a6r o drym elfydd
Llun a roed dan llen orphen eurffydd
Yn lle6ychgor saint creifiaint crefydd
Llary enaid llathraid ger llethrydd morfrig
Lla6r tyno helig trig tragy6ydd
Lledfryd can dery6 i'm by6 am bydd
Lli6 lloer pan dd6yre bre a broydd
Llaryaidd a lluniaidd er llonydd riain
Lluniais ar6yrain coelfain celfydd
Lly6ia6dr amera6dr môr a grôydd
Lly6ied ail Elen i le6enydd
Lle mae didla6d ffa6d a ffydd ymgaru
Rh6ng llu ni ddarfu ac ni dderfydd
Un ni dderfydd iawn digerydd ion digaredd
Ener g6yrthau a thri gorau a thrugaredd
En6 gogoniant a gar foliant a gorfoledd
Araf riain enaid firain enid fa6redd
Eirian gangu a ddug Iesu o ddigasedd
Oedd ardderha6g a hael en6a6g a haul Wynedd
Oedd urddedig a hoen g6enig a hen6 g6ynnedd
Oedd urddas blaid a ry enaid i rianedd
A'm rhoes gan6aith g6in-ne gl6ys faith g6in a glasfedd
A'm rhoes edmyg a phob rhyfyg a phob rheufedd
A roes i fyrdd ac aur a g6yrdd ac eiry ei g6edd
A wnaeth boddiant aela6 ariant i la6eredd
O fe6n ysgrin a main ger6in y mae'n gor6edd
Llathrferch Fada6g llun balch fyna6g llin beilch fonedd
Ll6yr oleu-ne llary drem d6yre lloer drym diredd
Llithr o'i darfod llefain hynod llif anhunedd
Aeth G6enh6yfar i gaen daear o g6yn dyedd
Eigr fun anian o ga6dd gruddfan a gudd graddfedd

Ynghor crefydd ei llun ded6ydd neud
Llandud6edd
O gyfyngd6r angau dreis6r yng adrossedd
Y mae rhiain yn ei har6ain yn ei heur-
6edd
Yn en6 cyfia6n yn ei hirdda6n yn ei
harddedd
Yn rheinia6l yn rhagora6l yn nhrugar-
edd
Yn rh6y gariad ein naf 6en6lad yn nef
6in6ledd
Gwledig urddedig air ddidwyll glaerdwf
Eglurder eiry yst6yll
Cymman y gellir cymm6yll
Cymmhenda6d ei ffa6d a'i ph6yll
Mygr b6ylla6g fyna6g fanon 6ann hoy6-
fun
Wenh6yfar rudd ffion
Ma6r doeth dial gofalon
Mar6 g6raig ofynaig o Fôn

AWDL I FEFANWY FECHAN O GASTELL DINAS BRAN.

O L. E. D.

NEUD wyf ddihynwyf hoen Creirwy hoyw-
A'm hudodd fal Garwy [ged
O fan o'r byd rhwymgwyd rhwy
O fynor gaer Fefanwy

Trymmaf yw cariad tramwy hoen eur-nef
Hwn arnaf dy faccwy
Dy far feinwar Fyfanwy
Ar a'th gar ni bu far fwy

Gofyn ni allaf namyn gofwy cûr
Dug[1] mewn cariad fwy fwy
Fynawg eirian Fefanwy
Fuchudd ael fûn hael fyw'n hwy

Eurais wawdd ddidlaw ddadl rhwy eglur-
llwybr
I glaerllun Myfanwy
Euraf i haul amaerwy
Er ei mwyn o eiriau mwy

Nid hawdd ardeml cawdd ardwy adneuboen
Adnabod Myfanwy
Hoen a'th gar afar ofwy
Hoed brwyn i'r ddwyn yr ai'r ddwy[2]

[1] Dyn. – Ll. E. E.
[2] *Darnau y ddwy englyn ragvlaenawl a wnant un yn* Ll. E. E. *fal hyn :* –

Eurais wawd ddidlawd ddadl rwy adneuboen
Adnobod Myfanwy
Poen ath gar afar ofwy
Poen brwyn ei ryddwyn i ddwy.

Gorwydd cyrch ebrwydd ceirch ebran addas
Dwg dristwas dig drystan
Llwrw buost farch llary buan
Lle arlloes fre eurllŷs Frân

Gwnn beunydd herwydd herw amcan ddilyd
Ddelw berw Caswennan
Golwg deddf amlwg diddan
Gwelw freichfras brenhinblas Brân

Gyrrais a llidiais farch bron llydan hoyw
Er hoen blodau firian
Gyrrawdd[1] ofal i'r Alban
Garhir braisg ucheldir Brân

Lluniais wawd ddefawd ddifan traul ofer
Nid trwy lafur bychan
Lliw eiry cymmar[2] pen Aran
Lloer bryd lwys fryd o lŷs Frân

Mirein wawr drefawr drofa[3] brad i'm dwyn
Gwarandaw fy nghwyn frwyn freuddwyd-
iad
Mau glwyf a mawr-nwyf murniad hun oheb[4]
Gwrtheb teg atteb tu ag attad
Mi dy fardd digardd dygn gystuddiad Rhun
Gyfun laes wanllun wrth[5] lys winllad
Mynnu'dd wyf draethu heb druthiad na
gwyd
Wrthyd haul gymryd gamre wastad
Mynud hoyw fun loyw oleuad gwledydd
Glodrydd gain gynnydd nid gan gennad
Maïnt anhun hael-fun hwyl-fad em cyfoeth
Ddoeth fain oleugoeth fy nau lygad
Medron hoen goroen wyf[6] digarad was
Heb ras mau drachas o'm edrychiad
Magwyr myr wydr hydr hydreiddiad lwysle
Mygr wedd haul fore eurne arnad
Megais llwyr gludais llawer gwlad yn ddwys
Dy glod lwys cynnwys pob atceiniad[7]
Mal hy oedd ymy am wyl gariad graen
Myfanŵy hoen blaen eiry gaen gawad
Meddwl serchawl hawl liw tonn hwyliad
welw
Arddelw dygn elw[8] heb dy gynheiliad
Modd trist ni wnaeth Crist croesdeg[9]
nerthiad llwyr
Wanwyr o'i synwyr drwy lud synniad[10]
Murn boeni a mi o'm anynad hawl
Serchawl eneidiawl un fynediad
Mul y bwriais trais tros ddirnad Duw
gwyn
Tremmyn ar ddillyn porphor ddillad
Megis ti ferch rhi rhoddiad gymyrredd

[1] Gyrrawd.—Ll. E. E.
[2] Cynnar.—Ll. E. E.
[3] Dra fo.—Ll. E. E.
[4] Huno heb. Ll E. E.
[5] I'th.—Ll. E. E.
[6] Nid. Ll. E. E.
[7] Datceiniad.—Ll E. E.
[8] Dygynnelw.—Ll E. E.
[9] Im gwnaeth Crist croes-
dog.—Ll. E. E.
[10] Senniad.—Ll. E. E.

Mwyfwy anrhydedd wledd wledychiad
Marw na byw nwyf glyw gloyw lunird cyngaws
Hoednaws nid anhaws i'm am danad
Meddwl ofeiliaint braint braidd o'm gad llesmair
I gael yr eilgair wrth offeiriad
Masw imi brofi brif draethiad a wnawn
Lle ni'm rhoddi iawn ne gwawn na gwad
Mesur cawdd anawdd i ynad eglur
Adrodd fy nolur ddwysgur ddysgiad
Modd nad gwiw fy lliw[1] lleuad rhianedd
Na'm gwedd hud garedd gan[2] hoed girad
Meinir nith'[3] berthir gwn borthiad poenau
Yn nen hoen blodau blawd ysbaddad
Medraist aur delaist er adeilad gwawd
Ym nychdawd ddifrawd ddyfrys golliad
Meddylia o'th ra a'th rad i'th brydydd
Talu y cerydd Duw dofydd dad
Meddiannus Ddeus ddyad ffyddlonder
Ner dreisgwyn bryder droi gain brydiad[4]
Brydydd wyf tros glwyf trais glud hoen gwaneg
Iaith laesdeg ith lwysdud
Fynawg riain fain funud
Fun arlludd hun eirllwydd hud
Ym neud glud dy hud llydr riain wanlleddf
O'r wenllys ger din-brain
Aml yw gwawd gynnefawd gain
O'm araith i'th dwf mirain

HWYEL AP EINGION LYGLIW AI CANT.[5]

LLYWELYN GOCH AP MEURIG HEN I HOPCYN AP THOMAS.

O L. E. D.

GOGYFARCHAF naf ini a rodded
Yn llaw egored weisged wisgi
Gwawr ystrad diwad Tywi o'i dechrau
Gwrdd foesau llachau yn ein llochi
Goroff gadr baladr Beli am osgryn
Gwellyniawg Hopcyn waywryn wiwri
Llin Domas ddifas llawen ddofi cler
Llin Einiawn ener llew un ynni
Nid rhaid i eirchiaid erchi im canllaw
Ei law o'r eiddaw a wŷr roddi
Gwyrdd-las o'r dinas daioni gofeu
Gwin a phiolau gwynn a phali
Eryr glewddewr iawn arglwyddi gydfaeth
Uwch goror hoywdraeth awch gwrhydri
Eofn llwyr y gwyr egori hyd frawd
A ddywawd praffwawd y proffwydi

[1] Gwiw lliw.—Ll. E. E.
[2] Nam.—Ll. E. E.
[3] *Neu*, neuth.
[4] *Nid yw y ddau fan rhagvlaenawl yn* Ll. E. E.
[5] Edrych ai ewythr i Ruffudd Llwyd ap Dd' ap Einion lygliw oedd yr Hywel yma.—Dr. DAVIES.

Nid rhyfeddwael cael celi a'i berthwnaeth
O gampau luniaeth gwymp haelioni
Diodydd ynn rhydd ein rhi Rydderchnaws
O faril gyngaws rhydraws Rhodri
Hwyliaf addefaf o Ddyfi ardal
Trwy ochel pennial tryfal trefi
Dyyrrais[1] goethynt dros Gothi ddulas
I Fedyfnych blâs heb fod ofni
Trwy lychwr at ŵr ni ad torri ffydd
A thraw i'w geirydd[2] ni thry gwyri
Hebawg goludawg galedi wrthryn
Hopcyn goreu ynn gŵr ei eni
Lle mae draw iddaw drwy weddi ffaglawr
Croesdai neuaddawr Crist iw noddi
A lliaws draul mêdd a llestri ariant
A hir ogoniant a hwyr gyni
Gwyr a gwbl hygyrch i Gaer Gybi sant
A he yd fwyniant hyd Efenni
Gwawr gwhyr hoyw lawr ger heli amrwyf
Glywed ei fawr rwyf iw glodfori
Gael gorhoff einioes Gilgwri fwyalch
Falch ym eryrwalch uwch mawr erwi
A diwedd hywledd yn holi a wnair
Un gredadun grair uthr air a thri
Tri ac un tro ym gun gael
I luniaw cerdd aelaw wyl
Wrth ei rym wiw Arthur ail
I eryr Gwhyr gwiw hael
Haelach no neb or hoyw-lu
Heiliawdd ym win uwch heli
Hwn a orddyfnawdd hynny
Hopcyn gyttyn lygeittu
Llygatgall diball debyg
Lle mae gair oth nawdd grair grôg
Llew durwayw llyw diorwag
Llywy rydd-dal llaryeidd-deg
Leg yw oronlyw ar alarch unlliw
Wahen-lliw palffrei-farch
A hael megis mael am arch
Ac ufudd fy ngogyfarch
Gogyfarchaf naf &c.

LLYWELYN GOCH I LYWELYN FYCHAN AC I RYDDERCH EI FRAWD.

O L. E. D.

HENYNT o le ni hunir
Heol y glyn hail y glêr
Hedd hawdd ddiommedd ammor
Hirdda fawl heirdd ddau filwr
Milwriaidd gorph mal Urien
Mygr Rydderch gaethferch goethson
Meinlew ail mwyn Lywelyn
Meddgell difachell fychan

[1] *Neu*, dieres. [2] *Neu*, geurydd.

Bychan yw fy rhan o'r rhad a'r echwyn
A'r uchel ysgarlad
Hyd pan ddycco cyffro cad
Duw o Loegr ein dau lygad
Llygad ei hael wlad yw hwn
Llaryaidd Rydderch luniaidd lonn
Ail llygad y winwlad wenn
Yw fy llawlyw Llywelyn
Llywelyn uwch y glynn glwys
Rydderch gwrferch hygarfoes
Deuwr yn arwain dwyaes
Dau gyfaillt deg a gefais
Cefais iawn redais yn wirodau gwin
Yn gaened yn dlysau
Yn rhuddion feirch yn rheiddiau
Yn ra ran o dda y ddau
Dau o gennadau gwynnion ydynt dir caeth
Lloegr a aeth boed ffraeth ffrwythynt
Diwasaidd yngherdd ym dewissynt
Dewisaw gwiw ddyn dwys y gwyddynt
Rhieddawg farchawg a gyferchynt
Rhuthr milwraidd fraisg mawr-waisg morwynt
Rhydderch wrth hir-ferch ddigynghorfynt
Rhi deutu Aeron ein rhaid yttynt
Rhwydd rhag Llywelyn fo hyn o hynt
Fychan ddiymgel echel uchynt
Rhai o drumydd Lloegr bob rhyw dremynt
Rhoed y ffawd i hwn rhydiau a phynt
Gosyml y barnai er a geisynt
Rhai a'i gommeddai gemmau oeddynt
Gwerin gynnefin gwin a yfynt
Gwŷr drythyll eu byd gwir a draethynt
Braisg eu cyrph a gwaisg gwedi y gwisgynt
Brenhinedd y serch byrr iawn hunynt
Breiniau negesau a ddangosynt
A gwin y brenhin a obrynynt
Y nifer o glêr a eglurynt
Awen yn llawen iawn y llywynt
I dlodion ddynion a eiddunynt
Gael eu lles gan hael llaes gynhelynt
Deallu barddlyfr da a ellynt
Dillynion cysson ni'm atcessynt
Dechreu a chanawl hawl a holynt
Na diwedd cyfraith nid edewynt
Rhwydd bererinion rhudd a brynynt
Meirch ar ol dwysgeirch wedi dysgynt
Arfau o'r gorau aer a gurynt
Gwyrdd a rhudd-aur coeth gwrdd y rhoddynt
Pybyr Lywelyn hyn a honynt
Pabl Rydderch loyw serch ni'n dilyssynt
Par Iessu fab Mair rhag pyr ryssynt
Pob un o honun i'r lle yr henynt
Henynt o le ni hunir &c.

I LYWELYN FYCHAN AP LL'N. ABAD YSTRADFFLUR.

Llywelyn Goch ap Meurig hen ai Cant. O L. E. D.

Credaf ytt Iesu fab y croy6-dad
Crea6dr hael lly6ia6dr haul a lleuad
Credadun nef gun naf ac ynad
Crair o ddilys Fair ddeules f6riad
Can6aith ragoriaith pob rhyw gariad
Cynnorth6yaist fi geli gwyliad
A'r a6r hon etton Du6 ren attad
Rhed6n o'r di6edd ith 6lêdd ath 6lad
Y nerthaist fyfy megis neirthiad
Am argl6ydd-ly6 ym a mur g6leddólad
Am 6r eresdrefn a'm 6a6r Ystrad
Fflur ai phennadur a'i modir mad
Lly6elyn 6i6barch lluniaidd Abad
Fychan g6r difan gar6y dyfiad
Llin lly6 cynnefin lle6 cynnifiad
Lly6elyn arall ded6yddgall dad
Heiliaist ddofydd g6ynn h6yl bryn a brad
Haint a'i arwyddion hynt da roddiad
